



Ministry
of Justice

Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol

Ymateb y Llywodraeth

Mai 2022

CP 677



Ministry
of Justice

Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol

Ymateb y Llywodraeth

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn ei Mawrhydi

Mai 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn mlpaconsultation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3266-9

E02733467 05/22

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	Error! Bookmark not defined.
Cwynion neu sylwadau	Error! Bookmark not defined.
Cefndir	Error! Bookmark not defined.
Rhagair Gweinidogol	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad	7
Trosolwg o ymatebwyr	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb o gynnig 1 – rôl tystio	15
Crynodeb o gynnig 2 – rôl ceisio	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb o gynnig 3 – cylch gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC)	35
Crynodeb o gynnig 4 – sut mae gwrthwynebu	45
Crynodeb o gynnig 5 – pa bryd i wrthwynebu	55
Crynodeb o gynnig 6 – cyflymder y gwasanaeth	70
Crynodeb o gynnig 7 – mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr	78
Crynodeb o gwestiynau ychwanegol	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb o gwestiynau cydraddoldeb	Error! Bookmark not defined.
Asesiad Effaith	Error! Bookmark not defined.
Casgliadau a champau nesaf	106
Egwyddorion ymgynghori	113
Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr	114
Atodiad B: Prawf Iaith Gymraeg	115
Atodiad C: Datganiad am Gydraddoldebau	Error! Bookmark not defined.
Atodiad D: Rhestr o Dermau	Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngoriad ar gyfer y papur ymgynghori, Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol.

Bydd yn rhoi sylw i:

- gefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â'r tîm **Polisi Galluedd Meddyliol** yn y cyfeiriad isod:

Mental Capacity Policy team

Post point 7.25

Ministry of Justice

102 Petty France

London SW1H 9AJ

E-bost: mlpaconsultation@justice.gov.uk

Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk>

Gellir gofyn am fersiynau fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn trwy anfon neges e-bost at: mlpaconsultation@justice.gov.uk.

Cwynion neu Sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol' ar 20 Gorffennaf 2021. Gwahoddodd sylwadau ar gynigion i foderneiddio'r gwasanaeth Atwrneiaeth Arhosol (AA) sy'n cael ei oruchwylio gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC)

1. Rôl tystio. Gwnaethom archwilio sut y gallwn gyflawni hyn gan ddefnyddio technoleg i gefnogi tystio o bell neu i gymryd lle'r tyst. Os nad oes gwerth, gwnaethom ystyried cael gwared ar yr angen am dyst.
2. Rôl ceisio. Gwnaethom edrych ar sut i leihau'r siawns o AA yn cael ei gwrthod gan SGC a manteision cwtogi neu gynnal yr oedi rhwng gweithredu a chofrestru.
3. Cylch gwaith SGC. Gwnaethom archwilio sut i ehangu cylch gwaith SGC fel y gallai wirio hunaniaeth pobl ac atal neu oedi cofrestriad AA os oes ganddo bryderon amdani.
4. Sut mae gwrthwynebu. Gwnaethom edrych ar sut i symleiddio'r broses bresennol i sicrhau bod pobl yn deall yn haws ble i anfon gwrthwynebiadau a sut i wneud hynny.
5. Pa bryd i wrthwynebu. Gwnaethom archwilio ar ba bwynt ac am ba mor hir y gellir gwneud gwrthwynebiadau cyn i AA gael ei chofrestru, ac os yw hyn yn parhau i ddiogelu'r rhoddwr.
6. Cyflymder y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar a fyddai gwasanaeth brys yn darparu buddion ychwanegol o gymharu â gwasanaeth sy'n gyflymach i bawb, gan ystyried a allai gwasanaeth pwrpasol weithio heb wneud y broses yn fwy cymhleth i ddefnyddwyr ac i SGC.
7. Mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr. Gwnaethom edrych ar a fyddai'n bosib cyflawni hyn trwy integreiddio ein gwasanaeth gyda systemau rheoli achosion cyfreithwyr, neu a fyddai angen mandadu rhan o'r gwasanaeth neu'r gwasanaeth cyfan.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 13 Hydref 2021 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y dylai'r broses ymgynghori ddylanwadu ar ffurf derfynol / datblygiad pellach y polisi / cynnig a ymgynghorwyd arno.

Diweddarwyd yr Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad i ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Atodir fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad Effaith.

Darperir papur ymateb Saesneg i gyd-fynd â'r papur ymateb Cymraeg hwn.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o ymatebwyr.

Rhagair Gweinidogol



Er nad oes llawer ohonom yn hoffi meddwl neu siarad amdano, bydd rhai ohonom yn profi amgylchiadau lle nad ydym bellach yn gallu gwneud ein penderfyniadau ein hunain oherwydd colli galluedd meddyliol. Gallai hyn fod oherwydd clefyd neu salwch fel dementia, neu drwy ddamwain. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig bod hawliau a rhyddid pobl yn cael eu diogelu, a bod hi'n bosibl cymryd camau cynnar i benodi pobl y maent yn ymddiried ynddynt i weithredu ar eu rhan.

Mae Atwrneiaeth Arhosol (AA) yn bodoli at y diben hwn. Cafodd ei chyflwyno gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn 2007 gyda'r nod o wneud gwelliannau dros y system flaenorol o

Atwrneiaeth Barhaus (AB). Mae'n ddogfen bwysig sy'n caniatáu i bobl gyfleu eu dymuniadau a'u dewisiadau ar gyfer sut y dylid gwneud penderfyniadau yn eu dyfodol, os na fyddant yn gallu eu gwneud nhw.

Yn aml, rydym yn cymryd y gallu i wneud ein penderfyniadau ein hunain yn ganiataol, ond gellir colli'r gallu hwn mewn amrant. O ganlyniad, mae'n hanfodol bwysig bod pawb yn ystyried gwneud AA i sicrhau bod eu harian, iechyd a lles yn cael eu cynnal yn y ffordd y byddent yn dymuno. Credaf y dylai pawb mewn cymdeithas elwa o'r amddiffyniadau a ddarperir gan AA.

Mae moderneiddio yn darparu cyfle i ddiweddarau'r amddiffyniad hwn i gyd-fynd â'r byd newydd a'r symudiad cynyddol tuag at ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae cyfleoedd newydd i wella mesurau diogelu yn erbyn twyll, cam-drin a phwysau gormodol. Ar yr un pryd, gallwn wneud Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC) yn fwy cynaliadwy trwy fwy o effeithlonrwydd, a gwneud AAau yn fwy hygyrch trwy sianeli creu lluosog.

Am y rhesymau hyn, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad ar foderneiddio Atwrneiaethau Arhosol ym mis Gorffennaf y llynedd. Nod y cynigion oedd cynyddu mesurau diogelu, gwella mynediad a chyflawni cynaliadwyedd i SGC. Dyma fy nodau o hyd, yn enwedig y ffocws ar wella mesurau diogelu yn ystod y cyfnod creu a chofrestru, a'r angen i foderneiddio gweithrediadau SGC i gyflawni hyn.

Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a sefydliadau a gymerodd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad a darparu eu mewnwelediadau yn y gweithdai ymgysylltu. Rwy'n arbennig o falch o weld bod llawer mwy o aelodau'r cyhoedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn o gymharu â'r rhai a gynhaliwyd yn flaenorol ar y mater hwn. Mae'r safbwyntiau niferus ac amrywiol a

ddarparwyd yn cael eu nodi'n fanylach yn y ddogfen sy'n dilyn, ond rwy'n cael fy annog o weld, yn gyffredinol, bod yr ymateb i nifer o'r cynigion a amlinellwyd yn gadarnhaol.

Rwy'n gobeithio nad yw'r ymateb hwn yn cynrychioli diwedd ein hymgysylltiad â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau wrth ddatblygu'r system hon. Mae fy swyddogion yn parhau i gynnal gwaith ymchwil a phrofi trwy sesiynau 1:1 a gweithdai. Felly, byddwn yn annog unrhyw un sy'n darllen yr ymateb hwn ac sy'n teimlo bod ganddynt wybodaeth, profiad neu dystiolaeth a allai fod yn ddefnyddiol, i gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir.

Yn olaf, hoffwn bwysleisio unwaith eto y pwysigrwydd ein bod yn moderneiddio AAau mewn ffordd sy'n iawn i roddwyr. Nhw yw'r rhai sy'n dewis eu hatwrneiod, nhw yw'r rhai a ddylai osod cwmpas y pwerau y maent yn dymuno eu rhoi o dan AA, a'u hawliau a'u rhyddid nhw sydd yn rhaid i ni eu diogelu a'u hwyluso trwy'r gwasanaeth hwn. O ganlyniad, mae'n parhau i fod yn wir fod eu hanghenion yn hollbwysig a rhaid iddynt gael eu blaenoriaethu o flaen rhai unrhyw barti arall wrth i ni geisio gwneud newidiadau.



Tom Pursglove AS

Y Gweinidog dros Gyfiawnder a Mynd i'r Afael â Mudo Anghyfreithlon

Cyflwyniad

1. Mae Atwrneiaeth Arhosol (AA) yn gytundeb cyfreithiol a lywodraethir gan y gyfraith ar weithredoedd a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (DGM). Mae'r DGM wedi'i dylunio i amddiffyn a grymuso pobl sydd heb y galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal, eu triniaeth a materion ariannol, ac mae AAau yn chwarae rôl bwysig o fewn y fframwaith hwn. Mae AA yn caniatáu i unigolyn (y rhoddwr) benodi rhywun y maent yn ymddiried ynddo (atwrnai) i wneud penderfyniadau iddynt am eu heiddo a'u materion a / neu iechyd a lles pe baent yn colli'r galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau o'r fath dros eu hunain.
2. Mae AA eiddo a materion yn cwmpasu penderfyniadau megis prynu a gwerthu eiddo neu reoli cyfrif banc neu fuddsoddiadau. Mae AA iechyd a llesiant yn gallu cwmpasu penderfyniadau am driniaeth feddygol neu drefniadau gofal. Er mwyn sicrhau bod y rhoddwr yn deall pwrpas a chwmpas yr awdurdod a roddir gan yr AA, rhaid i unigolyn annibynnol, a elwir yn ddarparwr tystysgrif, gadarnhau bod y rhoddwr yn deall yr AA ac nad oedd unrhyw dwyll na phwysau gormodol wedi cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y rhoddwr i'w wneud.
3. Yn ogystal, gwnaeth y DGM greu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC), asiantaeth weithredol sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae SGC yn sefydliad a ariennir gan ffioedd ac mae'n gyfrifol am:
 - Gofrestru AAau (rhaid cofrestru AA gyda SGC cyn y gellir ei defnyddio);
 - Cymryd camau lle mae pryderon am atwrnai.

Sut y caiff AA ei chreu a'i chofrestru?

4. Oherwydd bod AA yn weithred, rhaid ei llofnodi, ei thystio, ei hardystio a'i chyflwyno er mwyn iddi fod yn ddilys o dan y DGM. Ar hyn o bryd, mae hyn yn gofyn am broses bapur.
5. Rhaid i roddwyr ac atwrnai ddilyn proses benodol er mwyn cwblhau AA:
 1. Rhaid llenwi manylion yr AA un ai ar bapur neu ar-lein;
 2. Os gwneir hynny ar-lein, rhaid argraffu'r AA;
 3. Rhaid i'r AA gael ei llofnodi mewn trefn benodol gan y rhoddwr a'i dyst, y darparwr tystysgrif, a phob atwrnai a'u tystion;

4. Yna, rhaid anfon yr AA trwy'r post at SGC a thalu ffi o £82. Yn ogystal, rhaid i'r ceisydd (yr unigolyn sy'n gwneud cais i gofrestru) anfon llythyrau hysbysu i'r unigolion a nodir yn yr AA, er mwyn eu hysbysu nhw o'r cofrestriad;
5. Bydd SGC yn prosesu'r AA ac yn cynnal gwiriadau ar yr AA;
6. Yna, mae cyfnod aros statudol 4 wythnos o hyd, er mwyn rhoi cyfle i'r rhoddwr, atwrneiod ac unrhyw unigolion sydd wedi derbyn hysbysiad i wrthwynebu'r cofrestriad;
7. Os ni dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd SGC yn ychwanegu'r AA i'w gofrestr;
8. Dychwelir yr AA papur at y ceisydd trwy'r post, gyda marc i gadarnhau ei bod wedi cael ei chofrestru.

Yr achos dros newid

6. Mae'r amddiffyniadau presennol o fewn y system AA yn colli eu heffeithiolrwydd wrth i dechnoleg wella ac wrth i agweddau cymdeithas newid. Mae pobl yn dod yn fwy cyfarwydd â chyrchu gwasanaethau'r llywodraeth yn effeithlon ar-lein. Mae'r Pandemig Coronafeirws (Covid-19) wedi cyflymu'r disgwyliad hwn ymhellach, ond mae hefyd wedi gweld llawer o bobl, oedd yn anghyfarwydd â thechnoleg ddigidol yn flaenorol, yn cofleidio ffyrdd newydd o ryngweithio â sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir hyn yn adborth defnyddwyr bod y broses bapur yn feichus, yn fiwrocraidd ac yn gymhleth. Yn benodol, mae'r gofyniad i lofnodi'r AA mewn trefn benodol yn peri llawer o anawsterau logistaidd. O ganlyniad, mae angen y sianel ddigidol er mwyn diwallu'r galw a gwella mynediad i ddefnyddwyr.
7. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu gwell mynediad yn erbyn mesurau diogelu. Yn awr, gall SGC ddefnyddio datblygiadau technolegol a ddatblygwyd dros y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf i gynyddu mesurau diogelu ar gyfer y rhoddwr yn erbyn twyll, cam-drin a phwysau gormodol. Mae hyn yn cynnwys offer digidol i wirio hunaniaeth yn gyflym ac yn ddiogel. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y pryderon sydd gan bobl am ddiogelwch a mesurau diogelu i atal cam-drin systemau digidol. Yn ogystal, rhaid i ni sicrhau bod dewisiadau amgen priodol ar waith, sy'n cynnwys mesurau diogelu, ar gyfer pobl na allant ddefnyddio llwybrau digidol, neu sy'n dewis peidio â'u defnyddio.
8. Y ffordd fwyaf diogel o sicrhau bod rhywun yn dweud y gwir o ran ei hunaniaeth yw eu gwirio yn erbyn dull adnabod ffotograffig dilys mewn amser real. Fodd bynnag, nid oes gan SGC unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb ag unrhyw barti sy'n ymwneud ag AA, felly nid oes modd cymharu'r unigolyn sy'n cyflwyno'r dull adnabod â'r llun sydd ynddo yn yr un modd ag y byddai gwasanaeth wyneb yn wyneb yn ei wneud. O ganlyniad, rhaid i SGC fanteisio ar dechnoleg i ddilysu hunaniaeth unigolion yn ddigidol.

Pwrpas yr ymgynghoriad

9. Y materion a amlinellir uchod yw'r rheswm bod y prosiect Moderneiddio AA wedi cael ei weithredu, ac fe'u hadlewyrchir yn nodau'r prosiect, sef:
 1. Cynyddu mesurau diogelu, yn enwedig i'r rhoddwr;
 2. Gwella'r broses o wneud a chofrestru AA i roddwyr, atwrneiod a thrydydd partïon;
 3. Sicrhau cynaliadwyedd SGC a sicrhau bod AAau yn fforddiadwy i bobl o bob rhan o gymdeithas.

10. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o anghenion ein defnyddwyr (cyhoeddus, proffesiynol a thrydydd partïon eraill) a'r dystiolaeth sydd ar gael i bennu'r diwygiadau cywir ar gyfer y system. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil defnyddwyr, profi prototeip a sefydlu gweithgor rhanddeiliaid. Nodwyd y cynigion dilynol, sy'n canolbwyntio ar y newidiadau lefel uchel sydd eu hangen i ddeddfwriaeth sylfaenol, yn yr ymgynghoriad a lansiwyd ar 20 Gorffennaf 2021. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd ein helpu i gasglu tystiolaeth ar y ffordd orau o wneud cynnydd a datblygu gwasanaeth modern.

11. Dyma'r saith cynnig oedd yn rhan o'r ymgynghoriad:
 1. **Rôl Tystio** – a oes gwerth i rôl y tyst ac, os oes, sut i gynnal y gwerth hwn o fewn gwasanaeth yn y dyfodol.
 2. **Rôl Ceisio** – beth yw pwrpas y cais o fewn y broses o greu a chofrestru AA a phwy all wneud cais i gofrestru un.
 3. **Cylch Gwaith SGC** – ystyried ffyrdd o ehangu grym SGC o ran deddfwriaeth i ddarparu eglurder o ran y gwiriadau y gall eu cyflawni a'r camau y gall eu cymryd o ganlyniad i'r gwiriadau hynny.
 4. **Sut mae gwrthwynebu** – sut i egluro a symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer gwrthwynebu cofrestriad AA.
 5. **Pa bryd i wrthwynebu** – ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi gwahanol brosesau ar gyfer gwahanol fathau o wrthwynebiadau. Y nod yw ei gwneud yn haws i'r rheini sydd am godi gwrthwynebiad i wneud hynny.
 6. **Cyflymder y Gwasanaeth** – a oes angen gwasanaeth hyd yn oed yn gyflymach ac, os oes, sut i gydbwyso hynny yn erbyn y mesurau diogelu sydd eu hangen a rhwyddineb mynediad i'r defnyddwyr hynny.
 7. **Mynediad i'r Gwasanaeth gan Gyfreithwyr** – ystyried ffyrdd o gefnogi cyfreithwyr i ddefnyddio gwasanaeth modern a newydd trwy ddefnyddio systemau digidol integredig a gofynion deddfwriaethol.

12. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Hydref 2021 a derbyniwyd 313 o ymatebion. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn nodi camau nesaf arfaethedig y Llywodraeth. Mae'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar, ac wedi ein

galluogi i nodi rhai o'r newidiadau allweddol y bydd angen eu gwneud i wella mynediad, cynyddu mesurau diogelu a chyflawni cynaliadwyedd ar gyfer SGC. Fodd bynnag, mae hefyd wedi nodi meysydd lle mae angen i ni ystyried ymhellach y ffordd iawn i symud ymlaen. O ganlyniad, rydym yn hyderus y gallwn adeiladu gwasanaeth AA modern a chynaliadwy ar gyfer SGC, sy'n cynnwys sianel ddigidol a phapur, wrth gynnal ymddiriedaeth, gwella mesurau diogelu a chynyddu mynediad defnyddwyr yn y cyfnod modern newydd hwn.

Nodyn ar y derminoleg

13. Caiff AA ei chreu yn gyfreithiol o dan y DGM pan gaiff ei chofrestru gan SGC. Tan hynny, bydd y rhoddwr ond yn cwblhau 'offeryn sydd wedi'i fwriadu i greu' AA. At ddiben symlrwydd, trwy gydol yr ymgynghoriad hwn rydym yn cyfeirio at:
 - 'AA' yn y ddau amgylchiad, ac eithrio wrth gyferbynnu'r 'Offeryn AA' gyda'r 'Cais i Gofrestru' o fewn ffurflenni AA; ac
 - Mae 'creu' yn golygu'r broses y mae'r rhoddwr yn ymgysylltu â hi trwy wneud penderfyniadau a drafftio'i AA, o'i gymharu â chofrestriad, sef y broses lle mae SGC yn gwirio ac yn ychwanegu'r AA at y gofrestr at ddiben ei defnyddio.
14. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o ymatebwyr.
15. Mae Atodiad B yn cynnwys prawf effaith ar yr iaith Gymraeg.
16. Mae Atodiad C yn cynnwys datganiad am gydraddoldebau.
17. Mae Atodiad D yn cynnwys rhestr o dermau.
18. Yn ogystal, mae asesiad effaith ar gael i gefnogi'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Trosolwg o Ymatebwyr

19. Cawsom gyfanswm o 313 o ymatebion i'r ymgynghoriad, sydd bellach wedi cael eu dadansoddi. Yn ogystal, cawsom 4 ymateb na chawsant eu cyfrif. Roedd pob un o'r rhain yn ymatebion a dderbyniwyd drwy'r hwb ymgynghori. Roedd 2 ohonynt yn wag ac yn cynnwys dim gwybodaeth o gwbl, roedd 1 yn cynnwys cwestiwn am achos sydd ger bron SGC ar hyn o bryd, a'r pedwerydd yn cynnwys gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n cael sylw manylach yn y prawf effaith ar yr iaith Gymraeg yn Atodiad B.
20. Cafodd yr holl ymatebion eu gwirio i sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu. Lle'r oedd dyblygu, dim ond un o'r ymatebion a dderbyniwyd a gafodd ei ystyried fel rhan o'n dadansoddiad. Darparodd un sefydliad ymateb, cyn anfon atebion atodol ychwanegol atom, ac mae'r ddau ymateb wedi'u cynnwys a'u coladu fel un ymateb at ddibenion dadansoddi.

Mathau o Ymatebwyr:

21. Gofynnem i ymatebwyr ddatgan ym mha swyddogaeth yr oeddent yn ymateb i'r ymgynghoriad. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 123 ohonynt oddi wrth aelodau'r cyhoedd, 132 oddi wrth unigolion sydd â diddordeb proffesiynol mewn AAau, a 53 yn ymatebion ar ran sefydliad. Roedd 5 ymateb yn cynnwys dim gwybodaeth o gwbl. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr lawn o'r rheini a ymatebodd.
22. Mae'n werth pwysleisio'r 123 aelod o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan fod hyn yn arddangos lefel llawer uwch o ymgysylltiad o gymharu ag ymgynghoriadau AA blaenorol yn 2012 a 2013, a dderbyniodd llai na 30 o ymatebion yr un gan aelodau'r cyhoedd.
23. Yn ogystal, gofynnwyd i bob math o ymatebydd nodi'r rheswm dros eu diddordeb mewn AAau. Llenwodd rhai ymatebwyr fwy nag un o'r blychau gwybodaeth ychwanegol hyn – er enghraifft, nododd rhai eu bod nhw'n weithwyr proffesiynol, cyn darparu gwybodaeth am ddiddordeb personol, diddordeb proffesiynol a/neu ddiddordeb sefydliad. At ddibenion yr ystadegau a nodir isod, dim ond y "rheswm dros ddangos diddordeb" a oedd yn cyd-fynd â'r "swyddogaeth yr oedd unigolyn yn ymateb ynddi" a gafodd ei gyfrif.
24. Ymhlith aelodau'r cyhoedd, dadansoddwyd y prif resymau dros ddangos diddordeb fel a ganlyn:

Ffigur A: Rheswm dros ddangos diddordeb	Ymatebion
Rydw i, neu rydw i wedi bod, yn atwrnai ar AA	35
Mae gen i AA	27
Rydw i'n ystyried gwneud AA	19
Rydw i'n mynd i fod yn atwrnai	16
Rydw i'n adnabod rhywun sydd ag AA neu sydd yn atwrnai	7
Roeddwn i'n dyst	3
Roeddwn i'n ddarparwr tystysgrif	2
Dim un o'r uchod	10
Ni ddarparwyd ateb	4
Cyfanswm	123

25. Derbyniwyd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion hyn felly gan unigolion a oedd naill ai'n rhoddwyr neu'n atwrneiod, neu a oedd ar fin dod yn rhoddwyr neu'n atwrneiod.
26. Ymhlith yr unigolion oedd â diddordeb proffesiynol, dadansoddwyd y prif resymau dros ddangos diddordeb fel a ganlyn:

Ffigur B: Rheswm dros ddangos diddordeb	Ymatebion
Cyfreithiwr	81
Awdur ewyllys neu ymarferydd ystadau	17
Proffesiwn cyfreithiol arall	16
Gofal iechyd	5
Gofal cymdeithasol	5
Elusen neu drydydd sector	2
Llywodraeth leol	1
Ymchwil neu academiaidd	1
Arall	4
Cyfanswm	132

27. Cyfreithwyr oedd y grŵp ymatebwyr mwyaf o bell ffordd yn y categori diddordeb proffesiynol. Dilynwyd hyn gan awduron ewyllysiau, ymarferwyr ystadau a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eraill (yr oedd y mwyafrif ohonynt yn weithredwyr cyfreithiol siartredig). Nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried bod ffocws yr ymgynghoriad ar wneud AAau, yn hytrach na'u defnyddio.
28. Yn olaf, ymhlith sefydliadau, dadansoddwyd y prif resymau dros ddangos diddordeb fel a ganlyn:

Ffigur C: Rheswm dros ddangos diddordeb	Ymatebion
Cyfreithwyr	14
Elusen neu drydydd sector	9
Gweithwyr proffesiynol cyfreithiol eraill	9
Awdur ewyllys ac ymarferwyr ystadau	6
Bancio	2
Gofal cymdeithasol	2
Gofal iechyd	1
Yswiriant	1
Llywodraeth leol	1
Arall	8
Cyfanswm	53

29. Unwaith eto, sefydliadau cyfreithwyr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn, ond dilynwyd hyn gan elusennau a sefydliadau trydydd sector, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol eraill ac awduron ewyllysiau ac ymarferwyr ystadau. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu cwmpas yr ymgynghoriad a ganolbwyntiodd ar wneud AAau, yn hytrach na defnyddio AAau. Roedd y grŵp 'arall' hefyd yn sylweddol ac yn cynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaethau digidol, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ymdrinnir â chwestiynau sy'n ymwneud â materion sy'n benodol i Gymru yn y prawf effaith ar yr iaith Gymraeg yn Atodiad B.

Lleoliad:

30. Daeth 244 o'n hymatebion gan bobl neu sefydliadau a nododd eu bod wedi'u lleoli yn Lloegr, tra roedd 17 gan bobl neu sefydliadau o Gymru. Ni roddodd 48 o ymatebwyr unrhyw wybodaeth am lleoliad. Yn ogystal, cawsom 4 ymateb gan unigolion yn yr Alban ac 1 gan unigolyn sydd bellach yn byw yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae'r 5

ymateb hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad oherwydd bod yr atebion a roddwyd yn ymwneud â sut mae AAau yn gweithio yng Nghymru a Lloegr.

Ymateb ymgyrch:

31. Cawsom un set o ymatebion ymgyrch. Ymateb ymgyrch yw pan fydd unigolion neu sefydliadau lluosog yn anfon ymatebion sydd naill ai'n union yr un fath neu'n debyg iawn i'w gilydd. Trefnwyd yr ymateb ymgyrch penodol hwn gan weithwyr proffesiynol, cyfreithwyr yn bennaf, sydd â diddordeb mewn AAau. Roeddem yn gallu cysylltu 37 o'r 313 o ymatebion i'r ymgyrch hon. Darparodd 33 o weithwyr proffesiynol unigol ymateb ymgyrch, yn ogystal â 4 sefydliad.
32. Mae'n rhaid i ni nodi, er bod pob ymdrech wedi'i wneud i nodi'r holl ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgyrch, efallai bod rhai wedi'u methu. Y rheswm am hyn yw er bod yr ymatebion hyn bron yn union yr un fath o ran eu hatebion a'u cynnwys, roeddent yn amrywio o ran geiriad y rhesymau o bryd i'w gilydd, ac roedd rhai ymatebwyr yn newid geiriad eu hatebion neu'n rhoi rhesymau a gwybodaeth ychwanegol i adlewyrchu eu safbwyntiau personol. Gallai'r newidiadau hyn fod wedi arwain atynt yn peidio â chael eu nodi fel ymateb ymgyrch.
33. Er i ni gyfrif yr ymatebion ymgyrch fel ymatebion unigol at ddiben dadansoddi, rydym ni wedi tynnu sylw atynt yn ein crynodeb o bob cwestiwn isod er mwyn sicrhau ei bod yn eglur ble mae hynny wedi effeithio ar yr ymgyngoriad.

Crynodeb o Gynnig 1 – rôl tystio

Cefndir

34. O dan y cynnig hwn, gwnaethom ystyried a oes gwerth yn rôl y tyst (yn wahanol i rôl y darparwr tystysgrif). Edrychwyd hefyd ar sut, pe bai'r tyst yn ychwanegu gwerth, i gadw hynny o fewn gwasanaeth yn y dyfodol lle byddai dulliau digidol o greu a gweithredu AA yn bosibl, wrth gryfhau mesurau diogelu.
35. Ar hyn o bryd, hyderir bod y tyst yn berson go iawn a oedd yn bresennol i ardystio llofnodion y partiön, a gwyddom fod y partiön yn gweld y gofyniad llofnodi yn gymhleth ac yn feichus. O ganlyniad, fe wnaethom ystyried newidiadau a allai greu tystiolaeth gadarn bod cytundeb wedi'i wneud heb beryglu diogelwch y ddogfen ei hun na rhannau eraill o'r broses a symleiddio'r system. Defnyddiwyd tri dull gwahanol i asesu hyn.
36. **Dull 1a – cael gwared ar dystio.** Byddai hyn yn golygu cael gwared ar yr angen i dystio llofnodion a pheidio â disodli'r gofyniad hwn gyda rhywbeth arall. Ategwyd y dull hwn gan y syniad bod tystio yn methu â darparu unrhyw fesurau diogelu ychwanegol nad ydynt eisoes wedi'u hymgorffori mewn adrannau eraill o'r cyfnod creu a chofrestru. O ganlyniad, ni fyddai cael gwared ar dystion yn effeithio ar fesurau diogelu ond gallai ei gwneud yn haws creu AA drwy ddileu cymhlethdod y broses lofnodi a chofrestru trwy leihau nifer yr AAau na ellir gweithredu arnynt oherwydd gwallau llofnodi a thystio.
37. **Dull 1b - tystio o bell.** Byddai hyn yn golygu defnyddio fideo-gynadledda i ganiatáu i berson fod yn dyst i lofnodi dogfen dra'i fod mewn lleoliad gwahanol i'r rhoddwr neu'r atwrnai. Byddai hyn yn symleiddio'r broses creu gan na fyddai defnyddwyr bellach yn wynebu'r rhwystr o geisio cael pawb i fod yn bresennol yn yr un ystafell wrth gynnal y mesurau diogelu a ddarperir gan dyst. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn tybio y byddai defnyddwyr yn gyfforddus yn defnyddio technoleg i dystio llofnodion, ac y byddai hynny'n well ganddynt.
38. **Dull 1c – mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio.** Byddai hyn yn golygu defnyddio technoleg i atgynhyrchu tystio. Byddai'r angen i unigolyn i dystio i lofnodion yn cael ei ddileu a byddai dulliau eraill yn cael eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth bod y rhoddwr a'r atwrnai wedi gweithredu'r AA. Mae'r dull hwn yn tybio y gallai diogelwch tystio gael ei atgynhyrchu'n ddigidol, ac y byddai defnyddwyr yn gallu defnyddio system yn gyfrinachol lle mae technoleg yn disodli'r swyddogaeth hon.

39. Y dull a ffafrir gan y llywodraeth oedd **mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio**. Roedd hyn oherwydd tystiolaeth a oedd yn dangos bod tystio yn darparu amddiffyniad pan fydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r darparwr tystysgrif a gofynion profi hunaniaeth. Er y byddai'r symleiddio'n cael ei groesawu gan ddefnyddwyr, gallai cael gwared ar y tyst gyfaddawdu'r mesurau diogelu oherwydd y gall tystio gael ei drin yn ddeheuig, e.e. lle mai gorfodaeth neu dwyll yw'r cymhellion. Roedd tystiolaeth yn dangos na fyddai tystio o bell yn datrys y mater hwn. Ystyriwyd felly mai disodli'r tyst oedd y ffordd orau o gael tystiolaeth gadarn bod cytundeb wedi'i wneud yn gyfreithlon.
40. Gofynnwyd i'r ymatebwyr archwilio pob un o'r dulliau a amlinellwyd a rhoi rhesymau dros eu hatebion:

C1: Beth yw eich barn ar y cynigion a amlinellwyd? Rhowch eich rhesymau dros eich ymatebion:

- Cael gwared ar dystio (dull 1a)
- Tystio o bell (dull 1b)
- Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio (dull 1c)

Ymatebion i gwestiynau penodol

C1: Beth yw eich barn ar y cynigion a amlinellwyd? Rhowch eich rhesymau dros eich ymatebion: Cael gwared ar dystio (dull 1)

41. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
42. Nodir yr atebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 1. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn bennaf negyddol, gyda 198 o ymatebwyr yn darparu safbwynt negyddol neu negyddol yn bennaf (69% o'r 289 ymateb). Dim ond 57 o ymatebwyr ddarparodd atebion cyffredinol cadarnhaol (19%). Roedd y ffigyrau'n cynnwys 37 o ymatebion a oedd yn rhan o'r ymateb ymgyrch, gyda phob un ohonynt yn negyddol.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	289	30 (10%)	27 (9%)	27 (9%)	36 (13%)	162 (56%)	7 (2%)
Y cyhoedd	110	17 (16%)	19 (17%)	14 (13%)	16 (15%)	38 (35%)	6 (6%)

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Gweithwyr proffesiynol	129	6 (5%)	4 (3%)	11 (9%)	14 (11%)	93 (72%)	1 (1%)
Sefydliadau	46	5 (10%)	4 (9%)	2 (4%)	6 (13%)	29 (63%)	0

Ffigur 1. Ymatebion i Gwestiwn 1-1a.

43. Y cyhoedd oedd y lleiaf negyddol o'r holl fathau o ymatebwyr, ond roeddent yn parhau i fod yn negyddol yn gyffredinol o ran eu barn, gyda 49% o'r ymatebion yn rhoi barn negyddol (54 o 110 o ymatebion). Mae hynny'n cymharu ag 82% o weithwyr proffesiynol, a oedd fwyaf negyddol (107 o 129 o ymatebion), a 76% o sefydliadau (35 o 46 o ymatebion). Roedd y cyhoedd hefyd yn fwy tebygol o ateb 'niwtral' (13%) neu 'ddim yn gwybod' (6%) o gymharu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau.

Themâu:

44. O'r 289 o ymatebion, rhoddodd 215 resymau dros eu hatebion. Y prif resymau oedd pryderon negyddol, sy'n cyd-fynd â'r nifer uchel o ymatebion meintiol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon y byddai cael gwared ar y tyst yn achosi neu'n cynyddu twyll, yn arwain at gynnydd mewn cam-drin a gorfodaeth ac yn creu ansicrwydd ynghylch sut y byddai tystiolaeth o weithredu yn cael ei gyflwyno. O'r grŵp olaf hwn, nododd rhai y gellir galw'r tyst i gadarnhau bod y rhoddwr wedi llofnodi'r ddogfen. Yn ogystal, cafwyd rhai ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar naill ai wella dealltwriaeth y tyst o'r DGM neu y dylai'r tyst helpu i wella dealltwriaeth y rhoddwr o'r AA. Yn olaf, cyfeiriodd nifer o ymatebion at dystio fel mesur diogelu, er nad oedd pob un ohonynt yn ymhelaethu ar pam.
45. Yn groes i hyn, y prif bwynt a godwyd yn yr ymatebion oedd nad yw tystio, fel y mae, yn fesur diogelu cadarn. Fe wnaethant ddyfynnu rhesymau, gan gynnwys y gellir ei osgoi ac mai dim ond ffurfioldeb sy'n creu "effaith plasebo" ydyw. Yn fwyaf nodedig, nododd Cymdeithas y Bar y Llys Gwarchod mai "anaml y mae aelodau eu gweithgor wedi dod ar draws achosion o ofyn i dystion AA ddarparu tystiolaeth ynghylch gweithredu AA mewn anghydfodau ynghylch dilysrwydd a ddaw gerbron y Llys Gwarchod", gan ddatgan mai'r darparwr tystysgrif sy'n gwneud hynny yn fwy cyffredin. Yn ogystal, nododd ymatebwyr bod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â thystio yn gallu arwain at gamgymeriadau.
46. Yn ogystal, soniodd nifer o ymatebion am y darparwr tystysgrif, goblygiadau'r newidiadau i'r tyst a'r darparwr tystysgrif, ac i'r gwrthwyneb. Cafwyd sylwadau hefyd

am statws yr AA fel gweithred. Ystyrir yr ymatebion hyn, ynghyd ag ymatebion tebyg i gwestiwn 1-1b a chwestiwn 1-1c, ar ddiwedd yr adran hon.

C1: Beth yw eich barn ar y cynigion a amlinellwyd? Rhowch eich rhesymau dros eich ymatebion: Tystio o bell (dull 1b)

47. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
48. Nodir yr atebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 2. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn bennaf negyddol, gyda 167 o ymatebwyr yn darparu safbwynt negyddol neu negyddol yn bennaf (58% o'r 286 ymateb). Er yn negyddol, mae hyn yn llai negyddol yn gyffredinol na'r ymatebion i ddull 1a. Roedd safbwyntiau 'niwtral' a 'ddim yn gwybod' hefyd yn is, gan arwain at gynnydd cyfatebol mewn ymatebion cadarnhaol cyffredinol, gyda 25% yn mynegi barn o'r fath (70 o 286). Roedd y ffigyrau'n cynnwys 37 o ymatebion a oedd yn rhan o'r ymateb ymgyrch, gyda phob un ohonynt yn negyddol.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	286	28 (10%)	42 (15%)	38 (13%)	120 (42%)	120 (42%)	11 (4%)
Y cyhoedd	107	18 (17%)	24 (22%)	15 (14%)	23 (22%)	23 (22%)	9 (8%)
Gweithwyr proffesiynol	129	4 (3%)	12 (9%)	16 (12%)	74 (57%)	74 (57%)	2 (2%)
Sefydliadau	46	6 (13%)	6 (13%)	7 (15%)	21 (46%)	21 (46%)	0

Ffigur 2. Ymatebion i gwestiwn 1-1b

49. Roedd y cyhoedd wedi'u rhannu mewn perthynas â'r dull hwn, gyda niferoedd cyfartal yn mynegi barn gyffredinol gadarnhaol neu negyddol; 39% o'r ymatebion yn y ddau achos – 42 cadarnhaol a 41 negyddol. Arhosodd ymatebion 'niwtral' a 'ddim yn gwybod' tua'r un lefel ag ar gyfer dull 1a.
50. Arhosodd gweithwyr proffesiynol yn negyddol ar y cyfan tuag at y dull hwn ar 73% (95 o ymatebion), er eu bod yn llai negyddol na dull 1a. Ar gyfer y grŵp hwn, arweiniodd hyn at ymateb niwtral uwch ar gyfer y dull hwn, gan gynyddu o 9% ar gyfer dull 1a i 12% (16 ymateb) fan hyn.
51. Yn olaf, fel y gweithwyr proffesiynol, arhosodd sefydliadau yn negyddol ar y cyfan ond roeddent yn llai negyddol nag ar gyfer dull 1a, gyda 58% o'r ymatebion yn nodi

barn negyddol gyffredinol (27 ymateb). Fodd bynnag, yn wahanol i weithwyr proffesiynol, arweiniodd hyn at gynnydd mewn ymatebion cadarnhaol i 26% (12 ymateb) yn hytrach na chynnydd mewn ymatebion niwtral.

Themâu:

52. O'r 286 o ymatebion a atebodd y cwestiwn hwn, rhoddodd 173 resymau. Y materion mwyaf a godwyd oedd pryderon ynghylch y ffaith bod y dull hwn yn agored i gamdriniaeth a phwysau neu orfodaeth ormodol. Yn benodol, y teimlad oedd bod y dull hwn yn lleihau mesurau diogelu, neu yn cynrychioli newid diangen. Roedd eraill yn pryderu y byddai newid i dystio o bell yn cynyddu cymhlethdod ac yn fwy anodd ei weithredu o gymharu â'r system bresennol. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd nifer o ymatebion at bryderon ynghylch gallu pobl i gael mynediad at y dechnoleg angenrheidiol i ddefnyddio'r broses hon. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â thechnoleg fideo-gynadledda ond roedd pryderon hefyd ynghylch mynediad at dechnoleg ddiogel breifat a mynediad i'r rhyngwrdd.
53. Ar nodyn cadarnhaol, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai'r dull hwn wneud y system yn fwy syml a didrafferth, a gallai wneud trefniadau logistaidd yn symlach wrth drefnu'r partïon.
54. Yn debyg i gwestiwn 1-1a, soniodd nifer o ymatebion am y darparwr tystysgrif, a goblygiadau'r newidiadau i'r tyst a'r gweithredoedd. Ystyrir yr ymatebion hyn, ynghyd ag ymatebion tebyg i gwestiwn 1-1b a chwestiwn 1-1c, yn yr adran ddadansoddi isod.

C1: Beth yw eich barn ar y cynigion a amlinellwyd? Rhowch eich rhesymau dros eich ymatebion: Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio (dull 1c)

55. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
56. Nodir yr atebion i'r cwestiwn hwn yn Ffigur 3. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn bennaf negyddol, gyda 127 o ymatebwyr yn darparu safbwynt negyddol neu negyddol yn bennaf (45% o'r 282 ymateb). Mae hyn yn parhau â'r duedd o ymatebion negyddol a welwyd ar gyfer dulliau 1a ac 1b. Fodd bynnag, y tro hwn, mae safbwyntiau cadarnhaol yn parhau i fod yn gyson ag ymagwedd 1b ac, yn lle hynny, cynyddodd safbwyntiau 'niwtral' a 'ddim yn gwybod' i 17% (48 ymateb) ac 11% (32 ymateb) yn y drefn honno. Roedd y ffigyrau'n cynnwys 37 o ymatebion a oedd yn rhan o'r ymateb ymgyrch, gyda phob un ohonynt yn negyddol.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	282	40 (14%)	35 (12%)	48 (17%)	27 (10%)	100 (36%)	32 (11%)
Y cyhoedd	106	20 (19%)	20 (19%)	25 (24%)	8 (8%)	16 (15%)	17 (16%)
Gweithwyr proffesiynol	127	7 (6%)	11 (9%)	19 (15%)	15 (12%)	64 (50%)	11 (9%)
Sefydliadau	46	13 (28%)	3 (7%)	3 (7%)	4 (9%)	20 (44%)	3 (7%)

Ffigur 3. Ymatebion i gwestiwn 1-1c.

57. Yn y cwestiwn hwn mae patrymau a dewisiadau gwahanol yn ymddangos pan fydd y grŵp a ymatebodd yn edrych ar y data; y cyhoedd, proffesiynol neu sefydliad.
58. Yn wahanol i'r atebion yn gyffredinol, roedd aelodau'r cyhoedd yn gadarnhaol tuag at y dull hwn, er eu bod yn dal yn fwy tebygol o ateb 'niwtral' neu 'ddim yn gwybod' o gymharu ag ymatebwyr eraill. Nododd 38% o ymatebion gan y cyhoedd farn gadarnhaol (40 ymateb) tra mai dim ond 23% oedd yn negyddol yn gyffredinol (24 ymateb). Dywedodd 24% (25 o ymatebion) eu bod yn niwtral ac atebodd 17 (16%) 'ddim yn gwybod'.
59. Parhaodd gweithwyr proffesiynol i arddangos barn negyddol, gyda 62% o ymatebion negyddol yn gyffredinol (79 o 127). Mae hyn yn is na'r ymateb negyddol i dulliau 1a ac 1b, ac arweiniodd at gynnydd bach ym mhob maes arall. Cynyddodd yr ymatebion cadarnhaol cyffredinol i 14% (18 allan o 127 o ymatebion), yr ymatebion niwtral i 15% (19 o 127) a'r ymatebion 'ddim yn gwybod' i 9% (11 o 127).
60. Sefydliadau oedd y grŵp mwyaf gwrthgyferbyniol o ran eu hatebion, gyda'r rhan fwyaf o ymatebion un ai'n 'negyddol' (20 ymateb, 44%) neu'n 'gadarnhaol' (13 ymateb, 28%). Derbyniodd yr atebion 'cadarnhaol yn bennaf', 'niwtral' a 'ddim yn gwybod' 3 ymateb (7%), tra derbyniodd yr ateb 'negyddol yn bennaf' 4 ymateb (9%).

Themâu:

61. O'r ymatebion hyn, darparodd 177 resymau dros yr atebion a roddwyd ganddynt. Nododd llawer bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt ar sut y byddai'r dull hwn yn gweithio er mwyn gallu gwneud sylwadau, ac mae hyn yn adlewyrchu'r nifer uwch o atebion 'niwtral' a 'ddim yn gwybod' a dderbyniwyd ar gyfer y dull hwn.
62. Roedd themâu eraill, yn debyg i'r dulliau blaenorol, yn canolbwyntio ar bryderon y byddai'r dull yn agored i gam-drin a gorfodaeth, a phryderon cyffredinol am waredu neu lacio mesurau diogelu. Roedd pryder hefyd ynghylch sut y byddai'r dull hwn yn

dangos tystiolaeth gweithredu. (Roedd y pryder penodol hwn yn cael ei gynrychioli yn fawr ymhlith ymatebion oherwydd ei fod wedi'i gynnwys yn ymateb ymgyrch y sector cyfreithiol a gawsom. Dim ond nifer fach o ymatebwyr nad oedd yn rhan o'r ymgyrch a nodwyd hyn). Roedd nifer o ymatebion o'r farn y dylid cadw'r tyst corfforol gan na all technoleg ei ddisodli. Yn debyg i ddull 1b, roedd pryderon am fynediad digidol a llythrennedd digidol.

63. Fodd bynnag, gwelsom nifer o themâu mwy cadarnhaol yn codi, gyda rhai yn mynegi'r farn y byddai disodli tystio yn gadarnhaol. Roedd y buddion a amlygwyd ganddynt yn cynnwys diogelu'r system ar gyfer y dyfodol a symleiddio'r broses. Roedd eraill o'r farn bod hyn yn welliant na fyddai'n peryglu mesurau diogelu, a gallai ddarparu mesurau diogelu ychwanegol trwy dechnoleg. Yn olaf, ailadroddodd nifer fach o ymatebwyr y pwynt nad yw tystio ei hun yn darparu mesur diogelu cadarn.

Ymateb y Llywodraeth

64. O ystyried yr ymatebion negyddol i bob un o'r tri dull a gyflwynwyd, mae'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth arbennig i rôl tystio mewn gwasanaeth yn y dyfodol.
65. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, credwn fod tystio yn darparu lefel gyfyngedig o ddiogelu ac felly rydym yn erbyn cael gwared ar y tyst yn llwyr o'r broses AA. Mewn egwyddor, mae'r tyst yn darparu tystiolaeth bod y rhoddwr yn gweithredu'r AA ac mae'n bwysig ein bod yn cadw'r pwrpas hwn - tystiolaeth o weithredu gan y rhoddwr - o fewn y ddeddfwriaeth, hyd yn oed os byddwn yn gwneud hyn mewn ffordd wahanol yn y dyfodol, sy'n darparu'r dystiolaeth hon yn ymarferol, yn ogystal ag mewn egwyddor.
66. Mae'r ymatebion wedi darparu tystiolaeth ychwanegol o'r pwysigrwydd y mae llawer o bobl yn ei osod ar y broses tystio, yn gyhoeddus ac yn broffesiynol. Mae hyn yn cefnogi'r syniad bod rhyw fath o dystiolaeth o weithredu gan y rhoddwr yn angenrheidiol i ddiogelwch AA, ochr yn ochr â gwiriadau hunaniaeth (y bydd yn cael sylw yn Thema 3) a'r darparwr tystysgrif (sy'n cael sylw isod).
67. Roedd yr ymatebion i 1b, tystio o bell, hefyd yn negyddol i raddau helaeth ac yn adlewyrchu pryderon am fesurau diogelu a mynediad at dechnoleg. Er bod hyn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn perthynas ag ewyllysiau brys o dan COVID-19, rydym yn cydnabod bod ei ddefnydd mewn perthynas ag AAau, sydd yn galw am o leiaf 2 dyst arall sydd angen llofnodi'r ddogfen, yn ychwanegu at gymhlethdodau'r broses, yn hytrach na'i symleiddio.
68. Soniodd ymatebion i 1a ac 1b am y potensial ar gyfer cam-drin cynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau diogelu yn erbyn y rhain, hyd yn oed yn y broses bresennol, yn dod o'r tyst, ond yn hytrach o'r darparwr tystysgrif (hyd yn oed os yw'r

un person yn gweithredu'r ddwy rôl, mae'r rolau yn wahanol). Er bod rhai tystion yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, nid yw pob tyst yn gwneud, ac felly i sicrhau bod yr amddiffyniad hwn yn cael yr effaith fwyaf posibl, dylem ganolbwyntio ein hymdrechion ar gryfhau rôl y darparwr tystysgrif, sy'n cael sylw isod.

69. Mae'r sefyllfa mewn perthynas ag 1c, mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio, yn fwy cymhleth. Er bod yr ymatebion yn negyddol yn gyffredinol, mae'n rhaid i ni gydnabod bod ymatebion y cyhoedd yn gadarnhaol o ran y posibilrwydd o'r dull hwn. Yn ogystal, roedd sefydliadau wedi eu rhannu o ran ymatebion ac, er eu bod yn dal yn negyddol yn bennaf, lle'r oedd pobl yn gadarnhaol, roeddent yn gadarnhaol iawn. Roedd y dull hwn hefyd yn cynnwys y nifer uchaf o ymatebion 'niwtral' neu 'ddim yn gwybod', oedd eisiau mwy o wybodaeth am sut y gallai'r dull hwn weithio. Bydd angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu a phrofi'r posibilrwyddau yn y maes hwn, yn enwedig ynghylch a oes ateb technegol a allai ddarparu tystiolaeth gadarn i fodloni SGC a'r Llys Gwarchod.

Am y rhesymau hyn, bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg i ddisodli'r tyst gyda swyddogaeth debyg (digidol) o fewn y sianel ddigidol.

70. Yn ogystal, cawsom nifer o ymatebion a wnaeth y pwynt bod y gofyniad i dystio llofnod yr atwrnai yn unigryw i'r broses AA ac nid yw'n bodoli ar gyfer mathau eraill o weithred. Cwestiynodd rhai o'r ymatebion a oedd tystio llofnod yr atwrnai yn darparu unrhyw werth neu amddiffyniad, ac awgrymwyd y gallai'r tyst hwn gael ei waredu er mwyn gwneud y broses yn fwy syml.
71. Mae'n anodd gwybod beth fyddai'r ymateb cyffredinol i'r dull hwn oherwydd na wnaethom ni awgrymu gwaredu'r tyst ar gyfer yr atwrnai yn unig yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, o ystyried nifer yr ymatebion a amlygodd y rôl, y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau y mae atwrnai yn cytuno i ymgymryd â nhw os ydynt yn gweithredu o dan AA, gallai fod gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. O ganlyniad, mae angen i ni roi ystyriaeth bellach cyn derbyn yr awgrym hwn.

Bydd y Llywodraeth yn ystyried a fyddai cadw mecanwaith i ddangos tystiolaeth bod yr atwrnai wedi gweithredu'r ddogfen yn darparu mesur diogelu i AA.

Materion eraill a godwyd:

Y tyst a'r darparwr tystysgrif

72. Fel y soniwyd, roedd nifer o ymatebion ar draws y tri o'r dulliau hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd rôl y darparwr tystysgrif. Yn benodol, ei rôl wrth bennu dealltwriaeth y

rhoddwr o'r ddogfen ac fel amddiffyniad rhag twyll a cham-drin. Roedd llawer o'r farn mai hwn oedd un o'r rolau pwysicaf wrth greu AA ac yn fesur diogelu allweddol.

73. Roedd rhai ymatebion hefyd yn dangos yr un camddealltwriaeth a amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori ei hun, er enghraifft bod y tyst yn profi dealltwriaeth neu alluedd y rhoddwr, a'i fod yn amddiffyniad yn erbyn twyll. Mae hwn yn gyfuniad o rôl y tyst a rôl y darparwr tystysgrif. Rôl y tyst ar hyn o bryd yw cadarnhau bod unigolyn yn llofnodi'r ddogfen, un ai'r rhoddwr neu'r atwrnai. Rôl y darparwr tystysgrif yw rhoi ei farn ynghylch a oedd y rhoddwr yn deall yr AA ar adeg ei gweithredu, a oedd twyll neu bwysau gormodol, ac a oes unrhyw reswm arall na ellir gwneud AA dilys.
74. Gwnaeth nifer o ymatebion ar draws y tri chwestiwn awgrymu'r canlynol: yn lle gweithredu unrhyw un o'r dulliau a awgrymir, dylai'r Llywodraeth edrych ar gyfuno rôl y darparwr tystysgrif â rôl y tyst. Byddai hynny'n symleiddio'r broses trwy alw am un person yn llai, mae eisoes yn cael ei wneud fel hyn gan lawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithredu yn y ddwy rôl, a byddai'n cynnal yr hyn a welir gan lawer o ymatebwyr i fod y ffordd orau i ddarparu tystiolaeth o weithredu.
75. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â llawer o'r pwyntiau a wnaed gan yr ymatebion hyn. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn credu y bydd ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr tystysgrif fod yn bresennol i weld y gweithredu yn cryfhau'r rôl. Ar hyn o bryd, mae'n odrwydd yn system Cymru a Lloegr, er bod y darparwr tystysgrif yn fod i ffurfio ei farn ar ddealltwriaeth y rhoddwr ar adeg gweithredu'r AA, nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol wrth weithredu. Byddai ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr tystysgrif fod yn bresennol, ac i'r sgwrs ddigwydd ochr yn ochr â'r gweithredu, yn cryfhau'r amddiffyniad a ddarperir.

O ganlyniad, bydd y Llywodraeth yn archwilio a fyddai'n syniad da i gyfuno rôl y darparwr tystysgrif â rôl y tyst mewn perthynas â gweithredu'r AA gan y rhoddwr.

76. Rhaid nodi, fodd bynnag, mai rôl y darparwr tystysgrif yw bod yn berson annibynnol a ddewiswyd gan y rhoddwr, ac nid oes angen iddo gael cysylltiad â'r atwrneiod. Fel un o brif amddiffyniadau dewis a rheolaeth y rhoddwr dros y broses, ac yn erbyn twyll a cham-drin, credwn ei bod yn bwysig bod rôl y darparwr tystysgrif yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r rhoddwr yn unig, ac felly nid ydym yn cynnig bod y darparwr tystysgrif yn tystio'r atwrnai yn gweithredu'r AA.

Am y rheswm hwn, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r gofynion ar gyfer tystio'r rhoddwr yn gweithredu'r AA a'r atwrnai yn gweithredu'r AA, gan dderbyn y gallai'r rhain fod yn wahanol mewn gwasanaeth yn y dyfodol.

77. Gan droi yn ôl at yr ymatebion a ddywedodd mai rôl y darparwr tystysgrif yw asesu galluedd meddyliol y rhoddwr; mae hyn yn anghywir gan y dylid tybio bod galluedd meddyliol o dan y DGM, oni bai bod tystiolaeth i ddangos fel arall.
78. Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at hyn, gydag ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr, yn benodol, yn nodi bod y sefyllfa hon "yn anghywir a dylid ei chywiro". Yn eu barn nhw, dylai rôl y darparwr tystysgrif gael ei egluro i ddweud ei fod yn asesiad o alluedd, gyda gofyniad bod y darparwr tystysgrif yn datgan ei fod yn deall ei rôl ac y gellir ei alw gerbron y Llys Gwarchod.
79. O dan y DGM, rôl y darparwr tystysgrif yw cadarnhau tri pheth ar adeg y gweithredu, sy'n golygu y gall yr AA gael ei chreu:
1. Bod y rhoddwr yn deall yr AA;
 2. Nad oes unrhyw dwyll na phwysau gormodol arnynt i wneud yr AA;
 3. Nad oes unrhyw reswm arall na ellir gweithredu'r AA.
80. Yn bwysig, nod y gofyniad cyntaf yw sicrhau bod y rhoddwr yn deall yr AA, yn hytrach na bod y rhoddwr yn meddu ar y galluedd meddyliol i weithredu'r AA. Yn wir, ni all y rhoddwr weithredu AA os nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i wneud hynny. Mae hi hefyd yn wir y dylid tybio galluedd meddyliol heb dystiolaeth sy'n gwrthddweud hynny, a bod y gallu i ddeall gwybodaeth yn ffurfio rhan o'r asesiad galluedd.
81. Mae hyn yn golygu y dylai'r darparwr tystysgrif gael sgwrs gyda'r rhoddwr am ei AA, er mwyn pennu dealltwriaeth y rhoddwr o'r ddogfen y maent yn ei chreu, mor agos at yr amser gweithredu â phosibl. Os yw'r darparwr tystysgrif yn credu nad yw'r rhoddwr yn deall y ddogfen, ni ddylai lofnodi'r dystysgrif. Er y gallai diffyg dealltwriaeth awgrymu diffyg galluedd meddyliol, mae'r gred nad yw'r rhoddwr yn deall y ddogfen yn ddigon ar ei phen ei hun i ddarbwylllo'r darparwr tystysgrif i beidio â llofnodi'r dystysgrif i gadarnhau y gall yr AA fynd rhagddi. Nid oes angen asesiad galluedd ar ddarparwr tystysgrif i wrthod llofnodi'r AA.
82. Yn eu hymateb, cyn dod i benderfyniad o ran dealltwriaeth y rhoddwr, awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr bod angen "cymryd camau cadarnhaol, fel gofyn cwestiynau perthnasol. Nid yw'n bosibl cydymffurfio â'r gofyniad hwn trwy ddibynnu ar y rhagdybiaeth o alluedd meddyliol yn unig, heb ofyn cwestiynau a allai wrthbrofi'r rhagdybiaeth honno". Mae'r Llywodraeth yn cytuno â hynny. Am y rheswm hwn,

rydym yn ystyried y defnydd o enghraifft neu gwestiynau rhagosodedig ar gyfer y darparwr tystysgrif, yn ogystal â'r gallu i ddarparwr tystysgrif gofnodi a darparu ei asesiad i SGC, yn enwedig lle mae ganddynt bryderon. Mae'r syniad hwn wedi cael sylw yn ein gweithdai parhaus gyda'n gweithgor rhanddeiliaid a'r gweithdai a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad.

83. Mae darparu cymorth ac arweiniad ychwanegol i ddarparwyr tystysgrifau ar eu rôl i amddiffyn y rhoddwr a hwyluso eu hawliau yn rhan bwysig o'r diwygiadau yr ydym am eu datblygu. Fodd bynnag, nid oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth i wneud i hyn ddigwydd, ac felly ni chafodd sylw helaeth yn yr ymgynghoriad.

Bydd y Llywodraeth yn darparu mwy o eglurder o ran rôl y darparwr tystysgrif wrth asesu dealltwriaeth y rhoddwr o'r AA a diogelu rhag twyll, cam-drin a phwysau gormodol. Mae'n bwriadu gwneud hyn trwy ddarparu arweiniad a chefnogaeth ychwanegol i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl hon, a darparu ffordd o godi pryderon yn uniongyrchol gyda SGC.

84. Yn olaf, cododd rhai ymatebwyr y syniad y dylai fod yn ofynnol i'r darparwr tystysgrif fod yn weithiwr proffesiynol. Awgrymodd rhai y dylai fod yn gyfreithiwr, tra roedd eraill yn cyfeirio at system yr Alban lle gall darparwr tystysgrif fod yn gyfreithiwr neu'n weithiwr meddygol proffesiynol. Cyfeiriodd eraill at ailgyflwyno'r gofyniad bod darparwr tystysgrif yn weithiwr proffesiynol, a gafodd ei newid yn 2015.
85. Mae'n werth egluro nad yw erioed wedi bod yn ofyniad yng Nghymru a Lloegr bod darparwr tystysgrif yn weithiwr proffesiynol. Roedd y newidiadau a wnaed yn 2015 yn ffurfio newidiadau a waredwyd yr angen i ddatgan ar yr AA p'un ai oedd gan ddarparwr tystysgrif â'r rhoddwr berthynas broffesiynol neu a oeddent yn aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi adnabod ei gilydd am ddwy flynedd. Ni wnaethant newid pwy allai fod yn ddarparwr tystysgrif, sy'n seiliedig ar bwy sydd â'r wybodaeth neu'r sgiliau i gyflawni'r rôl. Pan gyflwynwyd y DGM, credwyd bod gweithiwr proffesiynol sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol a rhywun sydd wedi adnabod y rhoddwr am ddwy flynedd, ac sydd felly'n gallu gweld newidiadau mewn agwedd neu ymddygiad, yn gymwys ac mewn sefyllfa dda i weithredu fel darparwr tystysgrif.
86. Nid yw barn y Llywodraeth ar hyn wedi newid. Rydym wedi bod yn glir trwy gydol y gwaith ar foderneiddio AAau, gan gynnwys trwy'r ymgynghoriad a'r ymgysylltiad ategol, ein bod yn credu y dylai AAau fod yn gyraeddadwy, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb, ac ni ddylai mynediad at gyfreithiwr fod yn ofyniad nac yn rhwystr. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol y gall meddygon teulu godi ffioedd am weithredu fel darparwr tystysgrif. Gall hyn hefyd fod yn rhwystr, o ran cost, i rai rhoddwyr.

87. Roedd y dadleuon gwreiddiol dros ganiatáu darparwyr tystysgrif nad ydynt yn weithwyr proffesiynol yn cynnwys bod ffrind neu gymydog agos yn debygol o adnabod y rhoddwr yn well na meddyg teulu neu gyfreithiwr, ac felly bod y cymydog mewn sefyllfa well i nodi lle mae cam-drin neu bwysau ar waith. Yn ogystal, mae ymchwil defnyddwyr yn dangos bod darparwyr tystysgrifau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol yn cymryd eu rôl o ddifri, a gellid cryfhau hyn ymhellach gyda mwy o gefnogaeth ac arweiniad, fel yr amlinellwyd uchod.

Am y rhesymau hyn, ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad bod darparwr tystysgrif yn weithiwr proffesiynol.

Statws yr AA fel gweithred

88. Cyfeiriodd nifer o ymatebion at y ffaith bod yr AA yn weithred. Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn awyddus i'r AA barhau i fod yn weithred yn y dyfodol. Roedd y rhesymau a roddwyd dros hyn yn canolbwyntio ar ofynion y ddogfen fel gweithred, a'r amddiffyniadau y mae gweithred yn eu darparu.
89. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod y broses o dystio gweithredu gweithred yn ychwanegu pwys cyfreithiol, urddas a dealltwriaeth i'r broses ac y dylai'r AA, fel un o'r dogfennau cyfreithiol pwysicaf, barhau i gael ei thystio. Soniodd eraill y dylid cynnal y gofyniad bod rhywun yn tystio'r AA, gan ei bod yn weithred.
90. O ran manteision penodol yr AA fel gweithred, soniodd rhai am y ffaith bod cyfnod o 12 mlynedd i ddod ag unrhyw hawliadau ymglyfreitha yn erbyn gweithredoedd atwrnai (yn hytrach na chwech ar gyfer contractau rheolaidd). Soniodd ymateb arall fod yr hierarchaeth dogfennau cyfreithiol, er mwyn i atwrnai weithredu gweithred ar ran y rhoddwr (e.e. os oedd atwrnai yn delio ag eiddo'r rhoddwr), yn golygu y dylai'r ddogfen sy'n rhoi'r pŵer i weithredu (hynny yw, yr AA) fod yn weithred hefyd.
91. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderon hyn, yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed am natur y pŵer mae AA yn rhoi, a sut mae'n rhyngweithio â phwerau o dan fathau eraill o gytundeb, gan gynnwys mathau eraill o weithredoedd. Rydym felly'n cytuno ei bod yn bwysig bod AAau yn parhau i fod yn weithredoedd, neu'n cael eu trin fel gweithredoedd, hyd yn oed os ydynt yn cael eu moderneiddio.
92. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fyddwn hefyd yn ystyried newidiadau i'r gofynion tystio. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, byddai'r cynigion a amlinellwyd yn gofyn am newidiadau i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (ac unrhyw newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth gysylltiedig) er mwyn gweithredu Atwrneiaeth Arhosol foderneiddiedig.

Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr AA yn parhau i fod yn weithred, neu'n parhau i gael ei thrin fel gweithred, hyd yn oed os gweithredir newidiadau i'r gofyniad tystio AA.

Casgliad

93. I gloi, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i barhau i archwilio i'r newidiadau penodol y gallai fod eu hangen o ran tystio, er mwyn caniatáu sianel ddigidol ar gyfer creu AA. Yn benodol:

- **Bydd y Llywodraeth yn parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg i ddisodli'r tyst gyda swyddogaeth debyg (digidol) o fewn y sianel ddigidol.**
- **Bydd y Llywodraeth yn archwilio sut i gyfuno rôl y darparwr tystysgrif â rôl y tyst mewn perthynas â gweithredu'r AA gan y rhoddwr.**
- **Adolygu'r gofynion ar gyfer tystio gweithredu'r rhoddwr a gweithredu'r atwrnai, gan dderbyn y gallent fod yn wahanol mewn gwasanaeth yn y dyfodol.**
- **Bydd y Llywodraeth yn ystyried a yw cadw mecanwaith i ddarparu tystiolaeth bod atwrnai wedi gweithredu'r ddogfen yn darparu mesur diogelu i AA.**
- **Bydd y Llywodraeth yn darparu mwy o eglurder ynghylch rôl y darparwr tystysgrif wrth asesu dealltwriaeth y rhoddwr o'r AA a diogelu rhag twyll, cam-drin a phwysau gormodol. Mae'n bwriadu gwneud hyn trwy roi arweiniad a chefnogaeth ychwanegol i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl hon, a darparu ffordd o godi pryderon yn uniongyrchol gyda SGC.**
- **Ni fydd y Llywodraeth yn cyflwyno gofyniad bod darparwr tystysgrif yn weithiwr proffesiynol.**
- **Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr AA yn parhau i fod yn weithred, neu'n parhau i gael ei thrin fel gweithred, hyd yn oed os gweithredir newidiadau i'r gofyniad tystio AA.**

Crynodeb o Gynnig 2 – rôl ceisio

Cefndir

94. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried beth yw pwrpas y cais o fewn y broses o greu a chofrestru AA a phwy all wneud cais i gofrestru un. Gwnaethom hefyd archwilio newidiadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i AA gael ei chyflwyno i'w chofrestru cyn gynted ag y caiff ei chwblhau gan y rhoddwr, neu storio AA yn ddigidol cyn cael ei hanfon i gael ei chofrestru.
95. Ar hyn o bryd, ar ôl i ddefnyddwyr wneud a gweithredu AA, gallent ddewis pryd i'w hanfon at SGC at ddiben cofrestru. Os anfonir AA i'w chofrestru ar ôl i'r rhoddwr golli galluedd, ac y canfyddir bod yr AA yn amherffaith neu'n annilys, ni ellir ei chofrestru, ac ni ellir gwneud AA newydd. Felly, mae'n bwysig cynyddu cyflymder a symlrwydd cofrestriadau i ddefnyddwyr a nodi gwallau mewn AAau o flaen llaw. Byddai hyn yn dileu'r risg o ganfod gwallau ar ôl i'r rhoddwr golli galluedd. Nododd yr ymgynghoriad ddau ddull gwahanol:
96. **Dull 2a – gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru.** Byddai hyn yn golygu symleiddio'r broses trwy anfon AA i gael ei chofrestru cyn gynted ag y caiff ei gweithredu. Byddai'n cael ei hwyluso gan wiriadau awtomataidd a fyddai'n helpu i nodi a chywiro gwallau yn gynt. Byddai anfon yr AA i gael ei chofrestru ar unwaith hefyd o fudd i SGC, gan ei bod yn haws i gasglu tystiolaeth ar gyfer gwrthwynebiadau yn nes at y pwynt gweithredu.
97. **Dull 2b – gweithredu'n caniatáu oedi cyn cofrestru.** Mae hyn yn cynnwys cadw'r gallu i bobl ohirio cofrestriad eu AAau, a byddai'n galw ar SGC i storio AAau a grëwyd yn ddigidol nes iddynt gael eu cyflwyno at ddiben cofrestru. Byddai'n ofynnol i roddwyr gofrestru'r AA o fewn cyfnod amser sydd wedi'i ddiffinio a'i gyhoeddi'n eglur. Ar ôl y pwynt hwn, byddai'r AA yn cael ei dileu gan y byddai'n anghynladwy yn ariannol i SGC barhau i storio nifer gynyddol o AAau heb dderbyn y ffi i wneud hynny.
98. **Dull dewisol y Llywodraeth oedd 2A - gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru.** O ystyried nifer yr AAau sydd un ai'n amherffaith neu'n annilys, byddai gwiriadau cynnar a chyflwyniad ar unwaith at ddiben cofrestru yn caniatáu SGC leihau nifer yr AAau y mae'n rhaid eu dychwelyd, lleihau'r baich ar roddwyr ac atwrneiod, a lleihau'r risg bod y rhoddwr yn methu â gwneud un newydd oherwydd ei fod wedi colli galluedd. Yn ogystal, mae'r dull hwn yn osgoi'r angen i SGC dalu am storio AAau digofrestredig ac yn osgoi'r angen i ddileu AAau sydd wedi'u gweithredu.

99. Gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd manteision ac effeithiau gohirio cofrestru, ac iddynt nodi'r rhesymau dros eu hatebion:

C2. A fyddech chi, neu'r rheini rydych chi'n eu cefnogi, yn gohirio cofrestriad AA? Nodwch y rhesymau dros eich ateb.

C3. Pa effaith fyddai dileu'r gallu i ohirio cofrestriad yn ei gael? Nodwch y rhesymau dros eich ateb.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 2: A fyddech chi, neu'r rheini rydych chi'n eu cefnogi, yn gohirio cofrestriad AA? Nodwch y rhesymau dros eich ateb.

100. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: na, ie a ddim yn gwybod. Yna, gofynnwyd i ymatebwyr ddewis y rheswm dros eu hateb o set o ymatebion a osodwyd ymlaen llaw, yn dibynnu a oeddent wedi ateb 'ie' neu 'na'. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael gwybodaeth ychwanegol a nodi rhesymau eraill yn y blwch testun rhydd.
101. At ddibenion dadansoddi, cyrifwyd yr atebion i'r cwestiwn dilynol "os mai 'na' oedd eich ateb" lle'r oedd yr ateb gwreiddiol yn 'na' neu 'ddim yn gwybod'. Cyrifwyd yr atebion i'r cwestiwn dilynol "os mai 'ie' oedd eich ateb" lle'r oedd yr ateb gwreiddiol yn 'ie' neu 'ddim yn gwybod'
102. Mae rhesymau testun rhydd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, wedi cael eu cofnodi yn ôl thema, beth bynnag fo'r ateb gwreiddiol, er mwyn deall y themâu sy'n codi ar draws yr holl ymatebion, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
103. Atebodd 279 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac mae Ffigur 4 yn nodi'r ymatebion cyffredinol. Dywedodd 67% (188 o ymatebion) o'r 279 o ymatebwyr 'na', tra atebodd 28%, 79 o ymatebwyr, 'ie'. Atebodd 37 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn, ond roeddent yn darparu atebion gwahanol, gyda 35 yn ateb 'ie', a 2 yn ateb 'na'.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Na	Ie	Ddim yn gwybod
Y cyfan	279	188 (67%)	79 (28%)	12 (4%)
Y cyhoedd	110	89 (81%)	15 (14%)	6 (5%)
Gweithwyr proffesiynol	123	74 (60%)	45 (37%)	4 (3%)
Sefydliadau	43	23 (54%)	18 (42%)	2 (5%)

Ffigur 4. Ymatebion i Gwestiwn 2.

104. Roedd gweithwyr proffesiynol (37% o 123 o ymatebion) a sefydliadau (42% o 43 o ymatebion) yn fwy tueddol o ateb 'ie' o gymharu â'r cyhoedd (14% o 110 o ymatebion). Atebodd mwyafrif y cyhoedd 'na' (81% o 110 o ymatebion). Yn gyffredinol, dywedodd 4% o 279 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, ac adlewyrchir hyn mewn lefelau tebyg ar draws y tri grŵp.

C2 – Os mai ‘Na’ oedd eich ateb:

105. Amlinellir y rhesymau dros beidio â gohirio yn Ffigur 5 isod. Atebodd 188 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd hi'n bosibl i bobl ddarparu atebion lluosog.

Rhesymau	Ymatebion	Canran
Methu a gweld mantais o ohirio cofrestriad	155	82%
Cynghorwyd i beidio â gohirio cofrestriad	17	9%
Angen AA cyn gynted â phosibl oherwydd diagnosis meddygol	33	18%
Angen AA cyn gynted â phosibl oherwydd bod angen gwneud penderfyniad ariannol	23	12%
Rheswm arall	26	14%
Cyfanswm y rhesymau ar gyfer ‘na’ neu ‘ddim yn gwybod’	188	

Ffigur 5. Rhesymau ar gyfer ‘na’ neu ‘ddim yn gwybod’ – ymatebion i Gwestiwn 2.

106. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr, 155 allan o 188 (82%), yn gweld budd o ohirio cofrestriad. Dyma'r ymateb mwyafrif o bell ffordd. Roedd y grŵp nesaf yn cynnwys y rheini a oedd angen AA cyn gynted â phosibl, naill ai oherwydd diagnosis meddygol (33 o ymatebwyr, 18%) neu benderfyniad ariannol yr oedd angen ei wneud (23 o ymatebwyr, 12%). Dywedodd 17 o ymatebwyr (9%) eu bod wedi cael eu cynghori i beidio ag oedi cofrestriad. Lle nodwyd ‘arall’ gan ymatebwyr, gofynnwyd iddynt ddarparu rhesymau mewn blwch testun rhydd, a nodir y themâu isod.

C2 - Os mai ‘Ie’ oedd eich ateb:

107. Amlinellir y rhesymau a roddwyd am oedi yn Ffigur 6 isod. Atebodd 89 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a gallai pobl roi atebion lluosog.

Rhesymau	Ymatebion	Canran
Ddim eisiau talu'r ffi eto	14	16%
Methu â thalu'r ffi ar unwaith	5	6%
Ddim eisiau trosglwyddo'r atwrneiaeth ar unwaith	16	18%

Rhesymau	Ymatebion	Canran
Efallai y byddaf eisiau newid fy AA	64	72%
Crëwyd yr AA ar ôl derbyn diagnosis meddygol ac rwy'n aros tan yn agosach at yr amser	2	2%
Rheswm arall	20	22%
Cyfanswm y rhesymau ar gyfer 'ie' neu 'ddim yn gwybod'	89	

Ffigur 6. Rhesymau ar gyfer 'ie' neu 'ddim yn gwybod' – ymatebion i Gwestiwn 2.

108. Y prif reswm a roddwyd i gefnogi gohirio cofrestriad oedd ei fod yn caniatáu i'r rhoddwr newid ei AA cyn cofrestru (64 allan o 89 o ymatebwyr, 72%). Hwn oedd y farn fwyaf poblogaidd, tra'r ail reswm mwyaf poblogaidd oedd nad oedd y rhoddwr yn dymuno trosglwyddo atwrneiaeth ar unwaith (16 allan o 89 o ymatebion neu 18%). Roedd y trydydd rheswm mwyaf poblogaidd yn ymwneud â strwythur ffioedd yr AA. Dywedodd 14 o bobl (16%) mai eu rheswm nhw dros oedi oedd nad oeddent am dalu'r ffi eto. Nododd 20 o bobl (22%) resymau eraill dros gadw'r opsiwn ar gyfer oedi, sy'n cael sylw yn y *themâu* isod. O'r ymatebion ymgyrch, nododd yr holl ymatebion 'ie', namyn un, y rheswm canlynol: "Efallai y byddaf eisiau newid fy ymateb". Roedd 3 ymateb yn cynnwys rhesymau ychwanegol yn ogystal â'r un yma. Roedd un ymateb yn cynnwys dim rheswm o gwbl.

Themâu:

109. O'r 279 o ymatebion, rhoddodd 74 resymau pellach dros eu hymateb, neu eglurhad o faterion eraill yr oeddent yn eu hystyried yn berthnasol. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cymysgedd o safbwyntiau cadarnhaol a negyddol, er eu bod yn gadarnhaol yn bennaf.

110. Y prif bwynt a gyflwynwyd gan y nifer fwyaf o ymatebwyr oedd y byddai gwaredu'r opsiwn i oedi yn fwy syml ac yn gyflymach i'r rhan fwyaf o roddwyr. Yn ogystal, awgrymodd grŵp ychydig yn llai o bobl y byddai hyn yn golygu y gellid canfod a chywiro gwallau yn gynt. Dywedodd nifer tebyg o ymatebwyr eu bod yn erbyn yr egwyddor o ohirio cofrestriad AA, ac felly roeddent yn cefnogi cael gwared ar yr agwedd hon.

111. Y tu ôl i'r ymatebion hyn roedd rhai rhesymau mwy negyddol. Dywedodd nifer llai o ymatebion eu bod yn erbyn cael gwared ar yr opsiwn i oedi cofrestriad oherwydd y byddai'n cael gwared ar ddewis a rheolaeth rhoddwyr dros y broses. Roedd nifer tebyg o'r farn bod y gallu i ohirio cofrestriad ei hun yn fesur diogelu yn erbyn cam-drin, er bod cynifer o ymatebion o'r farn bod y ffaith y byddai'r AA yn barod i'w defnyddio ar unwaith yn gadarnhaol.

Cwestiwn 3: Pa effaith fyddai dileu'r gallu i ohirio cofrestrriad yn ei gael?

Nodwch y rhesymau dros eich ateb:

112. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, negyddol a ddim yn gwybod.
113. Fel y nodwyd yn Ffigur 7, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai goblygiadau cael gwared ar yr oedi yn gadarnhaol (54% o 282 o ymatebion), tra roedd yr ymatebion eraill wedi'u rhannu rhwng 'negyddol' (24%) a 'ddim yn gwybod' (22%). Atebodd 37 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn. Dywedodd 33 y byddai effaith gadarnhaol, tra nododd 4 y byddai'r effaith yn negyddol.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	282	151 (54%)	69 (24%)	62 (22%)
Y cyhoedd	107	52 (49%)	22 (21%)	33 (31%)
Gweithwyr proffesiynol	127	75 (59%)	32 (25%)	20 (16%)
Sefydliadau	45	23 (51%)	14 (13%)	8 (18%)

Ffigur 7. Ymatebion i Gwestiwn 3.

114. Ar ôl rhannu'r ymatebion yn ôl y math o ymatebydd, gweithwyr proffesiynol oedd y mwyaf cadarnhaol, gyda 59% o 127 o ymatebion yn nodi ymateb cadarnhaol. Roedd sefydliadau hefyd yn gadarnhaol, gyda 51% o 45 o ymatebion yn nodi ymateb cadarnhaol. Roedd y cyhoedd hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 52 o ymatebion (49% allan o 107) yn nodi ymateb cadarnhaol, er eu bod hefyd yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod (33 ymateb, 31% o 107) o gymharu â gweithwyr proffesiynol (20 ymateb, neu 16% o 127) a sefydliadau (8 ymateb, neu 18% o 45).

Themâu:

115. Ar gyfer y cwestiwn hwn, nododd 157 o ymatebwyr resymau, allan o'r 282 o atebion a dderbyniwyd. Roedd llawer o'r rhain yn adleisio'r rhesymau a ddarparwyd yng nghwestiwn 2, er bod yr un themâu yn codi'n gryfach ar y cwestiwn hwn.
116. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhesymau cadarnhaol yn bennaf dros wneud y newid hwn. Safodd pedair thema allan o'r lleill. Ystyriwyd cael yr AA yn ei lle pan oedd ei hangen fel y brif fantais, gyda llawer mwy o ymatebion yn awgrymu hyn ar gyfer y cwestiwn hwn, o gymharu â chwestiwn 2. Ar ben hynny, adleisiodd ymatebwyr y teimlad y byddai hyn yn broses symlach a oedd yn caniatáu cywiro gwallau yn gynnar. Fodd bynnag, cododd nifer tebyg o bobl - a mwy nag ar gyfer cwestiwn 2 - y mater y byddai hyn yn dileu gallu'r rhoddwr i ddewis a chael rheolaeth dros y broses. Yn olaf, unwaith eto cododd yr ymatebion y ffaith y byddai AA yn barod yn gyflymach gyda'r dull hwn, ac fe grybwyllwyd yn benodol y gall y broses gofrestru bresennol gymryd amser hir.

117. Yn ogystal â'r themâu hyn, roedd rhai llai a dderbyniodd lefel debyg o ymateb. Roedd y rhain yn gwrthwynebu cael gwared ar oedi, ac yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y gallai atal pobl rhag gwneud AA, ei fod yn peryglu talu ffi am rywbeth na fyddai angen ei ddefnyddio, neu y gallai fod angen ei newid, ac yn olaf, ailadroddwyd y pwynt bod oedi ei hun yn gallu bod yn fesur diogelu yn erbyn cam-drin.

Ymateb y Llywodraeth

118. Er bod ymatebion i'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol yn bennaf i'r syniad o ddileu'r gallu i ohirio cofrestru, roedd nifer o bobl naill ai'n negyddol tuag at y syniad neu wedi darparu rhesymau cryf i gadw'r gallu i ddewis a ddylid oedi ai peidio.

119. Rydym yn falch o glywed bod llawer o bobl yn credu nad oes unrhyw reswm i ohirio cofrestru, ac y byddai hyn yn cyflymu'r broses ac yn sicrhau bod AAau yn eu lle ac yn gallu cael eu defnyddio os oes eu hangen. Dyma rôl AA, i fod yn bolisi yswiriant ar gyfer y rhoddwr pe bai'r gwaethaf yn digwydd, ac maent yn colli'r galluedd i wneud penderfyniadau penodol. Wedi'i gysylltu â hyn, mae'n gadarnhaol i glywed bod llawer o ddarparwyr cymorth trydydd parti, rhai cyfreithiol a heb fod yn gyfreithiol, yn cynghori i beidio ag oedi cofrestru'r AA.

120. Yn yr un modd, rydym yn falch bod pobl yn credu y gallai symud at gyflwyniad ar unwaith gynorthwyo o ran canfod gwallau a'u cywiro yn gynnar, cyn dod yn broblem i'r rhoddwr. Mae hyn i gyd yn cefnogi dull dewisol y Llywodraeth; i symud at system lle mae AA yn cael ei chyflwyno i'w chofrestru cyn gynted ag y caiff ei gweithredu.

121. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r 28% o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn dewis gohirio cofrestru, neu'r 25% o ymatebwyr a ddywedodd y byddai effaith negyddol pe bai'r dull hwn yn cael ei ddileu. Mae'r pwyntiau am beidio â thalu am AA, na fydd byth yn cael ei defnyddio o bosib, yn ddiddorol o ystyried rôl yr AA fel mecanwaith amddiffynnol a pholisi yswiriant mewn achos o ddamwain neu salwch. Fodd bynnag, natur polisi yswiriant yw eich bod yn talu amdano yn y gobaith na fydd ei angen arnoch, ac mae'n glir nad oes gan y rhan fwyaf o bobl bryderon am dalu am AA na fydd byth yn cael ei defnyddio o bosib. Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu bod hyn yn ddigon i newid dull dewisol y Llywodraeth.

122. Mae angen ystyried ymhellach y pryderon eraill a godwyd. Yn benodol, mae'r ddadl y byddai cael gwared ar yr opsiwn i oedi AA yn diddymu rheolaeth a dewis rhoddwyr yn un grymus, o ystyried y rôl y mae'r DGM yn ei chwarae wrth ddiogelu gallu unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a chadw rheolaeth dros eu bywydau. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn, yn enwedig yng ngoleuni safbwynt y Llywodraeth ar wiriadau cefndir yr ydym yn ystyried o dan gynnig 3 - cylch gwaith SGC - isod.

123. Fodd bynnag, gallai caniatáu gohirio cofrestru hefyd gael effaith ar ein gallu i wireddu effeithlonrwydd y broses ac, yn bwysicach, i wella mesurau diogelu. Yn yr achos cyntaf, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, byddai hyn yn creu pwysau ar SGC i storio AAau heb dderbyn cyllid i wneud hynny. Byddai angen i ni benderfynu a oes ffordd i SGC ariannu storio AAau sydd wedi'u gweithredu ond sydd heb eu cofrestru. Byddai hynny'n golygu y byddai angen talu'r ffi yn gynharach yn ystod y broses, cyn cofrestru.
124. Yn yr ail achos, mae angen i ni ystyried sut y byddai cofrestriad gohiriedig yn rhyngweithio â mesurau diogelu eraill yn y broses, yn enwedig unrhyw fesurau diogelu newydd o amgylch hunaniaeth a gwirio bod y partïon o dan sylw yn dweud y gwir o ran eu hunaniaethau. Po hiraf y broses, ac os oes cyfleoedd niferus i oedi yn rhan ohoni, po uchaf yw'r posibilrwydd y byddai angen i ni ail-gadarnhau hunaniaeth unigolion ar wahanol gamau yn ystod y broses.

Am y rhesymau hyn, bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio i ddichonoldeb y ddau ddull, sef 2a: Gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru; a 2b: Gohirio cofrestriad cyn gwneud penderfyniad terfynol o ran y ffordd ymlaen.

Casgliad

125. I gloi, o ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd o ran y manteision i gofrestru ar unwaith a'r cyfyngiadau a allai godi o waredu'r gallu i oedi:

Bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio i ddichonoldeb y ddau ddull, sef 2a: Gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru; a 2b: Gohirio cofrestriad cyn gwneud penderfyniad terfynol o ran y ffordd ymlaen.

Crynodeb o gynneg 3 – cylch gwaith SGC

Cefndir

126. O dan y cynneg hwn, gwnaethom asesu sut i ehangu cylch gwaith SGC i gynyddu mesurau diogelu yn ystod y broses o greu a chofrestru AA. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod gan SGC bwerau cyfyngedig i atal cofrestriad ar hyn o bryd, a lle nad yw AA yn cydymffurfio â'r deddfwriaeth (Adran 10 ac Atodlen 1 o'r DGM). Byddai cynyddu'r bwerau hyn yn darparu mesurau diogelu ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau twyllodrus. Byddai ehangu bwerau deddfwriaethol a dulliau archwilio SGC yn cynyddu hyder defnyddwyr yn SGC ac yn helpu i atal twyll, cam-drin a gorfodaeth trwy ei gwneud yn ofynnol i bartïon yr AA fynd trwy wiriad hunaniaeth. Archwiliwyd hyn o dan ddau ddull.
127. Dull 3a – **cofrestru amodol**. Er mwyn cynyddu mesurau diogelu wrth symleiddio'r gwasanaeth newydd a chynyddu effeithlonrwydd a chywirdeb data, byddai gwiriadau awtomataidd i bob defnyddiwr yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys gwiriadau hunaniaeth. Byddai SGC yn gofyn i bartïon ddarparu un o nifer o opsiynau ID, e.e. pasbort neu drwydded yrru, cyn greu AA. Ar ôl gwiriad llwyddiannus, byddai'r AA yn cael ei chofrestru ar unwaith. Fodd bynnag, os bydd defnyddwyr yn aflwyddiannus o ran y gwiriadau hyn, byddai'r AA yn cael ei gwrthod, a byddai'r partïon yn cael eu hannog i fynd drwy'r Llys Gwarchod i wirio dilysrwydd yr AA. Y bwriad oedd darparu amddiffyniad ychwanegol i roddwyr trwy wirio mai nhw oedd y rhai a oedd wedi gwneud yr AA.
128. Dull 3b – **cofrestru disgresiynol**. Byddai cwmpas cylch gwaith SGC yn cael ei ehangu trwy deddfwriaeth i ganiatáu i drothwy gael ei sefydlu ar gyfer gwiriadau fel dilysu hunaniaeth. Unwaith y byddai'r holl bartïon wedi cwblhau eu gwiriadau hunaniaeth, pe baent yn cwrdd â'r trothwy derbyniol, byddai'r AA yn cael ei chofrestru. Lle nad oeddent yn cwrdd â'r trothwy, byddai gan SGC ddisgresiwn i ystyried tystiolaeth ychwanegol. Pe baent yn sgorio islaw'r trothwy, byddai'r AA yn cael ei gwrthod. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i SGC ystyried amgylchiadau penodol pob rhoddwr a chofrestru AAau na fyddai efallai yn bodloni'r trothwy ar gyfer cofrestru awtomatig, ond y gellid profi eu bod yn ddilys o hyd.
129. Dull dewisol y Llywodraeth oedd 3a - **cofrestru amodol**. Y rheswm am hyn oedd oherwydd y byddai system amodol, sy'n caniatáu ar gyfer ystod eang o wiriadau, yn lleihau'r siawns o gofrestru AA dwyllodrus a chynyddu hyder yn y mesurau sy'n diogelu rhoddwyr. Byddai hefyd yn sicrhau bod pob rhoddwr ac AA yn cael eu trin yn gyson. Byddai cael un sefydliad, e.e. SGC, yn gweithredu'r gwiriadau awtomataidd hyn yn symleiddio'r broses gofrestru ar gyfer AA ac yn gwneud y broses yn fwy

tryloyw i bob parti perthnasol, ond byddai hefyd yn sicrhau bod costau'n parhau i fod yn fforddiadwy i'r rheini sy'n creu AA.

130. Gofynnwyd i ymatebwyr archwilio pob un o'r dulliau a amlinellwyd a rhoi rhesymau dros eu hatebion:

C4. Yn eich barn chi, pa actorion mewn AA y dylid gwirio eu hunaniaeth? Rhwch resymau dros eich atebion.

C5. Beth yw eich barn chi ar y cynigion a amlinellwyd? Rhwch resymau dros eich atebion:

- Gwiriadau Amodol (Dull 3a)
- Gwiriadau Disgresiynol (Dull 3b)

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, pa actorion mewn AA y dylid gwirio eu hunaniaeth? Rhwch resymau dros eich atebion.

131. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: rhoddwr, atwrnai, darparwr tystysgrif, ddim yn gwybod neu arall. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.

132. Mynegodd 283 o ymatebwyr farn ynghylch hunaniaeth pa actorion a ddylai gael eu gwirio, gyda'r mwyafrif o blaid gweithredu gwiriadau. Nodir eu hatebion yn Ffigur 8. Roedd dros 80% o'r farn y dylid gwirio hunaniaeth y rhoddwr neu'r atwrnai. Yn ogystal, dewisodd y mwyafrif, 65%, y darparwr tystysgrif yn eu hatebion. Ymhlith ymatebion 'arall', roedd y tyst yn awgrym cyffredin, lle nad oedd y rôl hon yn cael ei chyflawni gan y darparwr tystysgrif. Atebodd 37 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn; dewisodd pob un o'r 37 y rhoddwr, dewisodd 36 yr atwrnai, dewisodd 35 y darparwr tystysgrif a dewisodd 21 'arall' – roedd y rhain i gyd yn enwi'r tyst.

Actor	Nifer yr Ymatebion
Rhoddwr	250 (88%)
Atwrnai	231 (82%)
Darparwr Tystysgrif	185 (65%)
Ddim yn gwybod	9 (3%)
Arall (wedi nodi): Tyst	38 (13%)
Arall (heb nodi)	9 (3%)

Ffigur 8. Ymatebion i gwestiwn 4. Mae'r canrannau yn seiliedig ar gyfanswm o 283 o ymatebion.

Themâu:

133. Darparodd 143 o ymatebwyr resymau am eu hatebion. Roedd llawer o'r ymatebion yn ystyried gwiriadau hunaniaeth i fod yn amddiffyniad da oherwydd gallent atal twyll, darparu llwybr archwilio a chau bylchau yn y system bresennol. Nododd thema gyffredin arall ymysg yr ymatebion, o ystyried disgwyliadau cyffredinol proses gyfreithiol, ac arwyddocâd y pwerau a roddir gan AA, ei bod yn briodol i wirio hunaniaeth yr unigolion perthnasol. Yn ogystal, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r gwiriadau fynd y tu hwnt i wiriad hunaniaeth, a dylent gynnwys gwiriadau cefndir ychwanegol ar gofnodion troseddol neu fethdaliad.
134. Mewn cyferbyniad, nododd detholiad bach o ymatebion nad oedd gwiriadau hunaniaeth yn amddiffyniad da yn erbyn twyll neu bwysau gormodol, a bod y mecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd yn amddiffyn y rhoddwr yn ddigonol. Amlygodd eraill fod gweithwyr proffesiynol cyfreithiol eisoes yn gwirio hunaniaeth y rhoddwr fel rhan o'r broses safonol, ac felly byddai hyn yn cynrychioli dyblygiad ymdrech.
135. Yn ogystal, codwyd pryderon am yr anawsterau o gael mynediad at y mathau o ddogfennau adnabod a fyddai o bosib yn ofynnol. Nododd carfan fach o ymatebion na fyddai gan rai pobl ddogfennau adnabod, ac felly byddai angen ystod eang o opsiynau i fynd i'r afael â hyn. Yn ogystal, dywedasant y byddai angen llwybr nad yw'n ddigidol ar gyfer gwiriadau, i'r rheini nad oes ganddynt ID sy'n wiriadwy ar-lein. Awgrymodd cwpl o ymatebion y dylid defnyddio'r Swyddfa Bost i wirio hunaniaeth lle nad oedd pobl yn gallu gwneud hynny'n ddigidol.
136. Roedd sylwadau eraill a godwyd yn cynnwys pryderon am breifatrwydd ac ansicrwydd cyffredinol o ran y ffordd mae'r llywodraeth yn trin a storio data personol. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn debygol y byddai'r ffioedd am wneud AA yn cynyddu oherwydd y gofyniad ychwanegol hwn. Nododd nifer fach o ymatebion y byddai gwiriadau hunaniaeth yn cynyddu cymhlethdod y broses, gan nodi'r anawsterau y mae rhai defnyddwyr yn ei gael wrth ddefnyddio gweithdrefnau hunaniaeth presennol Porth y Llywodraeth.

Cwestiwn 5: Beth yw eich barn chi ar y cynigion a amlinellwyd? Rhowch resymau dros eich atebion: Gwiriadau amodol (dull 3a)

137. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
138. Atebodd 289 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a nodir yr ymatebion yn Ffigur 9. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol i raddau helaeth, gyda 209 o ymatebwyr (72%) yn darparu ateb 'cadarnhaol' neu 'cadarnhaol yn bennaf'. Dim ond 39 o ymatebwyr a roddodd ateb negyddol cyffredinol (14%). Atebodd 37 o ymatebion

ymgyrch y cwestiwn ac roedd 36 ohonynt yn 'gadarnhaol yn bennaf', tra bod 1 yn 'gadarnhaol'.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	289	90 (31%)	119 (41%)	29 (10%)	15 (5%)	24 (8%)	12 (4%)
Y cyhoedd	110	46 (42%)	34 (31%)	11 (10%)	2 (2%)	8 (7%)	9 (8%)
Gweithwyr proffesiynol	129	24 (19%)	66 (51%)	16 (12%)	10 (8%)	11 (9%)	2 (2%)
Sefydliadau	46	19 (41%)	18 (39%)	2 (4%)	2 (4%)	5 (11%)	0

Ffigur 9. Ymatebion i Gwestiwn 5-3a

139. Er bod pob grŵp o ymatebwyr yn gadarnhaol am wiriadau amodol, roedd y gefnogaeth yn gryfach ymhlith y cyhoedd a sefydliadau proffesiynol, gyda dros 40% ym mhob grŵp yn mynegi cefnogaeth 'gadarnhaol' gref. Yn ogystal, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau oedd y mwyaf tebygol o weld y cynnig hwn yn negyddol ar y cyfan (16% o 129 o ymatebion a 15% o 46 o ymatebion yn y drefn honno), o'u cymharu ag aelodau'r cyhoedd (8% o 110 o ymatebion).

Themâu:

140. Rhoddodd 118 o ymatebwyr resymau pellach dros eu hatebion. Roedd llawer o'r rhesymau a roddwyd yn canolbwyntio ar ddilysu hunaniaeth, yn hytrach na manylion y cynnig. Yn debyg i gwestiwn pedwar, ystyriwyd bod gwiriadau hunaniaeth yn amddiffyniad da oherwydd eu bod yn atal twyll ac yn darparu amddiffyniad ychwanegol i'r rhoddwr trwy wirio mai'r rhoddwr oedd yn gwneud yr AA. Unwaith eto, nododd rhai ymatebwyr bod gwiriadau ychwanegol (e.e. dilysu hunaniaeth) yn fuddiol ac yn angenrheidiol o ystyried natur bwysig y broses.

141. Roedd y safbwyntiau a ddarparwyd ar wiriadau cefndir ychwanegol yn gymysg. Roedd rhai o blaid cynnal gwiriadau cefndir ychwanegol er mwyn canfod euogfarnau troseddol neu brofi addasrwydd yr atwrnai. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod nifer tebyg o ymatebwyr yn nodi na ddylai SGC gyfyngu ar ddewis y rhoddwr o atwrnai, waeth beth yw canlyniadau unrhyw wiriadau. Mae hynny'n adlewyrchu'r egwyddor o'r hawl i wneud 'penderfyniadau annoeth', sy'n ategu'r DGM.

142. O'r rheini a wnaeth sylwadau penodol ar sut y byddai gwiriadau amodol yn cael eu cynnal, yn gyffredinol roedd ymatebwyr o'r farn mai'r broses hon fyddai'r dull

cyflymaf, mwyaf cymesur a mwyaf syml. Yn ogystal, roedd rhai yn gweld gwiriadau amodol fel dull cadarn a fyddai'n trin pob AA yn gyson ac yn cynyddu hyder yn nilysrwydd AAau. Yn ôl atebion eraill, dylai unigolion allu apelio i'r Llys Gwarchod os nad ydynt yn cytuno â phenderfyniad SGC.

143. Cododd rhai unigolion bryderon am natur gymhleth ac anhyblyg gwiriadau amodol a'r fiwrocratiaeth ychwanegol y gallai hynny ei ychwanegu. Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn pryderu am yr effaith y byddai'r dasg weinyddol ychwanegol hon yn ei chael ar y gwasanaeth y mae SGC yn ei ddarparu.

Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y cynigion a amlinellir? Rhowch eich rhesymau dros eich ymatebion: Gwiriadau disgresiynol (dull 3b)

144. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
145. Atebodd 282 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac mae Ffigur 10 yn nodi'r ymatebion. Yn gyffredinol, derbyniodd y dull hwn ymateb mwy negyddol o'i gymharu â dull 3a. Dim ond 27% o'r ymatebwyr oedd o'r farn bod y dull hwn yn gadarnhaol, gyda'r mwyafrif (51%) yn dewis 'negyddol yn bennaf' neu 'negyddol' pan ofynnwyd am wiriadau disgresiynol. Yn ogystal, atebodd 37 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn, gyda 33 o'r atebion yn 'negyddol' a 4 ateb yn 'negyddol yn bennaf'.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	282	35 (12%)	41 (15%)	50 (18%)	42 (15%)	102 (36%)	12 (4%)
Y cyhoedd	107	17 (16%)	20 (19%)	22 (21%)	17 (16%)	25 (23%)	6 (6%)
Gweithwyr proffesiynol	128	13 (10%)	14 (11%)	20 (16%)	21 (16%)	55 (43%)	5 (4%)
Sefydliadau	43	4 (9%)	7 (16%)	6 (14%)	4 (9%)	22 (51%)	0

Ffigur 10. Ymatebion i gwestiwn 5-3b

146. Gweithwyr proffesiynol a sefydliadau oedd y rhai mwyaf gwrthwynebus i'r dull hwn, gyda dros 40% o'u hymatebion yn nodi ymateb cryf 'negyddol', o'i gymharu â dim ond 23% o'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu bod y cyhoedd yn gadarnhaol iawn. Yn gyffredinol, roedd y cyhoedd yn negyddol, gyda 39% yn dewis naill ai 'negyddol' neu 'negyddol yn bennaf', o'i gymharu â'r 25% a roddodd un o'r ddau ymateb cadarnhaol. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod yn niwtral, gyda

21% o ymatebion y cyhoedd yn darparu'r ateb hwn, o gymharu â dim ond 16% o weithwyr proffesiynol ac 14% o sefydliadau.

Themâu:

147. Nododd 113 o ymatebwyr resymau pellach dros eu hatebion. Y brif ddadl yn erbyn dull 3b oedd mewn perthynas â natur disgresiynol y gwiriadau. Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu nad oedd dull disgresiynol yn ddigon llym, ac o'r farn y dylid trin pob AA yn gyson er mwyn lleihau'r risg o fethu AAau twyllodrus neu i ganfod materion eraill. Yn ogystal, dywedodd rhai bod gwiriadau disgresiynol yn rhy gymhleth, yn ddryslyd ac y byddai'n anodd eu gweinyddu. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn bod hyn yn debygol o achosi oedi ychwanegol i'r broses ymgeisio. Cododd eraill bryderon am allu SGC i reoli baich ychwanegol y gwiriad hwn.
148. Er gwaethaf pryderon am ddull 3b, yn debyg i ymatebion i gwestiwn 4 a chwestiwn 5-3a, yn gyffredinol mynegodd ymatebwyr gefnogaeth o ran gwneud gwiriadau hunaniaeth ychwanegol, o ystyried pwysigrwydd y pŵer sy'n cael ei roi gan yr AA. Ar y llaw arall, mynegodd lleiafrif bach o ymatebion bryderon am unigolion yn cael mynediad at ddogfennau adnabod angenrheidiol. O ran dull 3b yn benodol, roedd rhai ymatebion yn credu y byddai natur hyblyg y dull yn ddefnyddiol i roddwyr lle nad ydynt yn gallu bodloni rhestr benodol o ofynion hunaniaeth.
149. Yn debyg i gwestiynau blaenorol ar y pwnc hwn, mynegodd nifer fach o atebion gefnogaeth i wiriadau cefndir ychwanegol ar yr atwrnai. Dadleuodd nifer tebyg na ddylai dewis y rhoddwr gael ei gyfyngu gan ganlyniad unrhyw wiriad cefndir, gan bwysleisio bod gan y rhoddwr yr hawl i wneud 'penderfyniadau annoeth'.

Ymateb y Llywodraeth

150. Rydym wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a gyflwynwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â chylch gwaith SGC i gynnal gwiriadau ychwanegol yn ystod creu a chofrestru AA. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, roeddem am archwilio sut i ehangu pwerau SGC mewn deddfwriaeth trwy un ai wiriadau amodol neu wiriadau disgresiynol. Roedd y ddau ddull yn cynnwys cyflwyno dilysu hunaniaeth.

Gwiriadau hunaniaeth ar yr actorion gwahanol

151. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos cefnogaeth ar gyfer cynnwys gwiriadau hunaniaeth fel rhan o'r broses creu AA, yn enwedig ar gyfer y rhoddwr a'r atwrnai. Roedd gwiriadau hunaniaeth yn cael eu hystyried yn eang fel amddiffyniad yn erbyn twyll a cham-drin, ac yn briodol o ystyried natur yr AA fel dogfen gyfreithiol a'r pwerau cysylltiedig. Mae cynsail eisoes ar gyfer hyn yn y sector cyfreithiol, gan ei bod yn ofynnol i lawer o weithwyr proffesiynol cyfreithiol wirio hunaniaeth eu cleientiaid ar hyn o bryd, ac felly mae rhoddwyr sy'n creu AA drwy'r

llwybr hwn eisoes yn gorfod darparu dogfennau i gadarnhau eu hunaniaeth. O ganlyniad, bydd ehangu cylch gwaith SGC i gynnwys gwiriadau hunaniaeth ar y rhoddwr yn darparu lefel fwy cyson ac ehangach o ddiogelwch.

152. Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ffafrio gwiriadau hunaniaeth ar yr atwrnai. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, awgrymodd arolwg a gynhaliwyd gyda chyfreithwyr mai dim ond 11% a wiriodd hunaniaeth yr atwrneiod¹. Er y gall fod budd o gynnal gwiriadau ar yr atwrnai, o ran cadarnhau hunaniaeth yr atwrnai, mae yna ffactorau eraill i'w hystyried. Fel y nododd rhai ymatebwyr, mae trydydd partion eisoes yn gwirio hunaniaeth yr atwrnai ar y pwynt o ddefnyddio'r AA, er enghraifft banciau neu wiriadau'r Gofrestrfa Tir trwy gyfreithwyr trawsgludo. Felly, efallai y bydd cyflwyno gwiriadau hunaniaeth ar yr atwrnai yn ddyblygiad diangen o ymdrech.
153. Ar ben hynny, nododd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bwysigrwydd parchu hawl rhoddwyr i wneud penderfyniadau (hyd yn oed lle gallai'r rhain fod yn annoeth) a phenodi atwrnai o'u dewis. Mae hyn, ynghyd â mesurau diogelu eraill fel tystio, rôl y darparwr tystysgrif, gwiriadau hunaniaeth ar y rhoddwr a gwiriadau trydydd parti ar yr atwrnai ar adeg defnyddio'r AA, yn gallu negyddu'r angen am wirio hunaniaeth yr atwrnai ar adeg cofrestru'r ddogfen.

O ystyried yr ymatebion, byddwn yn ystyried a yw gwiriadau ar yr atwrnai yn angenrheidiol ac yn briodol pan gânt eu hystyried ochr yn ochr â mecanweithiau diogelu eraill sy'n bodoli ar draws y broses AA, gan gynnwys pan gânt eu defnyddio.

154. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn cefnogi gwiriadau hunaniaeth ar y darparwr tystysgrif, neu'r tyst lle na weithredir y rôl hon gan y darparwr tystysgrif. O ran y tyst yn benodol, fel yr eglurwyd yn y crynodeb o gynbig 1 (tudalen 25), bydd y Llywodraeth yn ystyried dwy ffordd o symud ymlaen: disodli tystio gyda swyddogaeth ddigidol wrthrychol, a chyfuno rôl y tyst a'r darparwr tystysgrif.
155. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r tyst a'r darparwr tystysgrif yn ei chwarae wrth greu AA (gweler Cynnig 1). Yn benodol, mae'r darparwr tystysgrif yn gwirio bod y rhoddwr yn deall ac yn cydsynio yn rhydd i greu'r AA, sy'n amddiffyniad pwysig. Yn ogystal, awgrymodd rhai ymatebwyr mai'r darparwr tystysgrif yw'r mwyaf tebygol o gael ei alw i ddarparu tystiolaeth i'r Llys Gwarchod os oes anghydfod neu wrthwynebiad yn y dyfodol. O ganlyniad, mae gwerth o ran gwirio hunaniaeth darparwr tystysgrif i wneud y broses yn fwy cadarn a gwella amddiffyniadau i'r rhoddwr.

¹ OPG (2020) Customer Satisfaction Surveys: Power of Attorney. Unpublished

Am y rheswm hwn, bydd y Llywodraeth yn gwirio hunaniaeth y rhoddwr a'r darparwr tystysgrif yn y gwasanaeth moderneiddiedig.

156. Er gwaethaf y gefnogaeth gref ar gyfer gwiriadau hunaniaeth, nodwyd safbwyntiau ynghylch mynediad i ddogfennau adnabod y gellir eu gwirio'n ddigidol ar gyfer rhai grwpiau o unigolion. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn y Datganiad am Gydraddoldebau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb, ac fe ellir ei ddarllen yn Atodiad C. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd nad oes gan bawb fynediad parod at ddogfennaeth y gellir ei wirio'n briodol ar-lein. Felly, wrth ddatblygu'r gwasanaeth byddwn yn ystyried llwybrau amgen ar gyfer gwirio hunaniaeth yr unigolion hyn. Ein bwriad yw datblygu gwasanaeth sy'n cynnig hyblygrwydd wrth barhau i feithrin hyder yn yr AA. Fel yr awgrymwyd yn yr ymgynghoriad, gallai hyn gynnwys cynnal cyfweiliad corfforol gyda thrydydd parti sy'n gallu tystio hunaniaeth y rhoddwr, yn debyg i'r gwasanaethau a gynigir gan y Swyddfa Bost ar gyfer pasbortau.
157. Yn gryno, mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r safbwyntiau a godwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr o ran y rôl gadarnhaol y gall gwiriadau hunaniaeth ei chwarae wrth ddarparu amddiffyniadau ychwanegol i'r rhoddwr.

Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn ystyried cynnwys ystod o opsiynau hunaniaeth er mwyn sicrhau mynediad i bawb.

Gwiriadau amodol v gwiriadau disgresiynol

158. Nododd yr ymgynghoriad mai dull dewisol y Llywodraeth oedd ehangu cylch gwaith SGC fel y gallai AA gael ei chofrestru neu ei gwrthod yn dibynnu ar ganlyniad set newydd o wiriadau rhagnodedig a fyddai'n cynnwys dilysu hunaniaeth. Y dull amgen a gyflwynwyd oedd gwiriadau disgresiynol, lle byddai SGC yn barnu a yw AA o fewn trothwy risg diogel i gofrestru. O dan y dull hwn, byddai'r AA yn cael 'sgôr risg' a fyddai'n ystyried pob gwiriad a gynhaliwyd (gan gynnwys dilysu hunaniaeth), a byddai gweithiwr achos SGC yn cymeradwyo neu'n gwrthod yr AA yn ôl ei ddisgresiwn.
159. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi gwiriadau amodol yn gryf dros wiriadau disgresiynol. Nododd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd trin pob AA yn gyson, gan ystyried gwiriadau amodol fel y dull mwyaf cadarn a syml. Dywedodd y rheini a oedd yn pryderu am ddull disgresiynol y gallai hyn arwain at fethu rhai achosion, gan arwain at gofrestru AAau y dylid bod wedi'u gwrthod.

160. Byddai gweithredu dull disgresiynol at gofrestru yn golygu y gallai SGC ystyried amgylchiadau unigryw pob rhoddwr, gan ganiatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl. Ystyriodd rhai ymatebwyr hynny'n gam cadarnhaol, yn enwedig i roddwyr nad oes ganddynt fynediad parod at rai mathau o ddogfennau adnabod. Fodd bynnag, yn unol ag esboniad yr ymgynghoriad, mae pob system ddisgresiynol yn cynnwys risgiau a all arwain at ragfarnau neu anghysondebau, a allai arwain at broblemau yn y tymor hir.
161. Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd yn ofalus, credwn y byddai gwiriadau amodol yn darparu'r lefel fwyaf cyson o amddiffyniadau i'r rhoddwr, gan ddarparu eglurder i bawb sy'n ymwneud â'r gwiriadau penodol y bydd SGC yn eu cynnal. Yn ogystal, bydd hynny'n sicrhau ei bod yn ofynnol i bob unigolyn basio'r un gwiriadau i gofrestru eu AAau - pwynt cyffredin a godwyd ymhlith yr ymatebion a dderbyniwyd.

O ystyried hynny, byddwn yn parhau i ddatblygu system o wiriadau amodol (dull 3a), yn hytrach na gwiriadau disgresiynol.

Gwiriadau cefndir

162. Ystyriodd yr ymgynghoriad y syniad o gynnal gwiriadau i bennu addasrwydd atwrnai. Gan nad oedd unrhyw gwestiwn penodol ar y mater, roedd yr ymatebion yn gyfyngedig ac yn gymysg. Roedd rhai ymatebwyr o blaid gwiriadau cefndir ar yr atwrnai (e.e. gwiriadau cofnodion troseddol) er mwyn gwella diogelwch y rhoddwr. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i atal unigolyn sydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog yn y gorffennol o drosedd yn ymwneud â cham-drin unigolyn agored i niwed rhag cael ei benodi fel atwrnai.
163. Ar y llaw arall, dadleuodd llawer o ymatebwyr na ddylai gwiriadau cefndir rwystro hawl y rhoddwr i benodi unigolyn y maent yn ymddiried ynddo fel yr atwrnai. Mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau annoeth - rhywbeth y mae'r DGM yn rhoi sylw iddo yn egwyddor 3, sy'n dweud na ddylai unigolyn gael ei drin fel rhywun sydd â diffyg galluedd oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth. Efallai y bydd rhai rhoddwyr yn dewis penodi atwrnai sy'n ymddangos i bobl eraill i fod yn ddewis amhriodol, ond dewis y rhoddwr yw hynny. Mae'r ddadl hon i gynnal rhyddid a hawliau unigolion i wneud eu dewisiadau eu hunain yn un cryf. Byddai ehangu cylch gwaith SGC i lunio barnau ar addasrwydd atwrneiod yn gwrth-ddweud egwyddor a hanfod y DGM i amddiffyn gallu pobl i wneud eu dewisiadau eu hunain. Bwriad SGC yw gweithredu fel cofrestrydd o gytundebau a wnaed yn breifat (yr AA), nid penderfynu pwy all gael un.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd, ni fydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwiriadau addasrwydd ychwanegol ar atwrneiod (megis gwiriadau cefndir troseddol).

Casgliad

164. O ystyried y safbwyntiau cadarnhaol tuag at gyflwyno gwiriadau hunaniaeth yn gyffredinol, ond hefyd y pryderon a godwyd ynghylch sut y dylid gwneud hynny:

- **Bydd y Llywodraeth yn ystyried a yw cynnal gwiriadau ar yr atwrnai yn angenrheidiol ac yn briodol, o'u hystyried ochr yn ochr â mecanweithiau diogelu sydd eisoes yn bodoli ar draws y broses AA, gan gynnwys pan ddefnyddir AA.**
- **Bydd y Llywodraeth yn gwirio hunaniaeth y rhoddwr a'r darparwr tystysgrif yn y gwasanaeth moderneiddiedig.**
- **Bydd y Llywodraeth yn ystyried cynnwys ystod o opsiynau hunaniaeth er mwyn sicrhau mynediad i bawb.**
- **Bydd y Llywodraeth yn parhau i ddatblygu system o wiriadau amodol (dull 3a), yn hytrach na gwiriadau disgrisiynol.**
- **Ni fydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwiriadau addasrwydd ychwanegol ar atwrneiod (megis gwiriadau cefndir troseddol).**

Crynodeb o gynneg 4 – sut mae gwrthwynebu

Cefndir

165. O dan y cynneg hwn, gwnaethom ystyried sut i egluro a symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer gwrthwynebu i gofrestrad AA. Mae'r broses hon yn caniatáu i bobl godi gwrthwynebiad i AA yn cael ei chofrestru os oes ganddynt bryderon am yr hyn sydd wedi'i gynnwys ynddi neu sut y cafodd ei chreu. Ar hyn o bryd, o dan y DGM, gall gwrthwynebiadau naill ai fod yn seiliedig ar y canlynol:
- Ni weithredwyd yr AA yn gyfreithiol yn y lle cyntaf, er enghraifft, oherwydd nad oedd gan y rhoddwr y galluedd i'w chreu, neu fe'i rhoddwyd o dan bwysau gormodol. Gelwir hyn yn 'wrthwynebiad ar seiliau rhagnodedig'; neu
 - Er y gweithredwyd yr AA yn gyfreithiol, mae ei phŵer wedi diddymu oherwydd, er enghraifft, mae'r rhoddwr wedi marw. Gelwir hyn yn 'wrthwynebiad ffeithiol'.
166. Mae'r DGM hefyd ond yn cwmpasu gallu SGC i ddelio â gwrthwynebiadau gan roddwyr, atwrneiod a phobl eraill a enwir yn yr AA. Er y dylai gwrthwynebiadau ffeithiol fynd i SGC a rhai rhagnodedig i'r Llys Gwarchod, yn ymarferol mae SGC yn derbyn mwy o wrthwynebiadau rhagnodedig na'r Llys Gwarchod ac yna'n cyfeirio'r rhain yn ôl yr angen. Gall hyn fod yn ddryslyd ac felly roedd yr ymgynghoriad yn ceisio deall sut i'w gwneud yn haws i'r rheini sydd eisiau codi gwrthwynebiad.
167. **Dull 4a – SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau.** Byddai SGC yn derbyn ac yn gallu archwilio pob gwrthwynebiad oddi wrth bob parti. Bydd newid y ddeddfwriaeth sylfaenol i sicrhau mai SGC yw'r unig sefydliad y gall rhywun godi gwrthwynebiad ag ef yn ei gwneud yn haws i'r rheini sydd â phryder i wybod ble i fynd a beth i'w wneud nesaf. Yn yr un modd, byddai hyn yn golygu y gellid ymdrin â'r broses o archwilio i'r gŵyn yn gynharach yn ystod y broses o wrthwynebu a bod yn barod pan fydd angen i'r llys wneud penderfyniad, os oes angen un. Byddai hyn yn alinio deddfwriaeth gydag arfer cyfredol.
168. **Dull 4b – SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig.** Byddai unrhyw un sydd â phryder yn gallu codi gwrthwynebiad, ond byddai angen iddynt gyfeirio eu gwrthwynebiad yn uniongyrchol i SGC neu'r Llys Gwarchod, yn dibynnu ar natur eu gwrthwynebiad. Byddai gwrthwynebiadau ffeithiol yn mynd i SGC a byddai gwrthwynebiadau ar seiliau rhagnodedig yn mynd i'r Llys Gwarchod. Byddai hyn yn alinio arfer cyfredol gyda'r ddeddfwriaeth.

169. Dull dewisol y Llywodraeth oedd newid deddfwriaeth i ganiatáu **SGC i gael yr holl wrthwynebiadau** er mwyn darparu eglurder, symleiddio'r broses bresennol, a chaniatáu i grŵp ehangach o bobl godi gwrthwynebiadau. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod gwrthwynebiadau wedi'u cynllunio i wella mesurau diogelu mewn perthynas â gweithredu twyllodrus honedig neu bwysau gormodol ar y rhoddwr. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y broses yn hawdd ei deall, er mwyn sicrhau bod gwrthwynebiadau gwirioneddol yn cael eu codi.
170. Gofynnwyd i ymatebwyr archwilio pob un o'r dulliau a amlinellwyd ac i ystyried pŵer SGC i atgyfeirio achosion at y Llys Gwarchod. Gofynnwyd iddynt roi rheswm dros eu hatebion:
- C6. Beth yw eich barn chi am y cynigion a amlinellir? Nodwch eich rhesymau dros eich ymatebion:
- SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau (dull 4a)
 - SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig (dull 4b)
- C7. A ddylai SGC atgyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod?

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 6: Beth yw eich barn chi am y cynigion a amlinellir? Nodwch eich rhesymau dros eich ymatebion: SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau (dull 4a)

171. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.
172. Atebodd 281 o ymatebwyr y cwestiwn. Nodir yr ymatebion yn Ffigur 11. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth gref i ddull 4a, gyda 80% o 281 o ymatebwyr yn ateb naill ai'n 'gadarnhaol' neu'n 'gadarnhaol yn bennaf'. Dim ond 6% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a roddodd ymateb negyddol. Atebodd 36 ymateb ymgyrch y cwestiwn hwn ac roedd pob un ohonynt yn darparu ymateb cadarnhaol.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	281	172 (61%)	53 (19%)	28 (10%)	7 (2%)	12 (4%)	9 (3%)
Y cyhoedd	105	48 (46%)	21 (20%)	18 (17%)	4 (4%)	8 (8%)	6 (6%)
Gweithwyr proffesiynol	128	85 (66%)	26 (20%)	9 (7%)	2 (2%)	4 (3%)	2 (2%)

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Sefydliad	45	37 (82%)	5 (11%)	1 (2%)	1 (2%)	0	1 (2%)

Ffigur 11. Ymatebion i gwestiwn 6-4a

173. Roedd y gefnogaeth gryfaf i SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau ymhlith sefydliadau (82% o 45 o ymatebion), ac yna gweithwyr proffesiynol (66% o 128 o ymatebion). Wrth ddangos cefnogaeth yn gyffredinol, gyda 48 o ymatebion (46% o 105 o ymatebion), roedd aelodau'r cyhoedd ychydig yn fwy tebygol o fod yn niwtral neu'n negyddol tuag at y dull hwn, o'i gymharu â grwpiau eraill. Roeddent hefyd ychydig yn fwy tebygol o ateb 'ddim yn gwybod'.

Themâu:

174. Darparodd 131 o ymatebwyr resymau am eu hatebion. Roedd y rheswm mwyaf cyffredin a ddarparwyd yn gysylltiedig â symrlwydd y dull hwn. Dywedodd y mwyafrif ei bod yn syml, yn effeithlon ac yn effeithiol i bob gwrthwynebiad fynd i un lle, ac y byddai hyn yn haws i aelodau'r cyhoedd ei ddeall. Roedd nifer fach hefyd o'r farn y byddai hyn yn arwain at broses gyflymach ar gyfer datrys gwrthwynebiadau, a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol o ystyried natur sensitif rhai gwrthwynebiadau o ran amser. Dywedodd llawer o ymatebion fod SGC yn y safle gorau i ddelio â gwrthwynebiadau. Fodd bynnag, awgrymodd set fach o atebion y dylai fod rôl i'r Llys Gwarchod mewn achosion cymhleth, neu mewn perthynas â phroses apelio.
175. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr o blaid ehangu'r grŵp o bobl a allai wrthwynebu cofrestriad AA. Awgrymwyd y dylai unrhyw un gael yr hawl i wrthwynebu, yn enwedig gan nad yw'n orfodol rhestru 'unigolyn i'w hysbysu' ac, mewn llawer o achosion, mae hynny'n golygu na fydd unrhyw un yn cael ei hysbysu.
176. Roedd yr ateb negyddol mwyaf cyffredin yn gysylltiedig â'r effaith y byddai'r dull hwn yn ei chael ar SGC. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai SGC yn ei chael hi'n anodd rheoli'r llwyth gwaith ychwanegol a byddai angen cyllid ac adnoddau ychwanegol i wasanaethu'r dull hwn. Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn pryderu y byddai dull 4a yn arwain at SGC yn treulio amser ar wrthwynebiadau blinderus, gan greu oedi pellach yn y system. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid atal hawliadau blinderus trwy osod y seiliau a ganiateir i gyflwyno gwrthwynebiadau yn yr arweiniad.

Cwestiwn 6: Beth yw eich barn chi am y cynigion a amlinellir? Nodwch eich rhesymau dros eich ymatebion: SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig (dull 4b)

177. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: cadarnhaol, cadarnhaol yn bennaf, niwtral, negyddol yn bennaf, negyddol a ddim yn gwybod. Yn ogystal, cafodd yr ymatebwyr gyfle i adael ymatebion testun rhydd.

178. Atebodd 252 o ymatebwyr y cwestiwn. Nodir yr ymatebion yn Ffigur 12. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r dull hwn yn negyddol, gyda 45% o'r 252 o ymatebwyr naill ai'n dewis 'negyddol' neu 'negyddol yn bennaf'. Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr (24%) yn niwtral tuag at y dull hwn, ac roedd 27% yn 'gadarnhaol' neu'n 'gadarnhaol yn bennaf'. Roedd yr ymatebion ymgyrch i'r cwestiwn hwn yn gymysg iawn. Dim ond 23 ddarparodd ateb, gan gynnwys 8 negyddol, 3 negyddol yn bennaf, 11 cadarnhaol ac 1 cadarnhaol yn bennaf.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Cadarnhaol	Cadarnhaol yn bennaf	Niwtral	Negyddol yn bennaf	Negyddol	Ddim yn gwybod
Y cyfan	252	38 (15%)	29 (12%)	61 (24%)	26 (10%)	87 (35%)	11 (4%)
Y cyhoedd	102	15 (15%)	14 (14%)	29 (28%)	6 (6%)	32 (31%)	6 (6%)
Gweithwyr proffesiynol	112	21 (18%)	13 (12%)	25 (22%)	13 (12%)	36 (32%)	4 (4%)
Sefydliad	35	2 (6%)	2 (6%)	5 (14%)	6 (17%)	19 (54%)	1 (3%)

Ffigur 12. Ymatebion i gwestiwn 6-4b.

179. Sefydliadau oedd y mwyaf gwrthwynebus i'r dull hwn, gyda 71% o 35 o ymatebion yn rhoi ateb negyddol. Er bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol unigol yn negyddol yn bennaf tuag at y dull hwn, darparodd dros 20% ym mhob grŵp (o 102 o ymatebion ac 112 o ymatebion, yn y drefn honno) ymateb niwtral.

Themâu:

180. Darparodd 87 o ymatebwyr resymau am eu hatebion. Roedd y prif bryder a godwyd yn ymwneud â chymhlethdod dull 4b. Y rheswm mwyaf cyffredin a ddarparwyd oedd bod y dull hwn yn gymhleth, yn ddryslyd, a gallai annog unigolion i beidio â gwneud gwrthwynebiad gan y byddent yn ansicr o ble i gyfeirio eu hawliad. O ganlyniad, byddai'n haws petai pob gwrthwynebiad yn mynd i'r un lle.

181. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau, yn hytrach na chyflwyno system gyfyngol. Yn ogystal, nododd rhai ymatebion na

fyddai rhai pobl yn gwybod y gwahaniaeth rhwng gwrthwynebiad ar seiliau rhagnodedig a gwrthwynebiad ffeithiol, ac felly dylai pobl allu gwrthwynebu am unrhyw beth. Yn yr un modd, mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryderon am y risg o oedi pe bai gwrthwynebiad yn cael ei gamgyfeirio, a'r effaith y gallai hynny ei gael.

182. Dywedodd lleiafrif bach o ymatebwyr y dylai natur y gwrthwynebiadau gael eu cyfyngu i'r rheini sy'n seiliedig ar ffeithiau a gwrthwynebiadau y gellir eu cyfiawnhau. Roedd nifer fach o'r farn y byddai dull 4b yn lleihau gwrthwynebiadau blinderus.

Cwestiwn 7: A ddylai SGC fod yn atgyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod?

183. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: ie, na a ddim yn gwybod. Yn ogystal, roedd cyfle i'r ymatebwyr ddarparu ymatebion testun rhydd.
184. Lle nododd ymatebydd 'Na', ond rhoddodd ymateb testun rhydd a nododd gefnogaeth i atgyfeiriadau i'r Llys Gwarchod mewn rhai amodau (chafeat), yna mae'r ateb wedi'i godio fel 'na, gyda chafeat'.
185. At ddibenion dadansoddi, ystyrir bod ymateb 'na, gyda chafeat' o blaid SGC yn cyfeirio achosion i'r Llys Gwarchod.
186. Atebodd 265 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nodir yr ymatebion yn Ffigur 13. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gefnogol i SGC yn cyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod, gyda 55% o'r 265 o ymatebion yn ateb 'ie' neu 'na, gyda chafeat'. Ymatebodd 19% gyda 'na', a dewisodd 26% 'ddim yn gwybod'. Atebodd pob un o'r 37 ymateb ymgyrch y cwestiwn hwn, gyda phob un yn ateb 'ie'.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	ie	Na, gyda chafeat	Na	Ddim yn gwybod
Y cyfan	265	135 (51%)	10 (4%)	50 (19%)	70 (26%)
Y cyhoedd	102	32 (31%)	4 (4%)	24 (24%)	42 (41%)
Gweithwyr proffesiynol	120	78 (65%)	4 (3%)	21 (18%)	17 (14%)
Sefydliad	40	25 (63%)	2 (5%)	4 (10%)	9 (23%)

Ffigur 13. Ymatebion i gwestiwn 7.

187. Gweithwyr proffesiynol a sefydliadau oedd y mwyafrif cefnogol o'r dull hwn, gyda 68% (o 120 a 40 o ymatebion, yn y drefn honno) naill ai yn ateb 'ie' neu 'na, gyda chafeat', mewn gwrthgyferbyniad i aelodau'r cyhoedd, lle'r oedd 34% o 102 o ymatebion yn

gefnogol yn gyffredinol. Atebodd y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd 'ddim yn gwybod' (41%) ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o roi'r ateb hwn o'i gymharu â grwpiau eraill.

Themâu:

188. Darparodd 161 o ymatebwyr resymau dros eu hatebion. Y rheswm mwyaf cyffredin a ddarparwyd, gan alinio gyda'r ymatebion cadarnhaol mwyafrifol, oedd y dylid cysylltu â SGC yn y lle cyntaf a phenderfynu beth y dylid ei gyfeirio at y Llys Gwarchod. Er enghraifft, achosion lle mae tystiolaeth o dwyll a cham-drin neu lle mae angen diogelu'r rhoddwr. Roedd ymatebwyr o'r farn mai hwn fyddai'r llwybr symlaf a hawsaf ar gyfer rheoli gwrthwynebiadau a cheisio canfod datrysiadau, gan ei fod yn lleihau nifer y partiön a'r camau perthnasol. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr y gallai prosesau llys ymddangos yn fygythiol, felly roeddent yn credu y byddai'r dull hwn yn ei gwneud yn llai tebygol y byddai gwrthwynebwyr yn cael eu hatal rhag cyflwyno gwrthwynebiad oherwydd baich neu gymhlethdod y broses.
189. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i'r llys yn cyfrannu at y broses mewn rhyw ffordd, gan ddibynnu ar natur yr anghydfod. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai SGC gyfeirio materion at y Llys Gwarchod lle mae'r achos yn gymhleth neu'n ddifrifol, neu ble nad oedd SGC yn gallu dod i benderfyniad. Roedd atebion eraill yn cydnabod yr awdurdod a'r arbenigedd sydd gan y llys, ac yn teimlo bod ei gyfranogiad yn briodol ac yn rhoi mwy o bŵer a gorfodaeth i'r broses. Fodd bynnag, roedd pryder ymhlith rhai ymatebwyr am yr effaith y byddai cyfranogiad y Llys yn ei chael ar gyflymder datrys gwrthwynebiadau. Nodwyd na ddylai'r Llys Gwarchod gymryd rhan gan y byddai'n feichus i'r llys, byddai'n achosi oedi ac yn arwain at amser cwblhau araf.

Ymateb y Llywodraeth

190. Gan adlewyrchu'r cynigion ymgynghori, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys dau brif faes: i) ble i wrthwynebu, a ii) pwy all wrthwynebu. Roedd yr atebion yn gefnogol i SGC yn derbyn yr holl wrthwynebiadau i gofrestru AA. Yn ogystal, roedd cefnogaeth i ehangu'r grŵp a allai godi gwrthwynebiad i ganiatáu i unrhyw un gyflwyno pryder.

Ble i wrthwynebu

191. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, ar hyn o bryd mae gwrthwynebydd yn cyfeirio ei wrthwynebiad i naill ai SGC neu'r Llys Gwarchod, yn dibynnu ar natur y pryder. Dylid codi gwrthwynebiadau ffeithiol sy'n cwmpasu achosion lle nad oes gan yr AA unrhyw bŵer bellach (e.e. mae'r rhoddwr wedi marw ers hynny) gyda SGC. Dylid anfon gwrthwynebiadau ar seiliau rhagnodedig, sy'n ymwneud â ph'un a yw'r AA yn ddilys ai peidio (e.e. nid oedd gan y rhoddwr alluedd ar adeg gwneud yr AA) at y Llys Gwarchod. Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod y gwahaniaeth hwn yn ddryslyd, ac nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn deall y gwahaniaeth rhwng gwrthwynebiad ffeithiol a

gwrthwynebiad ar seiliau rhagnodedig. O ganlyniad, roedd yr ymatebion yn gefnogol iawn i'r cynnig y dylid anfon yr holl wrthwynebiadau i'r un lle.

192. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu bod SGC yn y safle gorau i dderbyn gwrthwynebiadau yn y lle cyntaf, ac yn meddwl mai hwn fyddai'r dull mwyaf syml. Mae hynny'n alinio â'r dull a ffafir gan y llywodraeth, a nodir yn yr ymgynghoriad. Yn gyffredinol, awgrymodd yr ymatebion mai dim ond apeliadau, neu achosion cymhleth, y dylid eu hystyried gan y Llys Gwarchod.
193. Mae'n bwysig bod y broses ar gyfer codi gwrthwynebiadau yn hygyrch ac yn syml o ystyried y mesurau diogelwch y gall ei ddarparu. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ystyried dull 4a fel y ffordd symlaf a mwyaf effeithiol o reoli gwrthwynebiadau, gan bwysleisio y byddai'n haws ei esbonio i gleientiaid a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr fod hyn yn cynyddu'r risg o gwynion blinderus, a gallai gynyddu'r baich ar SGC, gan arwain at oedi posibl yn y system. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai SGC nodi'n glir y seiliau dros wneud gwrthwynebiadau i liniaru yn erbyn y risg hon.
194. Nid ydym o'r farn bod y baich posibl ar SGC yn gorbwyso'r manteision y mae llwybr syml ac effeithlon ar gyfer codi gwrthwynebiadau yn ei ddarparu. Mae SGC eisoes yn derbyn y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau, er gwaethaf y gwahaniaeth presennol yn y deddfwriaeth. Yn ogystal, un o fanteision symleiddio a datblygu effeithlonrwydd yn ystod y broses foderneiddiedig yw y gellir defnyddio adnoddau SGC yn well mewn meysydd gwasanaeth eraill. Y pwysicaf o'r rhain yw'r timau sy'n delio ag archwiliadau a mesurau diogelu AA, lle byddai SGC eisiau cynyddu ei adnoddau i ddarparu mwy o werth i roddwyr. O ganlyniad, rydym yn disgwyl i nifer y gwrthwynebiadau fod yn hylaw, hyd yn oed os oes cynnydd mewn gwrthwynebiadau a phryderon a godwyd o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Gan ystyried y safbwyntiau a dderbyniwyd, bydd y Llywodraeth yn mynd ar drywydd dull 4a - fel bod SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau.

Pwy all wrthwynebu?

195. Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad, mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cwmpasu gwrthwynebiadau a godwyd gan y rhoddwr, yr atwrnai neu unrhyw unigolyn a enwir a restrir fel 'unigolyn i hysbysu'. Yna, byddai'r gwrthwynebydd yn cyfeirio eu gwrthwynebiad naill ai at SGC neu'r Llys Gwarchod, yn dibynnu ar natur eu pryder. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae SGC hefyd yn derbyn gwrthwynebiadau i gofrestrïadau gan drydydd partiön, yn aml gan aelodau o'r teulu na chawsant eu hysbysu o'r AA ac awdurdodau lleol. Gall absenoldeb deddfwriaeth yn y gofod hwn arwain at ddryswch a diffyg eglurder i SGC ac i wrthwynebwyr posibl.

196. Mae cynnwys unigolion i'w hysbysu a'r broses wrthwynebu yn fod darparu amddiffyniad trwy sicrhau bod ystod eang o bobl yn ymwybodol bod yr AA yn cael ei chofrestru, ac felly'n sicrhau bod y rheini sy'n fwyaf tebygol o fod yn ymwybodol o unrhyw faterion yn cael y cyfle i'w codi gyda SGC neu'r llys.
197. Amlygodd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y cyfyngiadau ar y fframwaith cyfreithiol presennol, oherwydd nad yw bellach yn orfodol rhestru pobl i'w hysbysu, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis peidio â rhestru unrhyw un. Gall y rhesymau dros hyn amrywio ond, i rai, mae eu rhwydwaith cymdeithasol yn gyfyngedig ac maent yn ei chael hi'n anodd nodi pobl i'w hysbysu. Roedd ymatebwyr yn cefnogi ehangu'r grŵp o bobl sy'n gallu gwrthwynebu i gynnwys unrhyw un, o ystyried y defnydd cyfyngedig o'r swyddogaeth 'unigolion i'w hysbysu' yn y broses bresennol.
198. Mae hyn yn unol â dewis y Llywodraeth, a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, gan ei fod yn adlewyrchu arferion presennol gwrthwynebwyr, a bydd yn gwella amddiffyniadau ar gyfer y rhoddwr. Mae'r broses wrthwynebiadau wedi'i chynllunio i ganfod cam-drin neu bwysau gormodol (gan gynnwys gorfodaeth) ar y rhoddwr, felly mae'n bwysig bod y broses yn ddigon hawdd i'w deall ac nid yw'n atal gwrthwynebiadau gwirioneddol. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, efallai y bydd rhai gwrthwynebwyr posibl yn ansicr a allant ymyrryd, ac efallai na fydd rhoddwyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn cael eu canfod.
199. Yma, mae'n werth rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau a godwyd am wrthwynebiadau blinderus. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael cyfyngiadau ar bwy sy'n gallu codi gwrthwynebiad er mwyn mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi natur y gwrthwynebiadau hyn a'r bobl sy'n eu gwneud. Yn aml, mae gwrthwynebiadau o'r fath yn codi oherwydd anghydfodau teuluol a diffyg cyfathrebu am benderfyniad y rhoddwr i wneud yr AA, cwmpas y pŵer y maent yn dymuno ei roi, a phwy maent yn dymuno ei roi iddo. Yn aml, gallent fod ar ffurf pryderon am alluedd neu gam-drin, ac yn aml maent yn cael eu codi gan aelodau'r teulu.
200. Dyma'r union fathau o bryderon sydd angen i SGC eu clywed er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu AA yn gallu gweithredu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhwng gwrthwynebiadau dilys, gwrthwynebiadau llawn bwriadau da ond anghywir, a gwrthwynebiadau blinderus, heb ryw fath o frysbenneu ac archwilio. Yn yr un modd, o gofio bod y pryderon hyn yn aml yn cael eu codi gan aelodau'r teulu, dyma'r bobl y byddem yn disgwyl iddynt fod yn y safle gorau i nodi pryderon, ac felly un o'r cyntaf ar unrhyw restr bosibl o "Wrthwynebwyr Cydnabyddedig".
201. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn credu y byddai rhoi cyfyngiadau ar bwy sy'n gallu codi gwrthwynebiad yn effeithio ar lefel y gwrthwynebiadau blinderus y gallai SGC eu derbyn neu lefel y gwaith sydd ei angen i'w nodi.

O ganlyniad, bydd y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth i ganiatáu gwrthwynebiadau i gofrestriad AA gan unrhyw un.

Atgyfeiriadau SGC i'r Llys Gwarchod

202. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn y dylai SGC fod â'r pŵer i atgyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod. Er bod hyn yn adlewyrchu ymarfer gweithredol cyfredol, mae pŵer SGC i wneud hyn yn aneglur ar hyn o bryd o fewn y DGM. Awgrymodd yr ymatebion, er y dylai SGC dderbyn ac ystyried y gwrthwynebiadau yn y lle cyntaf, lle bernir bod yr achos yn arbennig o gymhleth neu os oes pryder o ran diogelu, dylid cyfeirio'r achos at y Llys Gwarchod. Roedd yr ymatebion yn cydnabod arbenigedd ac awdurdod y Llys Gwarchod, ac roeddent o'r farn ei bod yn briodol cynnwys y Llys mewn achosion o'r fath.
203. Mae hyn yn unol â dull dewisol y Llywodraeth ac, er gwaethaf i rai ymatebwyr godi pryderon ynghylch yr oedi y gallai'r Llys Gwarchod gyflwyno wrth ddatrys gwrthwynebiadau, ni chredwn y bydd hyn yn fater sylweddol. Credwn y byddai hyn yn gymesur lle mae cymhlethdod neu fater diogelu sydd angen penderfyniad barnwrol. Bydd cael fframwaith deddfwriaethol clir a chyson yn ei gwneud yn haws ac yn symlach i bob parti perthnasol i wybod ble i gyfeirio eu gwrthwynebiadau, a gwneud y llwybr a'r amodau ar gyfer atgyfeirio at y Llys Gwarchod yn eglur lle ystyriodd SGC bod hynny'n briodol neu'n angenrheidiol. Dylai hyn wneud y broses yn fwy di-dor ac yn hawdd i bawb lywio.

Gan ystyried hyn, bydd y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth fel y bydd gan SGC y pŵer i atgyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod lle bo angen.

Casgliad

204. I gloi, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud y broses o wrthwynebu cofrestriad AA yn fwy cyson i bawb. Yn benodol:

- **Bydd y llywodraeth yn mynd ar drywydd dull 4a - fel bod SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau.**
- **Bydd y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth i ganiatáu gwrthwynebiadau i gofrestrriad AA gan unrhyw un.**
- **Bydd y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth fel y bydd gan SGC y pŵer i atgyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod lle bo angen.**

Crynodeb o gynneg 5 – pa bryd i wrthwynebu

Cefndir

205. O dan y cynnig hwn, fe wnaethom ystyried ar ba bwynt ac am ba mor hir y dylid caniatáu gwrthwynebiadau i gofrestrriad AA, ac a yw proses gwrthwynebu cyn cofrestru pendant yn dal i fod yn amddiffyniad perthnasol i'r rhoddwr. Ar hyn o bryd, er mwyn i bryder am greu AA gael ei archwilio gan SGC cyn iddi gael ei chofrestru, rhaid codi gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod aros statudol o 4 wythnos. Mae'r cyfnod hwn yw caniatáu i bob parti dderbyn hysbysiad bod AA yn cael ei chofrestru ac i ymateb i SGC.
206. Dull 5a – **Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu**. Gellid codi gwrthwynebiadau o'r pwynt mae'r rhoddwr yn dechrau creu AA nes iddi gael ei hanfon at ddiben ei chofrestru. Mae gwrthwynebiadau rhagarweiniol yn golygu y gellir archwilio, cadarnhau neu ddatrys pryderon yn gynt ac, o ganlyniad, byddai hynny'n symleiddio'r broses ac yn sicrhau bod yr AA ar gael i'w defnyddio'n gyflymach.
207. Dull 5b – **Byrhau'r cyfnod aros statudol**. Unwaith y bydd y rhoddwr yn cyflwyno ei AA ar gyfer cofrestru, byddai'r unigolion hysbys yn cael gwybod am yr AA a byddai'r cyfnod gwrthwynebu yn dechrau, ond byddai hyd y cyfnod yn cael ei gwtogi o'r 4 wythnos wreiddiol. Gan mai dim ond ar ôl i'r AA gael ei chyflwyno'n ffurfiol y gellir gwneud gwrthwynebiadau, byddai hyn yn helpu i leihau'r baich ar adnoddau SGC gan y byddai'n lleihau'r siawns o wrthwynebiadau camarweiniol neu unffurf. Yn yr un modd, mae'r cyfnod aros yn gweithredu fel amddiffyniad i roddwyr ac yn atal cofrestru AAau nad ydynt wedi'u creu yn unol â deddfwriaeth.
208. Dull 5c – **Dileu'r cyfnod aros statudol**. Petai mesurau diogelu newydd eraill yn cael eu cyflwyno yn gynharach yn y broses symlach hon, gallem ddileu'r cyfnod aros statudol. Byddai hynny ond yn bosibl pe bai'r gwiriadau eraill hynny'n ddigon cadarn i amddiffyn y rhoddwr yn erbyn cam-drin. Yn hytrach, gallai fod cyfnod amser penodol i roddwr dynnu ei AA yn ôl yn hawdd ar ôl iddi gael ei hanfon i'w chofrestru, pe bai'n newid ei feddwl am unrhyw benderfyniadau a wnaed yn yr AA. Byddai hyn yn cyflymu'r amser a gymerir i gofrestru AA.
209. Roedd dull dewisol y llywodraeth yn **gyfuniad o'r dulliau uchod**. Byddai byrhau'r cyfnod gwrthwynebu o 4 wythnos ar ôl cyflwyno'r AA at ddiben cofrestru, gan ei ymestyn ochr yn ochr â chreu'r AA, yn darparu cyfnod gwrthwynebiad hirach yn gyffredinol. O ganlyniad, byddai'n cryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer y rhoddwr trwy

ganiatáu i wrthwynebiadau gael eu harchwilio, eu cadarnhau neu eu datrys cyn gynted â phosibl. Byddai neilltuo cyfnod ar ôl i'r AA gael ei chyflwyno er mwyn galluogi'r rhoddwr i newid ei feddwl, yn galluogi'r rhoddwr i gadw rheolaeth ar y broses.

210. Gofynnwyd i ymatebwyr archwilio pob dull a amlinellwyd a nodi rhesymau am eu hatebion:

C8. Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pryd i wrthwynebu sydd orau gennych chi? Rhowch resymau dros eich atebion.

- Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu (dull 5a)
- Byrhau'r cyfnod aros statudol (dull 5b)
- Dileu'r cyfnod aros statudol (dull 5c)

Ymatebion i gwestiynau penodol

C8. Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pryd i wrthwynebu sydd orau gennych chi? Rhowch resymau dros eich atebion: Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu (dull 5a)

211. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddewis pa agweddau ar y dull hwn oedd yn well ganddynt o restr o opsiynau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis opsiynau lluosog a gallent gyflwyno ymateb testun rhydd i ddarparu rhesymau eraill nad oeddent wedi'u rhestru, esbonio eu hatebion neu ddarparu safbwyntiau ychwanegol.

212. Atebodd 261 o ymatebwyr gwestiwn 8-5a. Nodir yr ymatebion yn Ffigur 14. Yr elfen a ffafriwyd fwyaf gan ymatebwyr o ran y gallu i wrthwynebu yn ystod y cyfnod creu oedd 'gellir dod o hyd i wrthwynebiadau a'u datrys yn gynharach' (72% o 261 o ymatebion).

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr Ymatebion	Proses Gyflymach	Mwy o Sicrwydd	Gellir dod o hyd i wrthwynebiadau a'u datrys yn gynharach	Haws codi pryderon	Atal cofrestru AAau annilys	Ddim yn gwybod	Arall
Y cyfan	261	104 (40%)	68 (26%)	189 (72%)	143 (55%)	148 (57%)	18 (7%)	21 (8%)
Y cyhoedd	94	45 (57%)	32 (34%)	67 (71%)	49 (52%)	47 (50%)	10 (11%)	3 (3%)
Gweithwyr proffesiynol	123	33 (27%)	26 (21%)	95 (77%)	77 (63%)	81 (66%)	7 (6%)	6 (5%)
Sefydliad	41	15 (37%)	9 (22%)	24 (59%)	16 (39%)	18 (44%)	1 (2%)	12 (29%)

Ffigur 14. Ymatebion i Gwestiwn 8-5a

213. Roedd hyn yn gyson ar draws pob categori o ymatebwyr, ond y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol unigol oedd yn ffafrio hyn fwyaf. Roedd 57% o'r 261 o ymatebwyr hefyd yn hoffi'r ffaith y byddai'r dull hwn yn atal cofrestru AAau annilys, ac roedd 55% yn hoffi'r ffaith y byddai'r dull hwn yn ei gwneud yn haws codi pryderon, er bod cefnogaeth yn is ymhlith sefydliadau (39% o 41 o ymatebion). Dewisodd 57% o'r cyhoedd (54 allan o 94 o ymatebion) 'proses gyflymach' fel agwedd a ffafrir am wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu, ond nid oedd hyn yn cael ei ffafrio mor gryf ar draws grwpiau eraill o ymatebwyr.
214. Atebodd 37 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn. Dewisodd pob ymateb ymgyrch 'gellir dod o hyd i wrthwynebiadau a'u datrys yn gynharach'. Yn ogystal, dewisodd 33 ymateb ymgyrch 'haws codi pryderon' ac 'atal cofrestru AAau annilys'.

Themâu:

215. Nododd 63 o ymatebwyr resymau ychwanegol. Darparodd rhai ymatebwyr sylwadau ehangach ar y broses wrthwynebu yn gyffredinol, gan ddatgan y dylai unrhyw un allu gwrthwynebu ar unrhyw adeg. (Mae 'Pwy all wrthwynebu' yn cael sylw yn Cynnig 4 y ddogfen hon).
216. O ran dull 5a yn benodol, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod gallu gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu yn ddefnyddiol, oherwydd bod hynny'n rhoi mwy o amser i bobl godi pryderon. Roeddent hefyd o'r farn y byddai hyn yn golygu y gellid codi ac archwilio i wrthwynebiadau yn gynt, a allai leihau oedi wrth gofrestru AAau dilys. Nododd eraill fod y budd ychwanegol o godi gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu yn golygu bod y rhoddwr yn fwy tebygol o feddu ar alluedd ar y pwynt hwn, ac felly'n gallu bod yn rhan o ddatrys unrhyw anghydfod. Roedd eraill yn teimlo y byddai'r dull hwn yn darparu mwy o amddiffyniad a mesurau diogelu ar gyfer y rhoddwr, gan y byddai'n atal cofrestru AAau lle mae digon o dystiolaeth i wneud hynny.
217. Nid oedd set fach o ymatebion yn credu y byddai caniatáu gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r broses, a byddai'n anodd ei weinyddu. Y rheswm am hyn oedd oherwydd eu bod yn credu y byddai'n annhebygol y byddai pobl eraill yn ymwybodol bod AA yn cael ei gwneud ar y pwynt hwn, felly ni fyddai gwrthwynebiadau yn cael eu codi yn ystod y cyfnod creu. Yn yr un modd, nododd eraill nad yw'r mwyafrif o bobl yn rhoi gwybod i unrhyw un am eu AAau, felly mae darpar wrthwynebydd yn annhebygol o wybod bod yr AA yn cael ei chreu. Yn ogystal, roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull hwn yn cynyddu llwyth gwaith SGC, a gallai hynny wastraffu amser os nad yw'r AA yn cael ei hanfon i gael ei chofrestru yn y pen draw.
218. Gwnaeth nifer fach o ymatebwyr awgrym nodedig y dylem gyflwyno proses wrthwynebu 'cyn creu', lle gallai trydydd parti godi pryder gyda SGC cyn i'r rhoddwr

ddechrau creu AA, neu hyd yn oed cyn iddo ystyried creu AA. Byddai hyn yn fflagio AAau sy'n destun pryder i SGC yn gynnwys er mwyn gwella amddiffyniadau.

C8. Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pryd i wrthwynebu sydd orau gennych chi? Rhwng resymau dros eich atebion: Byrhau'r cyfnod aros statudol (dull 5b)

219. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddewis pa agweddau ar y dull hwn oedd yn well ganddynt o restr o opsiynau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis opsiynau lluosog a gallent gyflwyno ymateb testun rhydd i ddarparu rhesymau eraill nad oeddent wedi'u rhestru, esbonio eu hatebion neu ddarparu safbwyntiau ychwanegol.
220. Atebodd 252 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nodir yr ymatebion yn Ffigur 15. Roedd cryfder y gefnogaeth ar gyfer gwahanol agweddau'r dull hwn (byrhau'r cyfnod aros statudol), yn sylweddol is o gymharu â dull 5a. Nid ffafriwyd unrhyw un o'r agweddau gan o leiaf 50% o'r holl ymatebwyr, er bod hyn yn newid wrth edrych ar is-setiau o ymatebwyr.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr Ymatebion	Proses Gyflymach	Cadw'r cyfnod aros fel mesur diogelu	Mwy o amser i benderfynu a ddylid cyflwyno gwrthwynebiad	Atal cofrestru AAau annilys	Ddim yn gwybod	Arall
Y cyfan	252	115 (46%)	114 (45%)	21 (8%)	43 (17%)	24 (10%)	53 (21%)
Y cyhoedd	91	50 (55%)	46 (51%)	12 (13%)	22 (24%)	13 (14%)	2 (2%)
Gweithwyr proffesiynol	120	44 (37%)	48 (40%)	7 (6%)	15 (13%)	10 (8%)	38 (32%)
Sefydliad	38	19 (50%)	17 (45%)	2 (5%)	4 (11%)	1 (3%)	13 (34%)

Ffigur 15. Ymatebion i Gwestiwn 8-5b

221. Yn gyffredinol, 'proses gyflymach' a 'cadw'r cyfnod aros fel mesur diogelu' oedd yr agweddau mwyaf poblogaidd mewn perthynas â dull 5b ar draws pob grŵp o ymatebwyr, gyda dros 40% o'r ymatebwyr yn dewis y dulliau hyn. Fel gyda dull 5a, dewisodd dros 50% o'r cyhoedd (50 o 91 o ymatebion) 'proses gyflymach'. Er bod 24% o'r cyhoedd (22 o 91 o ymatebion) o'r farn y gallai'r dull hwn atal cofrestru AAau annilys, dim ond 13% (15 o 120 o ymatebion) o weithwyr proffesiynol ac 11% (4 o 38 o ymatebion) o sefydliadau oedd yn rhannu'r un safbwynt.
222. Roedd yr ymatebion uchaf gan weithwyr proffesiynol unigol a sefydliadau yn alinio â'r safbwyntiau cyffredinol, sef bod 'proses gyflymach' a 'cadw'r cyfnod aros fel mesur diogelu' yn fwy ffafriol. Roedd yr ymateb ar 'proses gyflymach' yn uwch yn y ddau achos, o gymharu â dull 8a. Fodd bynnag, roedd pob grŵp yn gyffredinol yn ffafrio opsiwn gwahanol i'r llall. Ymhlith gweithwyr proffesiynol, yr ateb uchaf oedd 'cadw'r cyfnod aros fel mesur diogelu', gyda 48 o ymatebion (40% o 120). Fodd bynnag, roedd sefydliadau yn ffafrio 'proses gyflymach', gydag 19 o ymatebion (50% o 38). Yn bwysig, gweithwyr proffesiynol oedd â'r sgôr isaf o'r tri grŵp mewn perthynas â 'proses gyflymach' fel mantais (dim ond 37% o 120 o ymatebion).
223. Yn nodedig, dewisodd dros 30% o weithwyr proffesiynol (38 o 120 o ymatebion) a sefydliadau (13 o 38 o ymatebion) 'arall' a bydd eu hymatebion yn cael eu trafod yn y themâu isod.
224. Ymhlith yr ymatebion ymgyrch, nododd 8 ei fod yn 'cadw'r cyfnod aros fel mesur diogelu', a dewisodd 29 'arall', gan nodi mwy o wybodaeth yn y blwch testun rhydd.

Themâu:

225. Darparodd 104 o ymatebwyr ymatebion ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a nododd farn ychwanegol yn credu y dylai hyd y cyfnod aros statudol aros yr un fath, a bod cyfnod byrrach o ddwy wythnos yn anaddas. Nododd rhai bod effaith y cyfnod aros ar gyfnodau amser cofrestriadau yn fach iawn, gan awgrymu mai amseroedd prosesu SGC oedd yn creu'r oedi mwyaf arwyddocaol yn y broses.
226. Yn ogystal, roedd y mwyafrif yn ystyried y cyfnod aros fel mesur diogelu pwysig, oherwydd mae'n amddiffyn yn erbyn twyll, cam-drin a gorfodaeth, ac mae'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu codi. Nododd nifer fach o ymatebwyr fod y cyfnod aros hwn yn rhoi amser i'r rhoddwr ailystyried ei benderfyniad. Nododd llawer o ymatebwyr fod yn rhaid darparu amser digonol i godi gwrthwynebiadau, ac roedd rhai yn pryderu na fyddai lleihau hyd y cyfnod aros statudol yn darparu digon o amser ar gyfer hyn. Roedd rhai yn arbennig o bryderus ynghylch yr amser sydd ei angen i gasglu tystiolaeth neu gyflwyno pryder drwy sianel bapur.
227. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebion yn cwestiynu effeithiolrwydd y cyfnod aros fel mesur diogelu, gan nad yw bellach yn orfodol rhestru 'unigolion i'w hysbysu' ar AA, ac mae llawer o bobl yn dewis peidio â hysbysu unrhyw un. O ganlyniad,

roedd pryder na fydd y bobl a allai fod ganddynt wrthwynebiadau yn gwybod bod AA wedi cael ei hanfon i SGC at ddiben cofrestru yn ystod y cyfnod hwn.

228. Roedd set lai o ymatebwyr yn ystyried y cyfnod aros 4 wythnos presennol i fod yn ddiangen, yn hir, ac roeddent o'r farn ei fod yn gallu arwain at oedi wrth gofrestru. Roeddent o blaid cyfnod aros byrrach (pythefnos o hyd) er mwyn gwella amseroedd dychwelyd.

C8. Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pryd i wrthwynebu sydd orau gennyh chi? Rhowch resymau dros eich atebion: Dileu'r cyfnod aros statudol (dull 5c)

229. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddewis pa agweddau ar y dull hwn oedd yn well ganddynt o restr o opsiynau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis opsiynau lluosog a gallent gyflwyno ymateb testun rhydd i ddarparu rhesymau eraill nad oeddent wedi'u rhestru, esbonio eu hatebion neu ddarparu safbwyntiau ychwanegol.

230. Atebodd 162 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nodir eu hymatebion yn Ffigur 16. Derbyniodd y dull hwn lai o ymatebion o gymharu â dull 5a a 5b (dros 35% yn llai o ymatebion). Efallai bod hynny'n awgrymu nad oedd cyfran o ymatebwyr yn ffafrio unrhyw agwedd ar ddileu'r cyfnod aros statudol dros agwedd arall.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr Ymatebion	Proses Gyflymach	Proses Symlach	Cofrestriad ar unwaith yn bosibl	Efallai y bydd mwy o dystiolaeth o gam-drin ar gael	Ddim yn gwybod	Arall
Y cyfan	162	83 (51%)	56 (35%)	56 (35%)	38 (23%)	27 (18%)	75 (46%)
Y cyhoedd	79	41 (52%)	32 (41%)	23 (29%)	19 (24%)	15 (19%)	7 (9%)
Gweithwyr proffesiynol	61	27 (44%)	14 (23%)	27 (44%)	17 (28%)	10 (16%)	54 (89%)
Sefydliad	20	14 (70%)	9 (45%)	5 (25%)	2 (10%)	1 (5%)	2 (10%)

Ffigur 16. Ymatebion i gwestiwn 8-5c

231. Dewisodd 51% o ymatebwyr (83 o 162 o ymatebion) 'proses gyflymach' fel agwedd y ffafir mewn perthynas â dull 5c. Roedd y dewis hwn gryfaf ymhlith sefydliadau (70%), mewn gwrthgyferbyniad â dull 5a a 5b, lle ffafriwyd 'proses gyflymach' gan aelodau'r cyhoedd. Ffaffriodd 35% o'r holl ymatebwyr (56 o 162 o ymatebion) 'proses symlach' a 'cofrestriad ar unwaith yn bosibl'. Ffaffriwyd 'proses symlach' fwyaf gan sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd (45% a 41% yn y drefn honno). Ffaffriwyd 'cofrestriad ar unwaith yn bosibl' fwyaf gan weithwyr proffesiynol (44%), o gymharu â

grwpiau eraill. Yn olaf, mewn perthynas ag 'efallai y bydd mwy o dystiolaeth o gam-drin ar gael', roedd y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn fwy tebygol o ddewis hwn, gyda chyfraddau ymateb oddeutu 20%, o gymharu â sefydliadau ar 10% yn unig (2 ymateb allan o 20).

232. Yn nodedig, dewisodd 46% o 162 o ymatebwyr 'arall', gan gynnwys 89% o'r gweithwyr proffesiynol (54 o 61 o ymatebion) a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Ystyrir y rhesymau eraill a nodwyd yn y themâu isod. Dewisodd pob un o'r ymatebion ymgyrch 'arall', gan nodi mwy o wybodaeth yn y blwch testun rhydd.

Themâu:

233. Darparodd 114 o ymatebwyr safbwyntiau ychwanegol. Roedd y mwyafrif yn erbyn cael gwared ar y cyfnod aros statudol ac yn ystyried y cyfnod aros pedair wythnos o hyd yn dderbyniol. Yn debyg i safbwyntiau a ddarparwyd yng nghwestiwn 8-5b, roedd llawer o'r farn bod y cyfnod aros yn rhoi amser i wrthwynebiadau gael eu codi ac felly ni ddylid ei ddileu. Roedd eraill o'r farn y byddai cael gwared ar y cyfnod aros statudol yn lleihau mesurau diogelu yn y broses, a gallai hynny arwain at fwy o dwyll a cham-drin, gyda rhai yn nodi y gallai proses sy'n 'rhy gyflym' fod yn broblem hefyd. Roedd rhai hefyd o'r farn bod y cyfnod aros yn darparu cyfnod ailfeddwl i'r rhoddwr.
234. Darparodd nifer fach o ymatebwyr farn o blaid ymagwedd 5c, oherwydd y byddai'n cyflymu'r broses fel y gellid cofrestru AAau yn gyflymach. Yn debyg i'r safbwyntiau a ddarparwyd ar gyfer cwestiwn 8-5b, roedd rhai o'r farn bod y cyfnod aros ond yn effeithiol lle mae pobl wedi cael gwybod am yr AA, ac felly dylai fod yn berthnasol lle mae rhywun wedi rhestru 'unigolion i'w hysbysu' yn unig.
235. Awgrymodd nifer bach o ymatebion y gallai'r dull hwn fod yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen AA ar unwaith ac felly dylid ei ystyried fel rhan o wasanaeth llwybr carlam.

Edrych ar draws y dulliau:

236. Un o'r rhesymau y gofynnem y cwestiwn penodol hwn oedd i helpu i sefydlu beth fyddai defnyddwyr, cyhoeddus a phroffesiynol, yn dymuno ei gael o broses wrthwynebu. O ganlyniad, mae'n ddefnyddiol edrych ar yr agweddau a ffafriwyd ganddynt ar draws y dulliau, yn ogystal ag o fewn y dulliau unigol. Gwnaed hyn trwy gymryd y cyfrifiadau unigol ar gyfer pob cwestiwn, gan ddileu atebion dyblyg (er enghraifft, cael gwared ar yr ail a'r trydydd ateb lle'r oedd rhywun wedi dewis 'proses gyflymach' ar gyfer y tri chwestiwn) cyn cyfrifo cyfanswm yr atebion sy'n weddill.
237. Ar ôl edrych ar y dulliau yn y modd hwn, gellir rhestru'r pum agwedd a ffafrir fel a ganlyn:
1. Gellir dod o hyd i wrthwynebiadau a'u datrys yn gynharach (189 o ymatebion)
 2. Proses gyflymach (156 o ymatebion)

3. Atal cofrestru AAau annilys (153 o ymatebion)
 4. Haws codi pryderon (143 o ymatebion)
 5. Cadw cyfnod aros fel mesur diogelu (114 o ymatebion)
238. Derbyniwyd 289 o ymatebion ar draws y tri chwestiwn (ar ôl dileu dyblygiadau) a dyma oedd y pum agwedd a gafodd eu dewis amlaf, o bell ffordd (yr ateb uchaf nesaf oedd “mwy o sicrwydd” a gafodd ei ddewis 68 o weithiau yn unig).
239. O ran y themâu cyffredinol, mae'n werth nodi y gwnaeth nifer bychan o ymatebion ar draws y cwestiynau hyn, a chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, godi'r posibilrwydd o ailgyflwyno'r gofyniad i hysbysu unigolion penodol o gofrestriad yr AA. Mae hyn yn cael sylw isod.

Ymateb y Llywodraeth

Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu

240. Yr elfennau a ffafriwyd fwyaf gan ymatebwyr mewn perthynas â'r dull hwn oedd y gellid dod o hyd i wrthwynebiadau a'u datrys yn gynharach, byddai'n atal cofrestru AAau annilys a byddai pryderon yn haws eu codi. Dilyswyd hyn ymhellach gan y safbwyntiau ychwanegol a ddarparwyd, lle nododd llawer y byddai'r gallu i wrthwynebu yn ystod y cyfnod creu yn ddefnyddiol gan y byddai'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu codi a'u harchwilio yn gynt. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae caniatáu gwrthwynebiadau rhagarweiniol o'r pwynt mae'r rhoddwr yn dechrau creu'r AA tan ei bod yn cael ei hanfon i gael ei chofrestru yn golygu y gallai AA dilys fod ar gael yn gynt oherwydd y bydd archwiliadau yn dechrau yn gynt. Byddai hyn, wrth gwrs, yn amodol ar bob proses gofrestru a gwiriadau eraill yn cael eu cynnal yn llwyddiannus.
241. Mae'r llywodraeth yn cytuno y gallai caniatáu gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu fod yn ddefnyddiol o ran datrys gwrthwynebiadau yn gynt, a gallai ddarparu mesurau diogelwch ychwanegol i'r rhoddwr. Fodd bynnag, mae symud y dull hwn ymlaen yn ddibynnol arnom ni'n datblygu system lle gall SGC un ai gael mynediad dibynadwy at wybodaeth sydd yn rhan o'r AA yn ystod y cyfnod creu (ond cyn cyflwyno'r AA at ddiben cofrestru) neu baru gwybodaeth am wrthwynebiad gyda manylion AA pan fydd yn cael ei chyflwyno at ddiben cofrestru.
242. Cyn belled â bod system o'r fath yn bosibl, yn ein barn ni, byddai caniatáu gwrthwynebiadau yn ystod cyfnod creu AA yn gwella mesurau diogelwch ac yn sicrhau bod gwrthwynebiadau yn cael eu datrys yn gynt.

O ganlyniad, bydd y llywodraeth yn archwilio dull fydd yn galluogi pobl i godi gwrthwynebiadau yn ystod y broses o greu AA.

Gwrthwynebiadau 'cyn creu'

243. Awgrymodd rhai ymatebwyr ein bod yn cyflwyno proses gwrthwynebu cyn creu, a allai weithredu yn yr un modd â'r system cafeat yn y broses profiant. Mewn system o'r fath, gallai pobl godi pryder gyda SGC cyn i'r rhoddwr ddechrau creu AA, trwy ddarparu manylion fel enw a chyfeiriad y rhoddwr. Os, yn y dyfodol, cyflwynir AA gyda'r manylion hynny i SGC, gallai'r system fflagio'r AA hon yn awtomatig at ddiben brysennu ac archwiliad posibl. Gallai system fel hon wella mesurau diogelu trwy alluogi SGC i nodi ac archwilio i AAau sydd mewn perygl o dwyll neu gam-drin yn gynt.
244. Er bod teilyngdod i system fel hon, mae yna hefyd ddibyniaethau a heriau. Yn gyntaf, byddai proses gwrthwynebiadau cyn creu yn dibynnu ar system a allai baru manylion a gyflwynwyd i SGC gyda'r manylion a gyflwynwyd ar yr AA yn gywir. Byddai angen i hyn weithio ar y sianel ddigidol a'r sianel bapur.
245. Yn ail, byddai'n rhaid i ni ystyried sut y byddai SGC yn rheoli'r broses hon er mwyn osgoi cael ei gorlwytho â gwrthwynebiadau a fyddai efallai yn ymwneud ag AAau na fydd byth yn cael eu cychwyn, neu a allai oedi cofrestrriad o AAau cwbl ddilys yn anfwriadol. Un ffordd o liniaru yn erbyn hyn yw cyfyngu ar y grŵp o bobl sy'n gallu cyflwyno gwrthwynebiadau cyn creu i'r rheini sydd fwyaf tebygol o gael pryderon dilys am roddwr ac sydd fwyaf hawdd i gael eu bwydo i mewn i gronfa ddata SGC. Gallai hyn gynnwys asiantaethau sydd â dyletswyddau diogelu statudol, e.e. awdurdodau lleol a'r heddlu, sydd fwyaf tebygol o gael gwybodaeth neu bryderon am unigolion sy'n agored i gam-drin neu gam-fanteisio. Mae'r materion hyn yn haeddu ystyriaeth bellach o ystyried y manteision diogelu.

O ganlyniad, bydd y Llywodraeth yn ystyried cyflwyno system sy'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu cofrestru gan drydydd parti cyn i'r broses AA ddechrau. Bydd y Llywodraeth yn profi dichonoldeb system o'r fath ac yn ystyried pa drydydd partiön y dylid eu caniatáu i wrthwynebu yn yr amgylchiadau hyn.

Cyfnod aros statudol

246. Roedd dulliau 5b a 5C yn ymwneud â'r cyfnod aros statudol o bedair wythnos, sy'n rhan o'r broses gofrestru. O dan y broses bresennol, rhaid i unrhyw bryderon am yr AA gael eu codi gyda SGC yn ystod y cyfnod hwn er mwyn iddynt archwilio ac atal y cofrestrriad os oes angen. Mae'r cyfnod o bedair wythnos yn cynnwys amser ar gyfer postio dogfennau a hysbysu'r partiön perthnasol.

247. Profodd yr ymgynghoriad pa agweddau ar gwtogi hyd y cyfnod aros (5b) a dileu'r cyfnod aros yn gyfan gwbl (5c) a ffafriwyd gan ymatebwyr.
248. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn o gynnal cyfnod aros statudol. Er bod yr ymatebwyr yn ffafrio proses a oedd yn gyflymach a gallai arwain at gofrestru AAau ar unwaith, pwysleisiodd llawer o'r ymatebion fod y cyfnod aros statudol yn amddiffyniad pwysig i'r rhoddwr, gan ei fod yn darparu amser i wrthwynebiadau gael eu codi. O ganlyniad, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol darparu amser priodol i godi gwrthwynebiadau, gan ganiatáu ar gyfer pryderon a gyflwynwyd trwy sianelau digidol a phapur. Cytunodd rhai ymatebwyr hefyd gyda'r syniad bod cyfnod ailfeddwl ar gyfer y rhoddwr yn agwedd werthfawr o'r cyfnod aros cyfredol.
249. Yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth yn gweld y budd o gyfnod aros statudol, fel cyfnod ailfeddwl i'r rhoddwr a hefyd fel mesur diogelu. Nid yw SGC yn rhyngweithio'n uniongyrchol â rhoddwyr yn aml, ac felly mae'n gyfiawn bod unigolion sydd â phryderon yn gallu eu cyflwyno nhw i SGC. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gydbwysu'r manteision sy'n dod o broses gyflymach a symlach yn erbyn y manteision diogelu y mae cyfnod aros yn eu darparu.

Am y rhesymau hyn, bydd y Llywodraeth yn ymrwymo i gadw cyfnod aros statudol fel rhan o'r broses wrthwynebiadau ar gyfer cofrestru AA ac fel cyfnod ailfeddwl i'r rhoddwr.

250. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai pobl yn gweld budd i gyfnod aros statudol o bythefnos fel rhan o broses gofrestru gyflymach. Gan gydnabod y pryderon a godwyd gan rai y gallai hynny fod yn rhy fyr, mae hefyd yn werth ystyried sut y byddai hyn yn rhyngweithio â'r newidiadau eraill sy'n cael eu hystyried.
251. Petai'r hawl i wrthwynebu yn ystod y cyfnod creu yn cael ei weithredu, bydd unigolion yn gallu codi gwrthwynebiadau yn gynharach yn ystod y broses creu AA. Byddai hynny'n darparu cyfnod ar gyfer gwrthwynebu sydd o leiaf bythefnos o hyd, ond a allai fod mor hir ag y mae'n cymryd i greu'r AA (fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae'r cyfnod hwn yn 6 mis o hyd ar gyfartaledd). Gallai hyn ddarparu cyfnod gwrthwynebu effeithiol, sydd gymaint â chwe mis o hyd, a fyddai'n darparu digon o amser ar gyfer codi pryderon yn electronig ac ar bapur. Os yw'n ddichonadwy, byddai'r gallu i fflagio pryder cyn cychwyn AA yn ychwanegu mesur diogelu pellach at y dull hwn.
252. Yn ogystal, mae angen i ni ystyried y rhoddwyr hynny sy'n agored i niwed neu nad oes ganddynt rwydweithiau cymdeithasol i godi pryderon ar eu rhan. Yn yr achosion

hyn, yn unol â'r hyn a amlinellir yn adran 4, gallai'r gallu i gyrff sydd â dyletswyddau diogelu statudol godi gwrthwynebiadau, gryfhau mesurau diogelu.

253. Os bydd system yn y dyfodol yn caniatáu gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu AA, ac yn annog mwy o unigolion i drafod eu AAau gyda theulu a ffrindiau, efallai na fydd cyfnod pedair wythnos yn angenrheidiol ar ôl cyflwyno'r AA i SGC.

O ganlyniad, bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio i'r hyn y dylai hyd priodol y cyfnod aros statudol fod mewn gwasanaeth yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau eraill i'r broses wrthwynebiadau ar draws sianelau digidol a phapur. Ni fyddwn yn dileu'r cyfnod aros statudol.

254. Rhaid i ni hefyd gynnwys ychydig o realaeth ar y pwynt hwn. Mewn byd delfrydol, byddai SGC yn gallu atal unrhyw AAau twyllodrus, camdriniol neu orfodol rhag cael eu cofrestru. Fodd bynnag, yn unol â'r hyn y mae ymatebwyr wedi ei nodi yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ein sesiynau ymgysylltu, yn aml nid yw tystiolaeth o'r ymddygiad hwn ar gael tan ar ôl i'r AA gael ei chofrestru. O ganlyniad, mae'n bwysig cydnabod y bydd rhai AAau annilys yn llithro trwy'r rhwyd, waeth pa mor dda yw'r broses wrthwynebu.
255. Yn yr achosion hyn, mae gallu SGC i archwilio ar ôl y cofrestrriad yn hanfodol. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth pwysig hwn, a nod llawer o'r effeithlonrwydd a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ac yn yr ymateb hwn, yw rhyddhau adnoddau fel y gall SGC ail-fuddsoddi'r rhain yn ei wasanaethau gwerthychwanegol, sy'n cynnwys archwiliadau.

Unigolion mandadol i'w hysbysu

256. Nododd set fach o ymatebwyr ei bod yn annhebygol y byddai gwrthwynebydd posibl yn ymwybodol o AA yn gynnar yn ystod y broses. Roedd y ddogfen ymgynghori eisoes wedi nodi, er mwyn i'r dull hwn fod yn werth chweil, byddai angen proses symlach i sicrhau bod partïon â diddordeb yn ymwybodol bod AA wedi dechrau. Yn ogystal, galwodd nifer fach o ymatebion am ailgyflwyno unigolion mandadol i'w hysbysu.
257. Nodwyd y gofyniad i hysbysu aelodau penodol o'r teulu yn y rheoliadau, cyn 2015. Os nad oedd gan roddwr deulu i hysbysu, roedd yn rhaid iddo ddarparu ail ddarparwr tystysgrif. Gwardwyd hyn oherwydd yr anawsterau a achoswyd i rai unigolion. Bwriedir i AAau fod yn amddiffyniad sydd ar gael i bob oedolyn sydd â'r galluedd meddyliol i'w gwneud. Roedd y gofyniad hwn yn atal rhai pobl rhag creu AA oherwydd nad oedd ganddynt yr aelodau teulu gofynnol, nid oedd ganddynt gylch cymdeithasol digon mawr i ddarparu ail ddarparwr tystysgrif, ac ni allent fforddio talu am weithiwr proffesiynol i weithredu yn y rôl hon. O ystyried bod ynysigrwydd

cymdeithasol pobl oedrannus wedi cynyddu ers y newid hwn, mae'n annhebygol bod y broblem wedi gostwng.

O ganlyniad, ni fydd y llywodraeth yn ailgyflwyno gofyniad i ddarparu unigolion i'w hysbysu ar AA.

258. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i annog rhoddwyr i wneud gwell defnydd o'r nodwedd unigolion i'w hysbysu ac, yn fwy cyffredinol, amlygu pwysigrwydd trafod eu penderfyniad i wneud AA, pwy i benodi a'r pwerau i'w rhoi, gyda'u teulu a'u ffrindiau agos. Trwy annog pobl i ddefnyddio'r nodwedd unigolion i'w hysbysu, gallwn ehangu'r cylch unigolion a allai fod â phryder dilys am AA yn ystod y cyfnod creu, ac a allai gyflwyno gwrthwynebiad. Nid yw hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol ac felly byddwn yn rhoi sylw i hyn unwaith eto ar y pwynt cywir yn ystod y broses ddatblygu, ac yn parhau i ofyn am fewnbwn ein defnyddwyr a rhanddeiliaid - cyhoeddus a phroffesiynol – er mwyn datblygu hyn.

Casgliad

259. I gloi, rydym wedi ystyried y gwahanol fanteision yr hoffai ymatebwyr eu gweld o'r cyfnod gwrthwynebu. Rydym yn awyddus i weld gwelliannau yn y defnydd o'r broses hon heb ailgyflwyno elfennau y gwyddom eu bod wedi atal mynediad at AAau yn y gorffennol. Ar y sail hon:

- **Bydd y Llywodraeth yn archwilio i ddull a fydd yn galluogi pobl i godi gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod creu AA.**
- **Bydd y Llywodraeth yn ystyried cyflwyno system sy'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu cofrestru gan drydydd parti cyn i'r broses AA ddechrau. Bydd y Llywodraeth yn profi dichonoldeb system o'r fath ac yn ystyried pa drydydd partion y dylid eu caniatáu i wrthwynebu.**
- **Bydd y Llywodraeth yn ymrwmo i gadw cyfnod aros statudol fel rhan o'r broses wrthwynebiadau ar gyfer cofrestru AA.**
- **Bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio i'r hyn y dylai hyd priodol y cyfnod aros statudol fod mewn gwasanaeth yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau eraill i'r broses wrthwynebiadau ar draws sianelau digidol a phapur.**
- **Ni fydd y Llywodraeth yn ailgyflwyno gofyniad i ddarparu unigolion i'w hysbysu ar AA.**

Crynodeb o gynnis 6 – cyflymder y gwasanaeth

Cefndir

260. O dan y cynnis hwn, gwnaethom edrych a oedd grŵp o bobl y byddai angen gwasanaeth hyd yn oed yn gyflymach arnynt i ddiwallu angen dybryd am AA. Pe bai grŵp o'r fath yn bodoli, byddem yn ystyried sut i gydbwyso hyn yn erbyn y mesurau diogelu sydd eu hangen a rhwyddineb mynediad i'r un defnyddwyr. Ar hyn o bryd, mae SGC yn cynnis gwasanaeth unigol i bob rhoddwr ac nid yw'n blaenoriaethu prosesu AAau yn seiliedig ar amgylchiadau rhoddwyr unigol. O ganlyniad, rydym yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod rhoddwyr ac atwrneiod yn gallu cael mynediad i AA ar yr adeg y mae angen un arnynt, heb oedi sylweddol wrth gynnal mesurau diogelu.
261. **Dull 6 – gwasanaeth brys penodedig.** Er mwyn darparu gwasanaeth AA brys, byddai angen gwaredu oedi bwriadol sy'n rhan o'r broses gofrestru, fel y cyfnod aros statudol, ar gyfer AAau brys. Yn ogystal, byddai angen i SGC flaenoriaethu prosesu AAau lle na ellid gwneud gwiriadau awtomataidd, a rhaid eu perfformio â llaw. O gymharu â'r gwasanaeth arferol, byddai hyn yn caniatáu i atwrneiod enwebedig y rhoddwr gofrestru'r AA yn gyflymach, gan ganiatáu i atwrneiod enwebedig y rhoddwr wneud unrhyw benderfyniadau critigol sydd eu hangen i gefnogi, gofalu am, a diogelu'r rhoddwr.
262. Er mwyn blaenoriaethu angen a diogelu yn erbyn cam-drin, byddai'n rhaid cael gofynion cymhwysra ar gyfer y gwasanaeth brys. Byddai angen arweiniad clir ar y meini prawf hynny i helpu pobl i asesu a ydynt yn gymwys i gael gwasanaeth o'r fath. Byddai hyn yn debygol o fod ar ffurf tystiolaeth feddygol, gwybodaeth am natur y penderfyniad brys sydd ei angen, a pham fod hynny er budd y rhoddwr.
263. Dull dewisol y Llywodraeth oedd **peidio â bwrw ymlaen â gwasanaeth brys**. Mae hyn oherwydd bod y mesurau diogelu gofynnol yn debygol o fod mor feichus na fyddai pobl sydd angen y gwasanaeth brys yn gallu cael mynediad ato, neu y byddai'n cymryd mwy o amser na'r gwasanaeth safonol. Ar ben hynny, byddai cael haen ychwanegol o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer proses frys SGC yn cymryd mwy o amser ac yn costio mwy na'r gwasanaeth safonol, oherwydd y byddai'n rhaid ei brosesu â llaw. O ganlyniad, roeddem yn credu mai'r ffordd orau o symud ymlaen oedd darparu cyflymder gwasanaeth optimaidd i bob rhoddwr.

264. Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu tystiolaeth ar fanteision ac effeithiau gwasanaeth brys a rhoi rhesymau dros eu hatebion:

C9. Os gallwn gwtogi'r amser i gofrestru AA i bythefnos i'r rhan fwyaf o roddwyr (heb wrthwynebiadau), a fyddai gwasanaeth brys yn darparu budd ychwanegol i chi neu'r bobl rydych chi'n eu cefnogi? Rhowch resymau dros eich ateb.

C10. Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol y gofynnir iddo ddarparu tystiolaeth o gymhwystra ar gyfer gwasanaeth brys, beth fyddai effaith hynny arnoch chi? Rhowch dystiolaeth, gan gynnwys yr effeithiau o ran amser (diwrnodau / oriau) neu mewn termau ariannol lle bo hynny'n berthnasol.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Q9. Os gallwn gwtogi'r amser i gofrestru AA i bythefnos i'r rhan fwyaf o roddwyr (heb wrthwynebiadau), a fyddai gwasanaeth brys yn darparu budd ychwanegol i chi neu'r bobl rydych chi'n eu cefnogi? Rhowch resymau dros eich ateb.

265. Roedd hi'n bosib darparu'r atebion canlynol i'r cwestiwn hwn: 'Byddai (Ie), mae angen cofrestru AA arnaf o fewn pythefnos', 'Na fyddai (Na), does dim budd darparu gwasanaeth pythefnos o hyd i bawb', a 'Ddim yn gwybod'.

266. Atebodd 283 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac mae Ffigur 17 yn nodi'r ymatebion. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (52% o 283 o ymatebion) na, nid oeddent o'r farn y byddai gwasanaeth brys yn darparu manteision ychwanegol. Yn gyffredinol, roedd hyn yn gyson ar draws pob categori o ymatebwyr. Ar y llaw arall, dywedodd 38% (108 o 283 o ymatebion) ie, byddai angen cofrestru AA arnynt o fewn pythefnos. Roedd hyn yn gyson iawn ar draws pob categori o ymatebwyr. Atebodd 10% o'r holl ymatebwyr, 'Ddim yn gwybod' (27 o 283 o ymatebion), a sefydliadau oedd y lleiaf tebygol o ddarparu'r ymateb hwn (4% o 47 o ymatebion). Darparodd pob un o'r 37 ymateb ymgyrch ateb i'r cwestiwn hwn, gyda 36 yn dweud na, ac 1 yn dweud ddim yn gwybod.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Ie	Na	Ddim yn gwybod
Y cyfan	283	108 (38%)	148 (52%)	27 (10%)
Y cyhoedd	105	40 (38%)	52 (50%)	13 (12%)
Gweithwyr proffesiynol	128	46 (36%)	69 (54%)	13 (10%)

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Ie	Na	Ddim yn gwybod
Sefydliadau	47	19 (40%)	26 (55%)	2 (4%)

Ffigur 17. Ymatebion i Gwestiwn 9.

Themâu:

267. Darparodd 169 o ymatebwyr safbwyntiau ychwanegol. Teimlai llawer o ymatebwyr fod mwy o fudd i wneud y gwasanaeth yn gyflymach i bawb, ac roeddent o'r farn y dylai'r ffocws fod ar ddarparu gwasanaeth cyflymach a chyson i bawb. Roedd rhai yn pryderu y byddai creu llwybr carlam yn creu oedi a allai effeithio ar, ac arafu, prosesu cofrestriadau AAau safonol. Roedd eraill o'r farn y byddai hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol ar SGC, gan y byddent yn treulio mwy o amser yn penderfynu a yw rhywbeth yn gymwys ar gyfer y llwybr carlam ai peidio, yn hytrach na phrosesu'r AAau.
268. Yn ogystal, dadleuodd rhai mai anaml iawn y byddai angen gwirioneddol am AA ar frys, felly nid oes angen gwasanaeth o'r fath. Lle mae angen brys yn codi, awgrymodd cwpl o ymatebwyr fod y Llys Gwarchod yn ddewis amgen ac addas. Awgrymodd set fach o ymatebwyr y gallai gwasanaeth brys annog cofrestriadau munud olaf, pan ddylem fod yn annog pobl i wneud AAau yn gynharach.
269. Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu am ddarpariaethau diogelu o fewn gwasanaeth brys, ac yn credu y byddai angen cyflwyno mesurau diogelu ychwanegol. Roedd rhai o'r farn bod gwasanaeth cyflymach yn fwy agored i gam-drin a bod pobl yn fwy tebygol o ffugio galluedd. Roedd pryderon hefyd am yr amser cyfyngedig sydd ar gael i godi gwrthwynebiadau cyn i AA gael ei chofrestru o fewn gwasanaeth brys.
270. Amlygodd y prif ddadleuon o blaid gwasanaeth brys fod yr angen dybryd am AA yn aml yn cael ei sbarduno gan argyfyngau meddygol annisgwyl, ac felly gallai gwasanaeth brys fod yn ddefnyddiol lle gall cyflwr rhoddwr ddirywio'n gyflym oherwydd salwch. Yn ogystal, dadleuodd llawer o ymatebwyr eraill fod y system bresennol yn rhy araf, ac felly bod angen dewis amgen cyflymach. Awgrymodd rhai y gallai hyn fod yn berthnasol i set benodol a diffiniedig o achosion eithriadol yn unig, ac yn amodol ar ddarparu tystiolaeth briodol.

C10. Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol y gofynnir iddo ddarparu tystiolaeth o gymhwystra ar gyfer gwasanaeth brys, beth fyddai effaith hynny arnoch chi? Rhowch dystiolaeth, gan gynnwys yr effeithiau o ran amser (diwrnodau / oriau) neu mewn termau ariannol lle bo hynny'n berthnasol.

271. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddewis pa effeithiau y gallai'r cynnig hwn arwain atynt o set o opsiynau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis opsiynau lluosog a gallent gyflwyno ymateb testun rhydd er mwyn nodi effeithiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru, esbonio eu hateb neu ddarparu safbwyntiau ychwanegol. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt ddarparu tystiolaeth benodol ar yr effaith a ddewiswyd ganddynt i gynorthwyo datblygiad diwygiadau.

272. O ystyried mai nod y cwestiwn hwn oedd cael tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol a allai gael eu hunain yn yr amgylchiadau hyn, dim ond ymatebion gan y rheini sydd â diddordeb proffesiynol a gafodd eu cyfrif yn y dadansoddiad data. Roedd hynny'n cynnwys unigolion sy'n ystyried eu hunain yn aelodau o'r cyhoedd, ond a nododd hefyd fod ganddynt ddiddordeb proffesiynol. Nid yw'r ymatebion gan 16 aelod o'r cyhoedd heb ddiddordeb proffesiynol, a 2 ymateb dienw, wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

273. Atebodd 166 o ymatebwyr â diddordeb proffesiynol y cwestiwn hwn, ac mae Ffigur 18 yn nodi eu hymatebion. Roedd dros 40% o 166 o ymatebwyr o'r farn y byddai gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o gymhwystra er mwyn defnyddio gwasanaeth brys yn galw am adnoddau ychwanegol a byddai hynny'n cynyddu costau (73 a 47 o ymatebion, yn y drefn honno). Unwaith eto, roedd ymatebion ymgyrch yn cwmpasu nifer o opsiynau: nododd 33 gynnydd mewn adnoddau, 24 gynnydd mewn costau, 7 amser i ddarparu tystiolaeth, tra dewisodd 22 "arall", gan roi sylwadau manylach. Yn ogystal, atebodd 1 'ddim yn gwybod', er iddo ddewis atebion eraill hefyd.

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm yr ymatebion	Dim effaith	Cynnydd mewn adnoddau	Cynnydd mewn costau	Amser i ddarparu tystiolaeth	Ddim yn gwybod	Arall
Y cyfan, gyda diddordeb proffesiynol	166	19 (11%)	74 (45%)	73 (44%)	47 (28%)	35 (21%)	33 (20%)
Y cyhoedd, gyda diddordeb proffesiynol	10	3 (30%)	0	2 (20%)	0	4 (40%)	1 (10%)
Gweithwyr Proffesiynol	119	11 (9%)	59 (50%)	56 (47%)	36 (30%)	23 (19%)	26 (22%)
Sefydliadau	37	5 (14%)	15 (41%)	15 (41%)	11 (30%)	8 (22%)	6 (16%)

Ffigur 18. Ymatebion i gwestiwn 10.

274. Roedd aelodau'r cyhoedd yn fwy tebygol o ddewis 'dim effaith' (4 ymateb o 10, 40%) neu 'ddim yn gwybod' (3 ymateb o 10, 30%). Roedd 30% o weithwyr proffesiynol (36 o 119 o ymatebion) a sefydliadau (11 o 37 o ymatebion) o'r farn y byddai hyd y cyfnod amser i ddarparu tystiolaeth o gymhwysra yn cael effaith.
275. Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr ddarparu manylion penodol am effaith, e.e. gwerth ariannol neu oriau. Dim ond llond llaw o ymatebwyr a ddarparodd dystiolaeth ychwanegol ar gyfer eu hatebion, ac ni ddarparodd y mwyafrif wybodaeth bellach i ni ei hystyried. Nododd llawer o ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth wedi'i ddarparu i roi manylion penodol ar raddfa'r effaith trwy werthoedd ariannol neu werthoedd sy'n gysylltiedig ag amser. Er gwaethaf hynny, roedd nifer o feysydd pryder allweddol yn amlwg o'r atebion pellach a ddarparwyd, a gwmpesir isod.

Themâu:

276. Darparodd 93 o ymatebwyr â diddordeb proffesiynol wybodaeth ychwanegol. Yn unol â'r ymatebion meintiol, roedd llawer yn pryderu am gostau uwch sy'n gysylltiedig â gwasanaeth brys. Soniodd rhai yn benodol am y gost ychwanegol o gyrchu tystiolaeth o angen dybryd, er enghraifft adroddiadau meddygol preifat. Roedd y mwyafrif o'r farn y byddai'r costau ychwanegol hyn yn cael eu trosglwyddo i'r rhoddwr, a byddent yn cynyddu'r ffioedd y mae eu cleientiaid yn eu hwynebu yn ystod y broses AA.
277. Gwnaeth rhai sylwadau pellach ar y broses o gasglu tystiolaeth o angen dybryd trwy awgrymu y gallai hynny gymryd mwy o amser na'r amser y byddai'n ei gymryd i brosesu cofrestrriad AA safonol.
278. Roedd pryderon bod dibynnu ar drydydd partiön i ddarparu tystiolaeth, er enghraifft gweithwyr meddygol proffesiynol, yn gallu achosi oedi, gan wneud y gwasanaeth brys yn anymarferol. Yn ogystal â'r amser a dreulir yn aros i dderbyn tystiolaeth, nododd rhai gweithwyr proffesiynol y byddai'n rhaid iddynt dreulio amser yn mynd ar drywydd unigolion am y wybodaeth hon, ac felly byddai hynny'n ychwanegu at eu llwyth gwaith. Yn gyffredinol, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod gwasanaeth brys cyflymach yn anghyflawnadwy ac yn pryderu y byddai gan gleientiaid ddisgwyliadau afrealistig o amserlenni.
279. Roedd eraill yn pryderu y byddai gwasanaeth brys yn arwain at fwy o lwyth gwaith i weithwyr proffesiynol. Gwnaethant sylwadau ar y gwaith gweinyddol cynyddol, a'r amser y byddai angen ar staff i asesu a llunio safbwyntiau ynghylch a oedd cais i gofrestru AA yn bodloni'r meini prawf ar gyfer proses frys. Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer fach hefyd yn pryderu y gallai hyn roi gweithwyr proffesiynol mewn sefyllfa anodd gan y byddai'n rhaid iddynt wneud dyfarniadau goddrychol ynghylch a yw achos yn un brys ac a ddylid ei gyflwyno trwy'r llwybr brys.

280. Roedd yr ymgynghoriad wedi gofyn i ymatebwyr ddarparu manylion penodol ar effaith, e.e. gwerth ariannol neu oriau. Gwnaeth rhai ymatebwyr ymhelaethu, ac ystyrir hyn yn yr asesiad effaith. Fodd bynnag, ni ddarparodd y mwyafrif wybodaeth bellach i ni ei hystyried. Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth wedi'i ddarparu i roi manylion penodol ar raddfa'r effaith trwy werthoedd ariannol neu werthoedd sy'n gysylltiedig ag amser.

Ymateb y Llywodraeth

281. Rydym wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a gyflwynwyd gan ymatebwyr. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, er mai bwriad y moderneiddio yw lleihau'n sylweddol yr amser y mae'n ei gymryd i greu a chofrestru AA i bawb, roeddem hefyd eisiau ystyried a oedd grŵp o bobl sydd angen gwasanaeth hyd yn oed yn gyflymach i ddiwallu anghenion brys. Credwn fod proses gyflymach i bawb yn fwriad realistig, ac mae ein tystiolaeth a'n gwaith datblygu hyd yn hyn yn dangos y gallai fod yn bosibl lleihau'r amser cofrestru ar gyfer AA i lawr i gyn lleied â phythefnos i'r rhan fwyaf o AAau ac i'r rhan fwyaf o roddwyr (o fewn gwasanaeth rhagosodedig lle bu'n rhaid i AA fodloni amodau penodedig, er enghraifft pasio gwiriadau hunaniaeth).

282. Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi gwasanaeth brys ar wahân, a mynegwyd pryder y gallai hynny arafu'r llwybr safonol. Yn lle hynny, awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai gwasanaeth unigol sy'n darparu allbwn cyson a chyflymach i bawb yn well.

283. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai darparu llwybr carlam i gofrestru AAau yn cael effaith andwyol ar y llwybr safonol, gan achosi oedi. Mae angen i ni ystyried yr effaith posibl y byddai llwybr carlam yn ei gael ar y llwybr safonol. Fel yr amlinellwyd yn ein hymgyngoriad, awgrymodd tystiolaeth bod gan oddeutu 25% o roddwyr angen brys i gofrestru eu AAau ar unwaith.² Mae'r ymatebion i gwestiwn 9 yn awgrymu y gallai'r ffigur hwn fod yn uwch ac efallai y bydd angen i hyd at 38% o unigolion gofrestru eu AAau ar unwaith.

284. Nid yw hwn yn nifer ansylweddol o AAau, a gellid dadlau ei fod yn tanseilio pwrpas gwasanaeth brys a ddylid ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol yn unig. Fel y gwnaethom amlinellu yn yr ymgynghoriad, byddai'n rhaid i unrhyw wasanaeth brys gynnwys darparu tystiolaeth o gymhwystra ar gyfer y gwasanaeth fel mesur diogelu yn erbyn cam-drin. Cefnogwyd yr angen am y mesurau diogelu ychwanegol hyn gan nifer yr ymatebion a gododd bryderon y byddai gwasanaeth cyflymach yn golygu bod

² Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Unpublished.

angen cael gwared ar fesurau diogelu a ddefnyddir yn y gwasanaeth safonol ac, o ganlyniad, byddai hynny'n ei wneud yn agored i gam-drin posibl.

285. Byddai'r dystiolaeth hon yn unigryw i amgylchiadau pob rhoddwr ac felly'n gofyn am wiriad â llaw gan staff SGC i benderfynu a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra. Er y gellir gwneud gwiriadau â llaw yn gyflym ar gyfer nifer fach o achosion brys, ni fyddai'r niferoedd rhagweledig yn ddigon isel i'r gwiriadau hyn gael eu cynnal yn gyflymach na'r llwybr safonol, heb alw am nifer sylweddol o adnoddau SGC ychwanegol. Yn ei dro, gallai hyn arwain at gynnydd yn y ffi, yr ydym yn ceisio'i osgoi.
286. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn pryderu am yr effaith y byddai casglu a darparu'r dystiolaeth hon yn ei chael ar y gwasanaeth y gallent ei ddarparu i'w cleientiaid. Nododd yr ymatebion bod cyrchu tystiolaeth feddygol yn gallu bod yn gostus a chymryd llawer o amser. Roedd rhai o'r farn y byddai'n cymryd mwy o amser i gyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen nag i fynd drwy'r broses gofrestru safonol - yn enwedig os yw hyn yn cael ei ostwng i bythefnos yn y dyfodol. Awgrymwyd hefyd y byddai costau ychwanegol y gweithwyr proffesiynol yn cael eu trosglwyddo i'r rhoddwr.
287. Yn ogystal, yn unol â'r hyn a awgrymwyd gan rai ymatebwyr, dylai unigolion gael eu hannog i gynllunio ymlaen llaw a gwneud AA ymhell cyn bod angen ei defnyddio, lle bynnag y bo'n bosibl. Mae perygl y gallai bodolaeth gwasanaeth brys wneud rhai pobl yn ddiotal o ran creu a chofrestru AA nes eu bod yn wynebu argyfwng.
288. O ganlyniad, mae'n ymddangos y byddai'n fwy gwerthfawr i ganolbwyntio adnoddau ar sicrhau bod y gwasanaeth safonol yn gyflymach i bawb sydd ei angen.
289. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nid ydym yn credu bod digon o fudd i gael gwasanaeth brys ar wahân. O ystyried y cymhlethdodau wrth gasglu tystiolaeth a'r effaith andwyol y gallai'r galw am wasanaeth brys ei chael ar y llwybr cofrestru safonol, rydym yn parhau i feddwl ei bod yn well cyflymu'r broses gofrestru AAau i bawb.

O ganlyniad, ni fydd y llywodraeth yn mynd ati i ddatblygu gwasanaeth brys.

Casgliad

290. I gloi, o gofio bod llawer o'r dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad yn cefnogi'r dystiolaeth a gasglwyd eisoes gennym yn ystod y cyfnod ymgynghori, credwn ei bod yn parhau i fod yn anymarferol i ddatblygu proses gofrestru brys weithredol. Am y rheswm hwn:

Ni fydd y llywodraeth yn mynd ati i ddatblygu gwasanaeth brys.

Crynodeb o gynnis 7 – mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr

Cefndir

291. O dan y cynnis hwn, gwnaethom archwilio i ffyrdd o gynorthwyo cyfreithwyr trwy ddefnyddio systemau digidol integredig a gofynion deddfwriaethol. O ystyried y nifer fawr o AAau y mae cyfreithwyr yn helpu i greu a chofrestru, mae angen i ni sicrhau bod cyfreithwyr yn cyflwyno AAau i SGC gan ddefnyddio'r sianelau mwyaf effeithlon, digidol i raddau helaeth, er mwyn cyflawni amcanion moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol. Bydd hynny'n sicrhau bod SGC yn gallu:
- Darparu mynediad rhwydd i gyfreithwyr a'u cleientiaid trwy ostwng dibyniaeth ar y system bost (a'r costau cysylltiedig), llai o angen am gywiro gwallau a llai o amser prosesu i SGC;
 - Cyflawni cynaliadwyedd ar gyfer SGC trwy ostwng trin a storio papur, yn ogystal â chyfraddau camgymeriadau llai oherwydd gwiriadau rhagarweiniol o fewn y gwasanaeth.
292. Mae'n bwysig nodi nad yw'n ofyniad cael cyfreithiwr er mwyn creu AA, ac nid yw'r cynigion hyn yn cynnis cyflwyno gofyniad o'r fath.
293. Mae'r cynnis hwn yn ymwneud â sut mae cyfreithwyr yn defnyddio'r sianel ddigidol i helpu SGC i gyflawni cynaliadwyedd wrth sicrhau bod modd iddynt gael gafael ar wasanaeth effeithlon o hyd, er mwyn sicrhau nad yw eu cleientiaid yn cael eu cosbi. Mae hyn yn alinio ag amcanion ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef y dylai AAau fod yn gyraeddadwy, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb.
294. **Dull 7a – integreiddio'n unig.** Mae hyn yn ymwneud ag adeiladu sianel ddigidol a fyddai'n hygyrch o systemau rheoli dogfennau presennol cyfreithwyr. Yn y bôn, byddai cyfreithwyr sydd, ar hyn o bryd, yn cyrchu ffurflenni papur trwy eu systemau rheoli dogfennau yn defnyddio'r un system i gwblhau a chyflwyno'r AA ar-lein. Byddai'r system yn ymddangos yn ddi-dor iddynt, yn darparu gwerth ychwanegol ar gyfer eu cleientiaid, ac yn cefnogi cynaliadwyedd SGC.
295. **Dull 7b – ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio rhan o'r gwasanaeth.** Os byddai cyfreithwyr yn methu â defnyddio'r sianel ddigidol newydd, yna byddai angen i ni ystyried gofynion mwy llym. Yn yr achos hwn, gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio rhan o'r sianel ddigidol ar gyfer elfennau allweddol y broses gofrestru. Y gofyniad mwyaf tebygol fyddai cyflwyno AAau yn ddigidol, gan fod hynny'n hollbwysig o ran cyflawni ein nodau cyffredinol.

296. **Dull 7c - ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth cyfan.** Byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio pob elfen o'r sianel ddigidol ar gyfer pob cofrestriad AA ar ôl dyddiad penodol.

297. **Dull dewisol y llywodraeth oedd 7a – integreiddio'n unig.** Byddem yn ceisio cydweithio â'r sector cyfreithiol i ddatblygu gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n hygyrch trwy eu darparwyr papurau cyfreithiol presennol. Byddem hefyd yn gweithio i ddarparu mynediad uniongyrchol i gwmnïau cyfreithiol llai, elusennau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi creu AAau. Byddai hyn yn cynnwys awduron ewyllysiau ac ymarferwyr ystadau.

298. Gofynnwyd i ymatebwyr rannu eu safbwyntiau ar effeithiau posibl defnyddio gwasanaeth Llywodraeth y DU (GOV.UK) ar gyfer AAau.

C11. Pe bai'n ofynnol i chi ddefnyddio gwasanaeth GOV.UK i greu a chofrestru AAau eich cleientiaid, beth fyddai'r effaith ar y gwasanaeth y gallwch ei gynnig i'ch cleientiaid? Darparwch dystiolaeth, gan gynnwys ar yr effeithiau o ran amser (diwrnodau / oriau) neu mewn termau ariannol, lle bo'n berthnasol.

Ymateb i gwestiynau penodol

C11. Pe bai'n ofynnol i chi ddefnyddio gwasanaeth GOV.UK i greu a chofrestru AAau eich cleientiaid, beth fyddai'r effaith ar y gwasanaeth y gallwch ei gynnig i'ch cleientiaid? Darparwch dystiolaeth, gan gynnwys ar yr effeithiau o ran amser (diwrnodau / oriau) neu mewn termau ariannol, lle bo'n berthnasol.

299. Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis effeithiau o set o opsiynau. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis opsiynau lluosog a gallent gyflwyno ymateb testun rhydd er mwyn darparu effeithiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru, esbonio eu hateb neu ddarparu safbwyntiau ychwanegol. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt ddarparu tystiolaeth benodol ar yr effaith a ddewiswyd ganddynt i gynorthwyo datblygiad y diwygiadau.

300. O ystyried mai nod y cwestiwn hwn oedd cyrchu tystiolaeth gan drydydd partion a'r sefydliadau hynny a allai gael eu *gorfodi* i gefnogi cleientiaid trwy wasanaeth, dim ond ymatebion gan y rheini sydd â "diddordeb proffesiynol" a gyfrifwyd yn y dadansoddiad data. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol unigol, sefydliadau (gan gynnwys elusennau a sefydliadau trydydd sector) ac unigolion sy'n ystyried eu hunain yn aelodau o'r cyhoedd, ond a nododd hefyd fod ganddynt ddiddordeb proffesiynol.

301. Nid yw'r ymatebion gan 22 aelod o'r cyhoedd heb ddiddordeb proffesiynol, a 2 ymateb dienw, wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

302. Mae Ffigur 19 yn darparu dadansoddiad o'r 157 o ymatebwyr â diddordeb proffesiynol wnaeth ateb y cwestiwn. Roedd y mwyafrif o'r rhain gan weithwyr proffesiynol unigol (74% o 157 o ymatebion), ac yna sefydliadau (22% o 157 o ymatebion).

Y rhinwedd yr oeddent yn ymateb ynddi	Cyfanswm y gweithwyr proffesiynol a atebodd
Y cyhoedd	7 (4%)
Proffesiynol	116 (74%)
Sefydliadau	34 (22%)
Cyfanswm Proffesiynol	157

Ffigur 19. Dadansoddiad o'r swyddogaeth yr oeddent yn ymateb i gwestiwn 11.

303. Mae Ffigur 20 yn dadansoddi'r effeithiau negyddol a ddewiswyd gan yr 157 o ymatebwyr. Yr effaith amlycaf (ar draws yr holl opsiynau a ddarparwyd) oedd pryder na fyddai gwasanaethau'r llywodraeth yn diwallu anghenion cyfreithwyr a rhoddwyr (63 o ymatebion, 40% o 157). Dewisodd 46% o weithwyr proffesiynol unigol (53 o 116 o ymatebwyr) yr effaith hwn, ac yna 29% o sefydliadau (10 o 34 o ymatebion).
304. Roedd 18% o'r holl ymatebwyr (29 o 157 o ymatebion) o'r farn y byddai oediadau amser wrth gyfarwyddo â'r gwasanaeth newydd yn cael effaith, ac roedd 15% o'r holl ymatebwyr (24 o 157 o ymatebion) o'r farn y byddai'r broses yn arafu. Ar gyfer y ddau opsiwn, roedd gweithwyr proffesiynol unigol yn fwy tebygol o ddewis yr effeithiau hyn, o gymharu â grwpiau eraill o ymatebwyr.

Themâu	Y cyhoedd	Gweithwyr Proffesiynol	Sefydliadau	Cyfanswm
Pryder na fyddai gwasanaethau'r llywodraeth yn diwallu anghenion cyfreithwyr a rhoddwyr	0	53	10	63
Oediadau amser wrth gyfarwyddo â'r gwasanaeth newydd	0	22	7	29
Y broses yn arafu	0	19	5	24

Ffigur 20 – Yr effeithiau negyddol a ddewiswyd mewn ymateb i gwestiwn 11.

305. Dewisodd llawer o weithwyr proffesiynol effeithiau cadarnhaol hefyd, a chyflwynir y rhain yn Ffigur 21. Roedd yr effeithiau cadarnhaol mwyaf cyffredin a ddewiswyd gan ymatebwyr yn gysylltiedig â llai o ddefnydd o bapur mewn gwasanaeth GOV.UK. Roedd 29% o'r holl ymatebwyr (46 o 157 ymateb) o'r farn y byddai llai o ddibyniaeth ar wasanaeth post yn cael effaith, ac yna 24% o'r ymatebwyr (38 o 157 o ymatebion) a ddewisodd 'llai o bapur' fel effaith.

306. Mae'n werth nodi, er bod 15% o'r ymatebwyr (24 o ymatebion) o'r farn y byddai'r broses yn arafu os oedd yn ofynnol iddynt ddefnyddio gwasanaeth GOV.UK i greu AA (gweler Ffigur 21), gwnaeth cyfran bron yn gyfatebol ddewis yr effaith cyferbyniol; roedd 14% o'r ymatebwyr (22 o 157 o ymatebion) o'r farn y byddai defnyddio gwasanaeth GOV.UK yn cyflymu'r broses ar gyfer creu a chofrestru AA.

Themâu	Y cyhoedd	Gweithwyr Proffesiynol	Sefydliadau	Cyfanswm
Llai o ddibyniaeth ar wasanaeth post	0	37	9	46
Defnyddio llai o bapur	0	32	6	38
Cyflymu'r broses	0	17	5	22
Llai o gamgymeriadau	0	14	5	19
Haws defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol	2	13	0	15
Rhatach defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol	0	11	1	12

Ffigur 21. Yr effeithiau cadarnhaol a ddewiswyd mewn ymateb i gwestiwn 11.

307. Yn debyg i Ffigur 22, datganodd 60 o weithwyr proffesiynol y byddai effeithiau eraill i ddefnyddio gwasanaeth GOV.UK (cadarnhaol a negyddol) – ehangir ar y rhain yn y themâu a ystyrir isod, tra datganodd 28 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod beth fyddai'r effeithiau.

Themâu	Y cyhoedd	Gweithwyr Proffesiynol	Sefydliadau	Cyfanswm
Ddim yn gwybod	4	15	9	28
Effeithiau eraill	1	47	12	60

Ffigur 21. Yr effeithiau eraill a ddewiswyd mewn ymateb i gwestiwn 11.

308. Ar gyfer y cwestiwn hwn, dewisodd 30 o ymatebion ymgyrch "Arall", gan ddarparu sylwadau ychwanegol. Darparodd 9 ymateb arall gymysgedd o atebion ar draws yr opsiynau y gellir eu dewis, heb unrhyw ymateb clir.

Themâu:

309. Darparodd 127 o ymatebwyr â diddordeb proffesiynol resymau ychwanegol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn benodol yn erbyn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio unrhyw wasanaeth newydd, ac awgrymwyd y byddai gwneud hynny yn groes i gael yr opsiwn o gwblhau'r broses drwy lwybr papur. Mae'n werth nodi bod dros 80% o weithwyr proffesiynol a wnaeth y sylw hwn yn rhan o'r ymateb ymgyrch gydlynol.

310. Yn ogystal, awgrymodd llawer o ymatebwyr fod yn well gan weithwyr proffesiynol a'u cleientiaid weithio ar bapur. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ysgrifenedig, gwirio drafftiau gyda chleientiaid ar bapur, a chadw cofnodion papur. O ganlyniad, roeddent yn ansicr sut y byddai'r gwasanaeth moderneiddiedig yn gweithio ochr yn ochr â'u systemau papur presennol eu hunain, ac roeddent yn awyddus i'r llwybr papur aros. Yn ogystal, roedd rhai o'r farn y byddai opsiwn yn seiliedig ar bapur yn parhau i fod yn angenrheidiol i wasanaethu cleientiaid sy'n byw mewn cartrefi gofal neu sydd angen ymweliadau cartref, lle na fydd technoleg yn hygyrch.
311. Roedd rhai ymatebwyr yn fwy cefnogol i foderneiddio ac o'r farn y byddai'n gwella'r profiad cyffredinol ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chleientiaid. Awgrymwyd y byddai system ddibynadwy newydd a allai wirio gwallau mewn amser real yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn gwneud y broses gyfan yn gyflymach i bawb. Nododd nifer fach o ymatebwyr yr heriau sy'n gysylltiedig ag oedi drwy'r post, a'r risg o golli dogfennau pwysig yn y post, ac felly roeddent yn cydnabod y manteision o gyflwyno'n ddigidol. Awgrymodd rhai hefyd y byddai hyn yn arbennig o fuddiol wrth geisio ymgysylltu ag atwrneiod sy'n wasgaredig yn ddaearyddol. Yn ogystal, awgrymodd rhai y byddai hyn yn arbennig o fuddiol wrth geisio ymgysylltu ag atwrneiod sy'n wasgaredig yn ddaearyddol. Byddai'n haws i weithwyr proffesiynol gael llofnodion (e.e. os yw'r atwrnai dramor) a byddai'n osgoi'r angen i anfon dogfennau papur gwreiddiol at yr atwrnai.
312. Yng nghyd-destun systemau integredig, roedd ymatebwyr yn awyddus i'r llywodraeth gyd-ddylunio a phrofi unrhyw system newydd gyda gweithwyr proffesiynol. Roedd rhai o'r farn bod eu copïau electronig eu hunain yn haws i'w rheoli ac yn pryderu am ba mor effeithiol fyddai system integredig. Nododd eraill ddiffyg hyder yng ngallu'r llywodraeth i ddarparu system a fyddai'n gweithio iddyn nhw, gan nodi enghreifftiau o anawsterau y maent wedi'u cael wrth ddefnyddio gwasanaethau eraill y llywodraeth. Amlygwyd anawsterau gyda'r system profiant gan nifer o ymatebwyr, er dylid nodi y gwnaeth nifer fach ddweud bod hyn yn enghraifft gadarnhaol y dylem ei dilyn.
313. Yn gyffredinol, roeddent eisiau sicrhau bod unrhyw system newydd yn integreiddio gyda'u systemau rheoli achosion presennol eu hunain, yn osgoi dyblygu ymdrech fel nad oes rhaid i weithwyr proffesiynol lenwi'r un ffurflenni ddwywaith (unwaith ar eu system eu hunain, ac yna ar system y llywodraeth). Dywedodd eraill fod angen mwy o wybodaeth arnynt ar sut y byddai'r gwasanaeth newydd yn gweithio cyn y gallent ddeall yr effeithiau.
314. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y dulliau ymgynghori yn canolbwyntio'n ormodol ar gyfreithwyr yn unig, gan nodi bod gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol eraill a sefydliadau trydydd sector rôl fawr i'w chwarae wrth hyrwyddo a chreu AAau. O ganlyniad, roeddent yn awyddus i sicrhau bod unrhyw wasanaeth newydd yn

integreiddio â gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gyfreithwyr, e.e. awduron ewyllysiau, ymarferwyr ystadau ac elusennau.

315. Roedd set fach o ymatebwyr yn pryderu y gallai gwasanaeth digidol wneud rôl gweithiwr proffesiynol yn ddiangen, a gallai arwain at golli incwm. Roeddent hefyd yn credu bod y diffyg ymgysylltiad proffesiynol yn lleihau mesurau diogelu ar gyfer y rhoddwr. Mewn cyferbyniad, roedd nifer fach o weithwyr proffesiynol yn credu y byddai moderneiddio yn gorfodi mwy o unigolion i geisio cymorth proffesiynol wrth wneud AA, ac roeddent yn pryderu am y costau ychwanegol i roddwyr o wneud hynny.

Ymateb y Llywodraeth

316. Ystyriodd y dulliau ymgynghori o dan y cynnig hwn y ffordd orau o gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'r system foderneiddiedig.

317. Mae'n bwysig dechrau drwy egluro un agwedd a gododd ar draws nifer o ymatebion, ac yn ein gweithdai ymgysylltu. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod ein dulliau yn canolbwyntio'n llwyr ar gyfreithwyr, ac roeddent eisiau sicrhau y gallent gael mynediad at unrhyw system yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y gall cymorth trydydd parti ei chwarae wrth helpu rhoddwyr i wneud eu AAau. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol cyfreithiol eraill fel awduron ewyllysiau a chynllunwyr ystadau, yn ogystal â sefydliadau trydydd sector fel elusennau.

318. Nid oedd ein cynnig yn fod darparu mynediad integredig i gyfreithwyr *yn unig* gan y byddai hynny'n darparu mantais annheg i un grŵp o ddarparwyr gwasanaethau AA. Fel y dywedasom ar y pryd, ac yn ystod ymgysylltu, rydym hefyd yn ystyried sut i ddarparu mynediad i'r sector cyfreithiol heb ei reoleiddio a darparwyr cymorth nad ydynt yn gyfreithiol. Dyma fyddai'r achos, waeth pa ddull o dan gynnis 7 a fydd yn cael ei ddatblygu.

319. Fodd bynnag, er mwyn i wasanaeth AA moderneiddiedig alluogi SGC i fod yn gynaliadwy, rhaid i ni sicrhau bod yr ymgysylltiad â'r sianel ddigidol mor uchel â phosibl. O ganlyniad, roedd cynnis 7 o'r ymgynghoriad yn archwilio pa opsiynau a fyddai ar gael petai llai o ymgysylltiad na'r disgwyl â'r sianel ddigidol i wireddu amcanion mesurau diogelu, mynediad a chynaliadwyedd gwell. O ystyried bod gwasanaethau eraill y llywodraeth wedi gorfod mandadu defnydd oherwydd diffyg ymgysylltiad, roedd yn rhaid ystyried integreiddio a mandadu. Fodd bynnag, mae mandadu ond yn opsiwn gyda'r sector cyfreithiol a reoleiddir, gan gynnwys cyfreithwyr, a dyna pam mai cyfreithwyr oedd prif ffocws cynnis 7.

320. Nodwyd nifer o fanteision gan ymatebwyr am ofyniad posibl i ddefnyddio sianel ddigidol. Roedd y rhain yn cynnwys: gostyngiadau mewn gwallau, gwell profiad ac

effeithlonrwydd, gwaredu oediadau trwy'r post a'r risg o golli dogfennau, a'r gallu i drafod y ddogfen yn well gyda phobl sydd ar wasgar yn ddaearyddol.

321. Yn ogystal, rhaid i ni gydnabod bod llawer o'r ymatebwyr yn erbyn defnyddio deddfwriaeth i gyflwyno gofyniad i gyfreithwyr ddefnyddio'r sianel ddigidol, gan fod yn arbennig o bryderus am y gwasanaeth yn diwallu anghenion gweithwyr proffesiynol a chleientiaid sy'n dal i ffafrio gweithio ar bapur. Roeddent eisiau cynnal hyblygrwydd defnyddio llwybr papur lle mae hynny'n diwallu anghenion neu ddisgwyliadau eu cleientiaid. Yn ogystal, nododd rhai bod ei gwneud hi'n ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth digidol yn groes i ddatgan y byddai llwybr papur ar gael o hyd.
322. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno sianel ddigidol i ganiatáu creu AAau. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir na fydd hyn yn "ddigidol yn unig", ac nid yw hyd yn oed yn golygu sianel "gwbl ddigidol" (os yw hynny'n golygu byth yn caniatáu i unrhyw un weithio ar ddogfen papur). Mewn perthynas â chynaliadwyedd, mae sicrhau bod yr AA yn cael ei derbyn yn ddigidol o bwysigrwydd allweddol i SGC. Mae hynny'n golygu y gall fod hyblygrwydd yn y system i ganiatáu'r gallu i argraffu a thrafod drafftiau, gwneud diwygiadau ar bapur a chadw cofnodion papur wrth ddarparu'r AA derfynol i SGC trwy ddulliau digidol.
323. Mae'r rhain yn nodweddion y gellir eu hymgorffori mewn sianel ddigidol yn y dyfodol. Gwnaeth rhai ymatebion i'r ymgynghoriad sôn am ddull "hybrid" a fyddai'n caniatáu defnyddio papur o fewn proses ddigidol. Rydym yn archwilio ar ba bwyntiau y gallai copïau papur drafft fod yn ddefnyddiol i roddwyr, atwrneiod a'u cefnogwyr, a sut i'w darparu heb greu dryswch neu risg y credir bod copi yn AA ddilys, e.e. gyda marciau dŵr.
324. Y ffordd orau i sicrhau ein bod yn gallu datrys y problemau hyn a diwallu anghenion gweithwyr proffesiynol yw trwy gyd-greu a chyd-ddylunio gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Soniodd nifer o ymatebion am y dull hwn a'i bwysigrwydd wrth gyflwyno system hyfedrus. Dyma'n union sut yr ydym am ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol ac mae'r tîm eisoes wedi bod yn gweithio yn y ffordd hon, yn gyntaf trwy brofi defnyddwyr, a gyda'n gweithgor rhanddeiliaid yn y cyfnod cyn ymgynghori, yna gyda phrofion parhaus ac ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad. Rydym yn bwriadu parhau gyda'r dull hwn trwy gydol datblygiad y sianeli digidol a phapur.
325. Er y byddwn yn edrych ar wasanaethau y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth, gan gynnwys y gwasanaeth profiant, er mwyn dysgu oddi wrthynt a datblygu arfer gorau, rydym hefyd yn credu mai datblygu system newydd ar y cyd â'r sectorau perthnasol yw'r ffordd orau i ddeall a datrys peth o'r pryderon sydd gan weithwyr proffesiynol tuag at wasanaeth moderneiddiedig newydd. Byddai hyn yn sicrhau bod y

gwasanaeth newydd yn diwallu eu hanghenion ac yn helpu i gadw eu costau i lawr, wrth barhau i ganiatáu SGC i brosesu'r AA terfynol yn ddigidol. Dyma'r ffordd fwyaf cadarnhaol a chydweithredol o symud ymlaen a fydd yn ein galluogi ni i gyflwyno gwasanaeth AA moderneiddiedig.

O ystyried yr ymatebion hyn, bydd y llywodraeth yn parhau gyda'r gwaith o integreiddio sianel AA ddigidol gyda systemau rheoli dogfennau ac achosion.

326. Fodd bynnag, does dim angen dweud na fyddwn yn gwybod faint sy'n manteisio ar y gwasanaeth digidol nes iddo fynd yn fyw. Er ein bod yn credu mai integreiddio yw'r ffordd orau o sicrhau'r lefel uchaf o ymgysylltiad, oherwydd bydd darparwyr cymorth yn cael mynediad ar unwaith at fanteision y system, mae yna risg o hyd y bydd rhai yn parhau i fod yn amharod i newid.
327. Am y rheswm hwn, mae angen i ni sicrhau bod darpariaeth yn y ddeddfwriaeth i gyflwyno defnydd gorfodol o'r system ddigidol gan y sector cyfreithiol a reoleiddir yn y dyfodol os yw hyn yn angenrheidiol. Byddai hyn yn wir petai'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth byw yn annigonol i ganiatáu SGC i ail-flaenoriaethu ei adnoddau yn y gwasanaethau diogelwch a chefnogaeth sy'n darparu'r budd mwyaf i ddefnyddwyr, sef archwiliadau, y ganolfan gyswllt a'r tîm brysbennu.

O ganlyniad, byddwn yn sicrhau bod pwerau digonol o fewn y ddeddfwriaeth i'n galluogi ni i'w gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol a reoleiddir i ddefnyddio'r gwasanaeth digidol yn y dyfodol, petai hynny'n angenrheidiol.

Casgliad

328. I gloi, hoffai'r llywodraeth weithredu Atwrneiaeth Arhosol foderneiddiedig trwy integreiddio'r system gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, bydd angen i ni fonitro'r defnydd ac ailasesu'r sefyllfa os oes angen. Felly:

- **Bydd y llywodraeth yn parhau gyda'r gwaith o integreiddio sianel AA ddigidol gyda systemau rheoli dogfennau ac achosion.**
- **Byddwn yn sicrhau bod pwerau digonol o fewn y ddeddfwriaeth i'n galluogi ni i'w gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol a reoleiddir i ddefnyddio'r gwasanaeth digidol yn y dyfodol, petai hynny'n angenrheidiol.**

Crynodeb o gwestiynau ychwanegol

Cyflwyniad

329. Yn ogystal â gofyn cwestiynau penodol ar bob un o'r saith cynnig, rhoddodd cwestiynau 12, 13 a 14, a amlinellir isod, gyfle i ymatebwyr godi unrhyw bryderon, manteision neu safbwyntiau ychwanegol ar foderneiddio Atwrneiaethau Arhosol nad oeddent yn gallu eu cynnwys drwy'r cwestiynau eraill. Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle hwn, ac mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd.

330. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

C12. A oes unrhyw gostau eraill (mewn oriau / dyddiau neu mewn termau ariannol) y gallech eu gweld o ganlyniad i foderneiddio AAau i chi'ch hun neu i unigolion perthnasol arall? Darparwch dystiolaeth ar gyfer eich ateb.

C13. A oes unrhyw fanteision eraill (ariannol neu anariannol) y gallech eu gweld o ganlyniad i foderneiddio AAau? Darparwch dystiolaeth ar gyfer eich ateb.

C14. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar foderneiddio Atwrneiaeth Arhosol?

Ymateb i'r ymgynghoriad

C12. A oes unrhyw gostau eraill (mewn oriau / dyddiau neu mewn termau ariannol) y gallech eu gweld o ganlyniad i foderneiddio AAau i chi'ch hun neu i unigolion perthnasol arall? Rhowch dystiolaeth ar gyfer eich ateb.

331. Roedd y cwestiwn hwn yn gwestiwn testun rhydd a ofynnodd i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth bellach am unrhyw gostau eraill a allai ddeillio o'r cynigion moderneiddio. O ystyried yr ymatebion testun rhydd a ddarparwyd, mae'r atebion wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Byddai costau pellach (ie)
- Ni fyddai unrhyw gostau pellach (na)
- Ni fyddai unrhyw gostau pellach, cyn belled ag y bod y system yn cael ei sefydlu yn gywir (na, gyda chafeat)
- Ddim yn gwybod neu angen mwy o wybodaeth

332. Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn cael tystiolaeth ychwanegol ar gyfer yr Asesiad Effaith. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu

darparu tystiolaeth o amser neu adnoddau. Lle darparwyd tystiolaeth, cafodd ei ystyried.

333. Fel y nodir yn Ffigur 23, darparodd 119 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion, 55 (46% o 119), y byddai costau ychwanegol er, yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu uchod, dim ond nifer fach iawn a ddarparwyd amcangyfrifon. Dywedodd 14 o ymatebwyr (12%) na fyddai unrhyw effeithiau, tra dywedodd 8 na fyddai unrhyw effeithiau cyn belled â bod y system yn cael ei sefydlu'n briodol. Roedd nifer fawr, 42 (35%), a oedd angen mwy o wybodaeth am fanylion y system er mwyn ateb y cwestiwn hwn. Atebodd 31 o ymatebion ymgyrch y cwestiwn hwn; gyda 30 ohonynt yn nodi eu bod 'ddim yn gwybod' ac roedd angen mwy o wybodaeth arnynt, tra atebodd 1 'y byddai costau ychwanegol'. Mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad thema.

Ateb	Cyfanswm yr Ymatebion	Canran cyfanswm yr ymatebion
le	55	46%
Na	14	12%
Na, gyda chafeat	8	7%
Ddim yn gwybod neu angen mwy o wybodaeth	42	35%
Cyfanswm	119	

Ffigur 23. Ymatebion i gwestiwn 12.

334. Y brif thema a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion hyn oedd y pryder ynghylch costau cynyddol i roddwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae hynny'n adlewyrchu llawer o'r ymatebion a welsom i gwestiynau 10 ac 11, a oedd yn canolbwyntio ar gost gynyddol gwasanaeth brys neu'r potensial i gyfreithwyr drosglwyddo costau i'w cleientiaid. Gan fod y materion hyn eisoes wedi cael sylw yng nghynnig 6 a chynnig 7, nid ydym yn mynd i roi sylw iddynt eto yn y fan hyn.

C13: A oes unrhyw fanteision eraill (ariannol neu anariannol) y gallech eu gweld o ganlyniad i foderneiddio AAau? Rhowch dystiolaeth ar gyfer eich ateb?

335. Roedd y cwestiwn hwn yn gwestiwn testun rhydd a ofynnodd i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth bellach am unrhyw fanteision eraill a allai ddeillio o'r cynigion moderneiddio. O ystyried yr ymatebion testun rhydd a ddarparwyd, mae'r atebion wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Byddai manteision ychwanegol (ie)
- Byddai manteision ychwanegol ond mae angen mwy o wybodaeth (ie, gyda chafeat)

- Ni fyddai manteision ychwanegol (na)
- Ddim yn gwybod neu angen mwy o wybodaeth

336. Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn cael tystiolaeth ychwanegol ar gyfer yr Asesiad Effaith. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu darparu tystiolaeth o amser neu adnoddau. Lle darparwyd tystiolaeth, cafodd ei ystyried.
337. Fel y nodir yn Ffigur 24, darparodd 128 o ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn. Nododd 91 o'r ymatebion y byddai manteision ychwanegol o'r cynigion moderneiddio (71% o'r 128 o ymatebion). Dywedodd nifer fach, 3 (2%), y byddai manteision, ond roedd angen mwy o wybodaeth arnynt i benderfynu beth oedden nhw. Dim ond 20 o ymatebwyr oedd yn teimlo nad oedd unrhyw fuddion o gwbl (16%). Mae nifer y bobl a ddywedodd nad oeddent yn gwybod, neu fod angen mwy o wybodaeth arnynt, yn llawer is ar gyfer y cwestiwn hwn, gydag 14 ymateb (11%). Darparodd 14 ymateb ymgyrch ateb i'r cwestiwn hwn. Nododd 3 ymateb bod manteision, tra nododd 13 (gan gynnwys 2 ag atebodd 'ie') bod angen mwy o wybodaeth arnynt.

Ateb	Cyfanswm yr Ymatebion	Canran cyfanswm yr ymatebion
le	91	71
le, gyda chafeat	3	2
Na	20	16
Ddim yn gwybod neu angen mwy o wybodaeth	14	11
Cyfanswm	128	

Ffigur 24. Ymatebion i Gwestiwn 13.

338. Yn wahanol i C12, lle'r oedd un thema eglur yn unig, cwmpasodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn nifer o fanteision posibl. Roedd y thema amlycaf yn ymwneud â'r broses yn bod yn gyflymach ac yn fwy syml i bawb. Cafodd hyn ei ddilyn yn agos gan y potensial ar gyfer gostyngiad yn yr amser a'r costau ar draws y system, a faint yn symlach y gallai'r broses fod. Roedd y themâu allweddol olaf yn cynnwys y budd o sicrhau bod yr AA yn barod i'w defnyddio pan fyddai ei hangen, yn ogystal â'r gwelliant mewn mesurau diogelu a fyddai'n cael eu gwireddu gan y diwygiadau. Unwaith eto, gan fod nifer o'r materion hyn eisoes wedi cael sylw mewn perthynas â chwestiynau eraill, nid ydym yn mynd i roi sylw iddynt eto yn y fan hyn.

C14: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar foderneiddio Atwrneiaeth Arhosol?

339. Ni wnaeth yr ymgynghoriad fynd i'r afael â phob newid posibl y gellid ei wneud, un ai i greu sianel ddigidol neu i foderneiddio'r system bapur. Nododd saith cynnig a

fyddai'n golygu bod angen gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cefnogi ein gwasanaeth moderneiddiedig. Bydd hynny'n caniatáu ar gyfer sianel ddigidol ar gyfer creu a chofrestru AA, wrth wella mesurau diogelu a mynediad, a helpu SGC i ddod yn gynaliadwy yn ariannol. Yn ogystal, byddwn yn cynnal mynediad at sianel bapur ar gyfer y rheini sydd angen neu sydd eisiau defnyddio papur.

340. Roedd y cwestiwn hwn yn darparu cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion nad oeddent wedi gallu eu codi ar unrhyw adeg arall o'r ymgynghoriad. Nid oedd unrhyw atebion penodol. Yn hytrach, roedd blwch testun rhydd ar gyfer ymatebion.
341. Atebodd 188 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gan gynnwys 37 o ymatebion ymgyrch. Lle mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chynnig penodol, maent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer y cwestiwn neu'r adran benodol yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, fe dderbyniom ni safbwyntiau eraill sy'n cwmpasu ystod o wahanol faterion, er nad ydynt yn ymwneud â'r cynigion, ond yn hytrach i foderneiddio Atwrneiaethau Arhosol, SGC neu'r polisi galluedd meddyliol yn fwy cyffredinol. Er nad yw'n bosibl i ni restru'r rhain i gyd, rydym wedi nodi'r themâu mwyaf cyffredin sy'n codi ac yn eu trafod ymhellach isod.
342. Mae'r atebion hyn yn cynnwys ystod o safbwyntiau; mae rhai ohonynt tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, e.e. AAau diwygiadwy, tra bod rhai yn cyfeirio at welliannau na gafodd sylw yn yr ymgynghoriad oherwydd na fyddai angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol arnynt, e.e. diweddariadau i ganllawiau ar ddewis atwrneiod neu eu dyletswyddau. Gan fod y gwaith o greu gwasanaeth moderneiddiedig yn mynd yn ei flaen, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ar ddiwygiadau a phryderon eraill nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol arnynt.
343. Yn ogystal, rydym yn rhoi sylw i rai materion yn yr adran hon a gafodd eu codi mewn ymateb i gwestiynau eraill, er nad ydynt wedi'u codi o dan gwestiwn 14. Maent yn cael sylw fan hyn oherwydd eu bod yn faterion cyffredinol sy'n berthnasol i'r prosiect moderneiddio cyfan, neu maen nhw y tu hwnt i gwmpas y prosiect.

Ymateb y Llywodraeth

Perfformiad presennol SGC

344. Cododd ymatebwyr bryderon yn gyson ar draws nifer o gwestiynau, ond yn enwedig mewn perthynas â gwrthwynebiadau, am berfformiad presennol a lefel gwasanaeth SGC. Roedd llawer o'r farn bod angen i brosesau SGC fod yn fwy effeithlon, cyson a chost-efeithiol. Teimlai eraill fod prosesau cyfredol yn eithaf beichus a dylid eu symleiddio. Fe wnaethant ddarparu enghreifftiau o rwystrau cyfredol mewn perthynas

ag arferion gweithredol ar bapur - er enghraifft, anawsterau o ran cwrdd â therfynau amser 'ymateb erbyn y dyddiad hwn' mewn llythyrau a anfonir drwy'r post. Cwynodd llawer am gyflymder y gwasanaeth presennol, gan deimlo fod gwasanaeth cyflymach yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion rhoddwyr.

345. Yn gyffredinol, awgrymodd llawer o ymatebwyr y gallai moderneiddio'r gwasanaeth ddatrys rhai o'r pryderon hyn. Awgrymodd rhai y byddai moderneiddio AAau yn lleihau amser i bawb sy'n ymwneud â chreu a chofrestru'r AA a byddai'n dileu'r beichiau sy'n gysylltiedig â phapur. Soniodd eraill am yr effeithlonrwydd y gellid ei wireddu yn y tymor hwy trwy wasanaeth digidol, gan y byddai mwy o wiriadau yn awtomataidd ac felly byddai'r broses gyfan yn gyflymach.

Ein hymateb:

346. Mae effaith y pandemig wedi golygu nad yw SGC yn gallu cwrdd â'u targedau arferol ar hyn o bryd. Maent wedi gorfod gweithredu gyda llai o staff yn y swyddfa oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol, ynghyd â mwy o absenoldebau. Weithiau, mae hyn wedi bod o ganlyniad i salwch Covid-19 ac weithiau oherwydd mae'n ofynnol i staff hunan-ynysu yn unol â gofynion y llywodraeth. Wrth i'r cyfyngiadau yng Nghymru a Lloegr iacio'n raddol, mae SGC wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau i gofrestru AAau, sydd wedi ychwanegu at ôl-groniadau oedd eisoes yn bodoli.
347. Mae'r materion hyn, gyda'i gilydd, wedi creu'r oedi i gofrestriadau AA, a all gymryd hyd at 20 wythnos i'w prosesu ar hyn o bryd. Mae SGC yn gweithio'n galed i leihau'r oedi a chlirio'r ôl-groniad, gan gynnwys cael cymaint o staff â phosibl yn y swyddfa wrth barhau i weithio mewn amgylchedd diogel, ymgyrch recriwtio staff newydd a defnyddio goramser. Fodd bynnag, mae problemau sylweddol gyda recriwtio a chadw nifer y staff sy'n angenrheidiol i glirio'r ôl-groniad. Mae SGC yn rhedeg sifft dydd a sifft cyfnos, ac wedi cael caniatâd gan y landlord yn Birmingham i redeg sifft nos rhwng 10pm a 2am.
348. I helpu i reoli disgwyliadau eu cwsmeriaid, mae SGC yn diweddarau ei gwefan yn rheolaidd i gynnwys yr amserlen gyfredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.
349. Dylai AA foderneiddiedig gynyddu effeithlonrwydd o ran sut mae SGC yn gallu cofrestru Atwrneiaethau Arhosol yn sylweddol. Fodd bynnag, ac yr un mor bwysig, byddai hefyd yn caniatáu i'r sefydliad i addasu a graddio ei wasanaethau yn llawer haws ac yn gyflymach, sy'n golygu y dylai fod mewn sefyllfa llawer gwell i ddelio â digwyddiadau rhyfeddol yn y dyfodol, fel y rhai a arweiniodd at ei sefyllfa bresennol.

Bydd SGC yn parhau i weithio tuag at adfer o Covid-19 a dychwelyd at wasanaeth arferol.

Y broses bapur

350. Yn ogystal, nodwyd y pwysigrwydd o gynnal llwybr papur ar gyfer creu AA i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn hygyrch i bawb. Awgrymodd ymatebwyr y dylai dewis amgen (papur) redeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth digidol, gyda gwelliannau tebyg wedi'i gwneud i fesurau diogelu i sicrhau cydraddoldeb â'r sianel ddigidol. Roedd hyn er mwyn cynnal mynediad cyfartal i bawb wrth barhau i wireddu'r manteision diogelu y gallai'r moderneiddio eu cynnig.

Ein hymateb

351. Trwy gydol y broses o foderneiddio Atwrneiaeth Arhosol, mae'r llywodraeth wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o ganolbwyntio ar y rhoddwr, a ddylai aros wrth wraidd y broses AA. Rydym yn gwybod nad yw pawb yn gallu, neu'n barod, i ddefnyddio technoleg ddigidol i gael mynediad at wasanaethau. Am y rheswm hwn, bydd unrhyw wasanaeth AA yn y dyfodol yn caniatáu mynediad aml-sianel; byddwn yn cynnal sianel bapur wrth gyflwyno sianel ddigidol. Bydd hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r gwasanaeth papur i sicrhau bod gan y rheini sy'n ei defnyddio fynediad at yr un mesurau diogelu â'r rheini sy'n defnyddio'r sianel ddigidol, e.e. gwiriadau hunaniaeth. Byddwn yn parhau i ystyried sut i sicrhau cydraddoldeb gwasanaeth wrth i'r datblygiadau fynd yn eu blaen.
352. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad oedd pob cynnig yn nodi sut y gallai weithio'n wahanol ar gyfer papur. Y rheswm am hyn yw oherwydd, mewn rhai achosion, nid yw cyflwyno sianel ddigidol yn golygu bod angen newid yn y broses bapur. Er enghraifft, nid yw defnyddio technoleg i roi tystiolaeth o weithredu mewn sianel ddigidol yn golygu na allwn ddefnyddio tystion i roi tystiolaeth o weithredu mewn sianel bapur – mae'r pwrpas yr un peth, sef darparu tystiolaeth i SGC a'r Llys Gwarchod bod y rhoddwr wedi gweithredu'r AA. Mewn achosion eraill, er enghraifft gwrthwynebiadau, roeddem yn dal i benderfynu sut y byddai'r broses hon yn gweithio yn ddigidol ac ar bapur, a nod yr ymgynghoriad oedd darparu tystiolaeth i'n helpu ni i ddod o hyd i'r ateb.
353. Cafodd y mater o hygyrchedd digidol a chynnal sianel bapur ei godi mewn perthynas â chwestiynau cydraddoldeb yn C15 a C16. Darperir crynodeb o'r rhain isod, ac mae'r Datganiad am Gydraddoldebau llawn yn Atodiad C.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod sianel bapur yn parhau i fod ar gael i'r rheini sydd ei hangen.

Defnyddio'r AA

354. Soniodd sawl ymateb am yr anawsterau a wynebwr wrth geisio defnyddio AA gyda thrydydd partïon, gyda banciau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu nodi amlaf yn yr ymatebion. Awgrymwyd bod angen dull unffurf i drydydd partïon sy'n derbyn AAau, ac y dylid moderneiddio'r trefniadau ar gyfer eu rhannu ag eraill. Byddai hynny'n gwneud yr AA yn haws i atwrneiod ei defnyddio - er enghraifft, pe gallai'r trydydd parti weld cynnwys llawn yr AA (gan gynnwys dewisiadau a chyfarwyddiadau) yn ddigidol.

Ein hymateb

355. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl wedi cael anawsterau wrth ddefnyddio AAau gyda thrydydd partïon. Yn ogystal â'r uchod, rydym hefyd yn ymwybodol bod gan bobl bryderon ynghylch gorfod postio'r ddogfen wreiddiol i drydydd partïon at ddiben cofrestru mewnol, a'r risg o golled neu ddifrod. Er mai'r trydydd partïon sy'n gyfrifol am eu harferion mewnol eu hunain i sicrhau bod SGC wedi cofrestru'r AA, mae SGC eisoes yn ymgymryd â gwaith i wneud y broses hon yn fwy cyson, yn fwy syml ac yn haws i ddefnyddwyr.

356. Lanswyd gwasanaeth *Use an LPA* ym mis Mehefin 2020 ac mae'n caniatáu i atwrneiod a rhoddwyr rannu manylion eu AAau gyda thrydydd partïon ar-lein. Gweithiodd SGC yn agos gyda rhanddeiliaid i sefydlu'r data allweddol a oedd ei angen i allu rhoi mynediad i'r atwrnai. Mae cyfyngiadau'r broses AA gyfredol yn golygu bod angen rhannu'r AA gorfforol (neu gopi ardystiedig ohoni) mewn nifer fach o achosion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn adrodd bod y broses ar-lein o ddefnyddio AA yn llawer haws na defnyddio'r AA bapur. Mae SGC yn parhau i ddarparu gwelliannau i'r gwasanaeth a lleihau'r achosion lle mae angen rhannu'r AA bapur.

357. Tra bod moderneiddio AA yn brosiect ar wahân sy'n cael ei redeg ar y cyd ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder a SGC, mae'n gysylltiedig â datblygiad gwasanaeth *Use an LPA* SGC. Cyflwynwyd *Use an LPA* gan SGC yn gyntaf gan nad oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth i ganiatáu i drydydd partïon gael mynediad at wybodaeth AA. Y cam nesaf o ddiwygio gwasanaethau AA SGC yw moderneiddio'r broses creu a chofrestru. Mae hyn yn cael ei wneud gan y prosiect Moderneiddio AA. Bydd yr AA foderneiddiedig yn caniatáu i'r AA gyflawn gael ei rhannu drwy'r gwasanaeth *Use an LPA*. Yn bwysig, gallwn ddarparu eglurder y bydd AA fodern, sy'n cael ei rhannu drwy'r gwasanaeth *Use an LPA*, yn gallu cael ei thrin fel copi cyfreithiol o'r AA, a ddylai gynyddu hyder, cyflymder a nifer y trydydd partïon sy'n defnyddio'r

gwasanaeth. Yn y modd hwn, mae SGC eisoes yn gweithio i gynorthwyo defnyddwyr yn eu defnydd o'r AA gyda thrydydd partïon.

Bydd SGC yn parhau i ddatblygu a chyflwyno'r gwasanaeth *Use an LPA*.

AAau diwygiadwy

358. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod AAau yn rhy anodd eu newid ar ôl iddynt gael eu cofrestru ac y dylai fod yn haws newid y rhain yn y dyfodol. Er enghraifft, awgrymodd rhai y dylai fod yn symlach i ychwanegu atwrnai at AA bresennol neu ychwanegu darpariaethau atodol. Dadleuodd eraill y byddai gwneud AAau y gellir eu diwygio'n annog pobl iau i'w gwneud, gan y byddai ganddynt y gallu i wneud newidiadau yn y dyfodol heb orfod talu ffioedd ychwanegol a diddymu AAau presennol.

Ein hymateb

359. Rydym yn cydnabod y safbwyntiau cadarnhaol iawn y mynegodd ymatebwyr ar fanteision AAau diwygiadwy. Yn wir, mae'r rhain yn alinio â bwriadau polisi y dylai pawb sydd eisieu AA gael un, a phwysigrwydd cael un yn ei le rhag ofn y bydd yr annisgwyl yn digwydd. Mae datblygu AAau diwygiadwy yn rhywbeth yr hoffai'r llywodraeth ei ddatblygu yn y dyfodol.

360. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd fod yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni a pha mor gyflym. Prif nod moderneiddio'r AA yw cynyddu mesurau diogelu o fewn y broses bresennol, yn enwedig ar gyfer y rhoddwr. Nid yw AAau diwygiadwy yn helpu i gyflawni'r nod hwn, ac mewn gwirionedd byddai angen datblygu mesurau diogelu newydd i wirio mai'r rhoddwr sy'n gwneud y gwelliannau ac nid actor arall.

361. Yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae angen i ni sicrhau bod y manteision yr ydym yn gobeithio eu gwireddu trwy fwy o fesurau diogelu, gwell mynediad a chynaliadwyedd yn cael eu cyflawni yn gyflymach. Mae hyn yn galw arnom i ddatblygu sianel ddigidol o greu a chofrestru yn gyntaf. Fodd bynnag, mae ystyried sut i osod y sylfeini i wneud AAau diwygiadwy yn bosibl yn y dyfodol fel sianel ddigidol yn gam cyntaf pwysig ar y daith honno.

O ganlyniad, mae AAau diwygiadwy yn parhau i fod tu hwnt i gwmpas moderneiddio Atwrneiaeth Arhosol.

Arweiniad ac Addysg

362. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid gwneud gwelliannau i'r arweiniad ynghylch AAau ac i'r DGM yn ehangach. Roedd rhai o'r farn bod yr arweiniad presennol yn

anodd ei ddeall, sy'n golygu bod rhai rhoddwyr yn cael trafferth i gwblhau'r broses yn annibynnol. Awgrymodd ymatebwyr y dylid gwella cynllun y ffurflenni, ac y dylid symleiddio'r iaith a'i gwneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr.

363. Er nad yw o fewn cwmpas y prosiect, soniodd rhai ymatebwyr am arweiniad galluedd meddyliol, gan nodi nad yw llawer o bobl yn deall y gwahaniaeth rhwng AA a Dirprwyaeth. Fe wnaethant awgrymu gwell hyfforddiant i sefydliadau ariannol, llywodraethau lleol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ar gyfraith galluedd meddyliol, gan bwysleisio bod galluedd yn benodol i amser a phenderfyniad.
364. Yng nghyd-destun AAau yn benodol, dywedodd rhai nad yw'r arweiniad presennol yn adlewyrchu arfer cyfredol a dylid ei ddiweddarau, o bosibl drwy'r cod ymarfer. Adleisiwyd yr angen i hyfforddi sefydliadau ariannol a llywodraethau lleol ar ddefnyddio AA fan hyn.
365. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud mwy i helpu pobl i ddeall yr AA ei hun, yn enwedig cwmpas pŵer atwrnai a'r angen i gefnogi rhoddwyr i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bo hynny'n bosibl, yn enwedig gan y gall galluedd amrywio. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys codi ymwybyddiaeth am y pwerau a roddir i'r atwrnai a'r amgylchiadau lle gall yr atwrnai weithredu. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod partïon yn ymwybodol y dylid defnyddio'r AA yn unig ble nad oes gan y rhoddwr alluedd meddyliol, a hyd yn oed wedyn, dylai'r atwrnai gynnwys y rhoddwr yn weithredol wrth wneud penderfyniadau. Roedd rhai o'r farn y byddai hyn yn gwella mesurau diogelu ac yn sicrhau bod pob parti yn deall goblygiad cofrestru AA yn llawn. Yn ogystal, roedd rhai eisiau gwell arweiniad ar yr hyn sy'n digwydd mewn achosion o gam-drin yr AA.

Ein hymateb

366. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â safbwyntiau'r ymatebwyr y gellir gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i roddwyr, atwrneiod, darparwyr tystysgrifau ac eraill sy'n ymwneud â'r broses o greu AA.
367. Mae newid y broses o greu AA, er mwyn darparu ar gyfer sianel ddigidol a sianel bapur, yn cynnig y cyfle delfrydol i archwilio'r arweiniad a'r wybodaeth a ddarperir. Yn ogystal, bydd y sianel ddigidol yn darparu cyfleoedd newydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, i'r bobl iawn. Gall hynny helpu pobl i ddeall y penderfyniadau sydd angen iddynt eu gwneud neu'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd yn rhaid iddynt eu gweithredu yn well.
368. Yn yr un modd, mae angen i ni sicrhau nad ydym yn colli manteision y system bapur o fewn y sianel ddigidol, er enghraifft yr amser i eistedd yn ôl a meddwl am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda dogfen fel AA, fel y nodwyd gan rai o'n hymatebwyr, o ystyried cwmpas y pwerau sy'n cael eu rhoi o dan y ddogfen. Byddwn yn parhau i feddwl am sut y gall sianel ddigidol helpu i

greu gofod i roddwyr fel y gallent gymryd yr amser sydd ei angen arnynt i ystyried y penderfyniadau hyn.

369. Yn olaf, rydym yn cydnabod y bydd rhai unigolion yn parhau i fod angen cefnogaeth trydydd partiön i wneud eu AAau - boed drwy sianel bapur neu sianel ddigidol. Gallai'r trydydd partiön hyn fod yn weithwyr proffesiynol neu'n ffrindiau a theulu, ac mae'n bwysig bod y ddau yn parhau i fod yn opsiwn. Dyma pam, wrth ddatblygu ein system ddigidol, rydym yn ystyried sut i weithredu mecanweithiau i drydydd partiön i gefnogi creu AA trwy integreiddio, fel y nodir o dan gynnig 7, ac ar gyfer ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n hwyluso dewis a rheolaeth y rhoddwr dros y broses, ac sy'n amddiffyn yn erbyn cam-drin. Byddwn yn parhau i archwilio sut y gellir cyflawni hyn orau.
370. Nid oedd y syniadau hyn yn ymddangos yn y cynigion ymgynghori oherwydd nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud newidiadau i ganllawiau, gwybodaeth ac o ran darparu gofod meddwl. Yn yr un modd, mae datblygu mecanwaith i gefnogi trydydd partiön yn angenrheidiol i adeiladu gwasanaeth AA sy'n gweithio yn annibynnol o'r hyn y mae'r deddfwriaeth o amgylch yr AA yn ei nodi. Fodd bynnag, maent i gyd yn rhan hanfodol o foderneiddio'r broses a sicrhau bod pobl yn deall y broses, a bydd yn cael ei ystyried pan fydd y datblygiadau'n cyrraedd y cam gwaith hwnnw. Yn bwysicaf oll, rydym yn bwriadu gwneud hyn trwy gydweithio a phrofi gyda'n rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd i sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn diwallu eu hanghenion.
371. Ar y pwyntiau a godwyd am arweiniad galluedd meddyliol ehangach, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad ar y cyd ar ddiwygiadau i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Y dyddiad cau yw 7 Gorffennaf 2022 a byddem yn annog unrhyw ymatebwyr i'n hymgynghoriad a oedd â barn benodol ar hyn i adolygu ac ymateb fel y gellir ystyried eu safbwyntiau ynghyd ag ymatebion eraill.

Ar y pwynt priodol yn ystod y gwaith datblygu, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddatblygu'r canllawiau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio a deall y gwasanaeth cofrestru AA foderneiddiedig.

Uno Ffurflenni

372. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid uno'r AAau ar gyfer iechyd a lles ac eiddo a materion. Awgrymodd rhai y gallai hyn wneud y broses yn gyflymach gan na fydd angen dyblygu gwiriadau ar draws y ddwy set o ddogfennau.

Ein hymateb

373. Cafodd AAau iechyd a lles ac eiddo a materion eu creu fel pwerau penodol er mwyn sicrhau bod eglurder ynghylch cwmpas y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud o dan bob pŵer. Maent hefyd yn golygu bod gan y rhoddwr y gallu i benodi gwahanol bobl ar gyfer gwahanol benderfyniadau, heb gymhlethdod gorfod gosod hyn allan heb gymorth yn yr AA. Felly mae'n bwysig iawn bod y rhain yn parhau i fod yn bwerau gwahanol.
374. Fodd bynnag, mae moderneiddio yn rhoi cyfle i edrych ar sut y gallwn ddileu'r dyblygu ymdrech i bobl sy'n ceisio penodi'r un person / pobl i'r ddau bŵer. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys llenwi'r un manylion, gyda rhai ychwanegiadau bach, ar ddau AA ar wahân. Mae gwasanaeth cyfredol *Make an LPA* SGC eisoes yn darparu'r gallu i ddefnyddio manylion presennol ar ail AA. Byddwn yn ystyried sut i sicrhau bod y nodwedd hon ar gael trwy sianel ddigidol yr AA foderneiddiedig.
375. O gofio y bydd angen gwneud newidiadau i'r sianel bapur i ganiatáu i bobl greu eu AAau ar bapur, wrth ddarparu cyflwyniadau digidol i SGC, gallwn hefyd ystyried a oes modd dileu'r dyblygu o'r broses bapur.

Er na fydd y llywodraeth yn uno'r gwahanol fathau o AAau, byddwn yn ystyried sut y gallwn ddileu dyblygu cofnodi data lle caiff gwybodaeth ei hailadrodd ar draws y ddau fath.

Angen Cyfreithiwr i wneud AA

376. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai fod yn orfodol i roddwyr ddefnyddio cyfreithiwr wrth wneud AA oherwydd bod hynny'n gwneud y broses yn gyflymach, yn datrys gwrthdaro teuluol ac yn gwella mesurau diogelu ar gyfer y rhoddwr. Fel y soniwyd yn y dadansoddiad ar gyfer cynnig 7, roedd rhai wedi dadlau y gallai lansio gwasanaeth symlach, haws ei ddefnyddio, negyddu'r angen i roddwyr geisio cymorth proffesiynol wrth wneud AA. Roeddent yn pryderu y gallai hynny wneud y rhoddwr yn agored i gam-drin a lleihau mesurau diogelu yn y broses. O ganlyniad, roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn y dylai'r llywodraeth wneud mwy i hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol wrth greu AAau.
377. Dadleuodd ymatebwyr eraill yn erbyn mandadu cyfranogiad cyfreithwyr proffesiynol, gyda rhai yn awgrymu y dylai fod yn orfodol bod cyfreithwyr yn hysbysu eu cleientiaid nad yw'n ofyniad cyfreithiol i wneud AA gyda chymorth cyfreithiol. Eu prif bryder oedd y costau ychwanegol y mae rhoddwyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gweithiwr cyfreithiol proffesiynol i wneud AA.

Ein hymateb

378. Fel y nodwyd yn yr ymateb o dan gynnig 1 ar rôl y tyst, ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad i ddarparwr tystysgrif fod yn gyfreithiwr neu'n weithiwr meddygol proffesiynol. Y rheswm a roddwyd gennym am hyn yw ein bod yn credu y dylai AAau fod yn gyraeddadwy, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb, ac ni ddylai mynediad at gyfreithiwr fod yn ofyniad neu'n rhwystr i hyn.
379. Byddai ei gwneud hi'n ofynnol bod cyfreithiwr yn cyfrannu at unrhyw ran o'r broses AA yn rhwystr sylweddol i'r rheini na allant fforddio'r ffioedd, ac sydd un ai'n methu neu'n gwrthod cael mynediad at wasanaethau cyfreithwyr. Ar hyn o bryd, mae SGC yn darparu arweiniad i roddwyr ynghylch pryd y dylid ystyried cyngor cyfreithiol, e.e. oherwydd cymhlethdod yn eu materion ariannol, ond mae'n amlwg nad yw hynny'n ofyniad.
380. Wrth i'r gwasanaeth gael ei ddatblygu, bydd angen i SGC adolygu a newid ei arweiniad er mwyn alinio â'r gwasanaeth newydd. Bydd hynny'n darparu cyfleoedd i deilwra'r cyngor a ddarperir yn well ar adegau priodol, ond bydd y bwriad yn aros yr un fath, sef nad yw cyfreithiwr yn ofynnol i wneud AA, er y gallai rhai unigolion fod eisiau neu angen gweld cyngor cyfreithiol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

Ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad i ddefnyddio cyfreithiwr. Fodd bynnag, bydd SGC yn parhau i edrych ar y cyfleoedd mwyaf addas i ddarparu gwybodaeth ar gyrchu cyngor cyfreithiol yn y broses AA wrth i'r gwaith datblygu barhau.

Bondiau Diogelwch

381. Mae bondiau diogelwch yn fesur diogelu sy'n bodoli o fewn y broses dirprwyaeth. Maent yn ofynnol pan fydd dirprwyaeth ariannol yn cael ei wneud gan y Llwyd Gwarchod i ddiogelu asedau'r unigolyn os bydd yr unigolyn dirprwyedig yn eu camddefnyddio. Mae hyn yn bwysig gyda dirprwyaeth oherwydd nid P (yr unigolyn sydd heb alluedd) yw'r un sy'n gwneud y penderfyniad i benodi'r dirprwy. Roedd rhai awgrymiadau y dylai'r llywodraeth wneud bondiau diogelwch yn ofyniad gorfodol i AAau hefyd, er mwyn diogelu asedau'r unigolyn os bydd yr atwrnai yn camddefnyddio cronfeydd ariannol y rhoddwr.

Ein hymateb

382. Mae'r llywodraeth yn cytuno y gallai bondiau diogelwch ddarparu mesur diogelu ychwanegol i roddwr, fel y maent yn gwneud mewn dirprwyaethau. Fodd bynnag, y gwahaniaeth allweddol rhwng dirprwyaeth ac AA yw bod yn rhaid i roddwyr sy'n gwneud AA fod â'r galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am yr AA. O ganlyniad, wrth wneud yr AA, mae ganddynt y dewis rhydd i benderfynu pwy y maent yn ymddiried ynddo i'w benodi fel atwrnai a chwmpas y pŵer y maent am ei roi iddo. Rydym eisoes wedi siarad am yr angen i barchu'r rhyddid hwn o ddewis, pan

drafodwyd y potensial i gyflwyno gwiriadau cefndir ar atwrneiod, ac fe wnaethom wrthod y cynnig hwnnw am y rheswm hwn.

383. Yn ogystal, mae bondiau AA yn dal i fod yn gynnyrch cymharol newydd. Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw darparwyr y cynhyrchion hyn. Ni fyddai'n briodol i'r llywodraeth greu deddfwriaeth sy'n gyrru tua 485,000 o roddwyr yn flynyddol at wasanaethau a ddarperir gan lond llaw o gwmnïau. Ar ben hynny, oherwydd y diffyg cystadleuaeth, yn dibynnu ar amgylchiadau rhoddwr penodol, gallai'r gost fod yn afresymol i rai ohonynt. Mae angen darpariaeth marchnad a chystadleuaeth ehangach i sicrhau bod rhoddwyr yn cael dewis digonol i ddiwallu eu hanghenion am bris y gallent ei fforddio cyn y gallwn ystyried gwneud hyn yn orfodol.
384. Am y rhesymau hyn, ar hyn o bryd credwn mai penderfyniad y rhoddwr yw cymryd bond diogelwch ai peidio. I hwyluso hyn, mae angen mwy o wybodaeth ar fodolaeth bondiau diogelwch a'r mesurau diogelu y maent yn eu darparu, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac i ystyried yr opsiynau hyn. Felly:

Bydd SGC yn darparu mwy o wybodaeth i roddwyr ar yr opsiwn o fondiau diogelwch a'r mesurau diogelu y maent yn eu darparu fel rhan o broses foderneiddiedig.

Copïau ardystiedig o AAau

385. Fel rhan o'r ymgynghoriad, awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai'r broses ar gyfer cael copïau ardystiedig o AA gael ei moderneiddio hefyd. Dywedodd ymatebwyr y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i ganiatáu i Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol Siartredig ardystio copïau o AAau.

Ein hymateb

386. O dan adran 3 o Ddeddf Pwerau Atwrnai 1971 (Deddf POA), gall copi o atwrneiaeth gael ei lofnodi gan naill ai rhoddwr y pŵer; cyfreithiwr; unigolyn a awdurdodwyd i gynnal gweithgareddau notariol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007; neu frocer stoc yn unig. Mae'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol wedi newid yn sylweddol ers i'r Ddeddf POA gael ei phasio yn 1971. Mae tua 20,000 o aelodau CILEX (Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol) yn y DU ar hyn o bryd – gyda rhai ohonynt yn cyflawni'r un swyddogaethau â chyfreithwyr.
387. Er bod y newidiadau hyn y tu hwnt i gwmpas moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol, rydym yn awyddus i gefnogi ehangu cyfleoedd i weithwyr proffesiynol CILEX, a byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r mater hwn fel darn annibynnol o waith.

Casgliad

388. I gloi, mae'r llywodraeth wedi ystyried y safbwyntiau a'r cynigion ychwanegol a awgrymwyd gan ymatebwyr ac yn mynd i'r afael â'r rhain fel a ganlyn:

- **Bydd SGC yn parhau i weithio tuag at adfer o Covid-19 a dychwelyd at wasanaeth arferol.**
- **Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i sicrhau bod sianel bapur yn parhau i fod ar gael i'r rheini sydd ei hangen.**
- **Bydd SGC yn parhau i ddatblygu a chyflwyno'r gwasanaeth *Use an LPA*.**
- **Mae AAau diwygiadwy yn parhau i fod tu hwnt i gwmpas moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol.**
- **Ar y pwynt priodol yn ystod y gwaith datblygu, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddatblygu'r canllawiau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio a deall y gwasanaeth cofrestru AA moderneiddiedig.**
- **Er na fydd y llywodraeth yn uno'r gwahanol fathau o AAau, byddwn yn ystyried sut y gallwn ddileu dyblygu cofnodi data lle caiff gwybodaeth ei hailadrodd ar draws y ddau fath.**
- **Ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad i ddefnyddio cyfreithiwr. Fodd bynnag, bydd SGC yn parhau i edrych ar y cyfleoedd mwyaf addas i ddarparu gwybodaeth ar gyrchu cyngor cyfreithiol yn y broses AA wrth i'r gwaith datblygu barhau.**
- **Bydd SGC yn darparu mwy o wybodaeth i roddwyr ar yr opsiwn o fondiau diogelwch a'r mesurau diogelu y maent yn eu darparu fel rhan o broses foderneiddiedig.**

Crynodeb o gwestiynau cydraddoldeb

389. Mae'r Datganiad am Gydraddoldebau sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghorol hon yn ystyried effeithiau'r cynigion, ochr yn ochr â'r angen i:
- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan, neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
 - hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd;
 - meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd.
390. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig yw hil, rhyw, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil.
391. Trwy gydol ein gwaith, a'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried yn ofalus sut y gall ein cynigion i foderneiddio AAau effeithio ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, ac fe wnaethom ni gynnwys dau gwestiwn yn yr ymgynghoriad i helpu i asesu effaith ein cynigion ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

392. Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd dau gwestiwn i helpu i asesu effaith ein cynigion ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.
393. Cwestiwn 15: A ydym ni wedi nodi'r nodweddion gwarchodedig cywir y gellid effeithio arnynt gan y diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn?

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran
Ydych	93	85%
Nac ydych	15	14%
Ddim yn gwybod	2	2%

ES ffigur 1 ymatebion i C15

394. O'r ymatebion uchod, gwnaeth 18 ddarparu sylwadau am nodweddion nad ydynt yn warchodedig. Soniodd 6 ymateb arall am nodweddion nad ydynt yn warchodedig yn unig.

395. Y prif nodweddion nad ydynt yn warchodedig a nodwyd oedd gallu digidol a mynediad digidol.
396. Cwestiwn 16: Yn eich barn chi, beth fydd effeithiau cydraddoldeb yr opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio ar unigolion sydd â nodwedd warchodedig?

Nodwedd	Nifer yr ymatebion
Oed	94*
Anabledd	21
Hil	5
Rhyw	1
Crefydd	1
Ailbennu rhywedd	1
Cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil	Dim ymatebion i unrhyw un o'r nodweddion hyn
Nodweddion nad ydynt yn warchodedig	
Sgiliau digidol neu lythrennedd digidol	49*
Dosbarth cymdeithasol	10
Arall	15
Dim effaith	6

ES ffigur 2 ymatebion i C16

* Chwyddwyd yr ymatebion hyn gan ymatebion ymgyrch

397. Nododd yr holl ymatebwyr eu safbwyntiau ar yr effeithiau posibl, yn hytrach na darparu tystiolaeth ar effeithiau penodol.
398. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o ymatebion ar oed, a'r pryder mwyaf oedd y gall pobl hŷn fod yn fwy agored i gael eu cam-drin os gwnaed eu AAau yn ddigidol. Cafodd y pryder hwn ei chwyddo gan yr ymatebion ymgyrch.
399. Yng nghyd-destun oed ac anabledd, soniodd ymatebwyr y gallai diffyg mynediad at dechnoleg rwystro eu mynediad at AA.

Yr effaith ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig

400. Mae'r safbwyntiau manylach a roddwyd ar bob nodwedd warchodedig fel a ganlyn:

Oed

401. Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai'r cynigion yn effeithio ar unigolion hŷn ond ni wnaethant nodi sut. Mae mwyafrif y rhoddwyr presennol dros 65 oed. Ein hasesiad yw y bydd llawer o effeithiau gwasanaeth moderneiddiedig yn gadarnhaol ar gyfer y grŵp hwn. Er enghraifft, proses ymgeisio fwy syml a gwell mesurau diogelu.
402. Er ein bod yn cydnabod efallai nad oes gan rai pobl hŷn ddogfennau adnabod traddodiadol (e.e. pasbort neu drwydded yrru), neu fynediad at dechnoleg, credwn ein bod wedi nodi ffyrdd o liniaru hyn. Er enghraifft, trwy ddarparu ystod eang o opsiynau hunaniaeth a chynnal sianel bapur ar gyfer y rhai sydd ei hangen. Am y rheswm hwn, nid ydym ni o'r farn y bydd ein cynigion yn effeithio ar y grŵp hwn yn anghymesur.

Anabledd

403. Amlygodd rhai ymatebwyr effeithiau cadarnhaol posibl y cynigion. Er enghraifft, gallai gwasanaeth digidol a ddefnyddir gyda thechnoleg gynorthwyol, roi mwy o annibyniaeth a rheolaeth i bobl a fyddai fel arall yn gorfod dibynnu ar gefnogaeth pobl eraill i wneud AA bapur.
404. I'r rheini sydd heb fynediad at y dechnoleg angenrheidiol, bydd yr opsiwn o ddefnyddio sianel bapur yn parhau. Bydd pobl hefyd yn gallu dewis o amrywiaeth o opsiynau hygyrch i gadarnhau eu hunaniaeth.
405. Ein barn gyfredol yw na fydd y cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl ag anabledau.

Hil

406. Mae SGC yn ymwybodol bod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael AA. Mae'r gwaith yn parhau i fynd i'r afael â hyn.
407. Nododd rhai ymatebwyr bod sgiliau digidol efallai yn is ymhlith pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu nad yw hynny'n wir.
408. Ein barn gyfredol yw na fydd y cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon. Gallai AA foderneiddiedig gynnig cyfleoedd i ehangu mynediad i grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Rhyw

409. Gan fod menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn rhoddwyr ar AA, ac yn llai tebygol na dynion i gael mynediad digidol, gallai ein cynigion gael mwy o effaith ar

fenywod. Credwn ein bod wedi nodi ffyrdd o liniaru hyn, felly bernir bod yr effaith yn gymesur â nodau cyffredinol moderneiddio AAau.

Nodweddion gwarchodedig eraill: crefydd a chred, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth.

410. Ein dealltwriaeth gyfredol yw na fydd ein cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn.

Lliniaru a gwaith sy'n mynd rhagddo

411. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r prosiect moderneiddio AA, gan nad oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd o effeithiau negyddol anghymesur ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu, fel arall, mae mesurau lliniaru priodol yn cael eu hystyried a'u datblygu.

412. Yn ogystal, efallai y bydd AA foderneiddiedig yn cael effaith gadarnhaol ar rai o'r grwpiau hyn.

413. Lle mae effeithiau negyddol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, mae'r rhain yn gysylltiedig yn bennaf â:

- mynediad digidol a sgiliau digidol;
- mynediad at y dogfennau sy'n angenrheidiol i gadarnhau hunaniaeth;
- ac, i raddau llai, cam-drin unigolion sy'n agored i niwed.

414. I liniaru'r uchod:

- byddwn yn cynnal sianel bapur ar gyfer creu AAau;
- byddwn yn cydweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl i wneud AAau;
- byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth newydd yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gynorthwyol;
- rydym yn gweithio i sicrhau bod y broses o wirio hunaniaeth mor hygyrch ag sy'n bosibl;
- rydym yn cynnig gwella mesurau diogelwch er mwyn gwarchod yn erbyn cam-drin a gorfodaeth.

415. Trwy waith ymchwil, data a chydweithredu, byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r effaith y gall AA foderneiddiedig ei gael ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig.

416. Gallwch ddarllen ein Datganiad am Gydraddoldebau llawn yn Atodiad C, isod.

Asesiad Effaith

Asesiad Effaith

417. Mae ein hasesiad effaith yn dangos bod aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud AAau, unigolion eraill sy'n ymwneud â chreu a chofrestru AAau, y rheini sy'n darparu cymorth cyfreithiol mewn perthynas ag AAau, grwpiau elusennol sy'n cefnogi pobl sy'n gwneud AAau a thrydydd partïon sy'n rhyngweithio ag AAau, neu sydd â phryderon amdanynt, yn debygol o gael eu heffeithio'n arbennig. Yn ogystal, bydd SGC, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Llys Gwarchod, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y GIG a Llywodraeth Cymru yn cael eu heffeithio.

418. Mae Asesiad Effaith wedi ei gynhyrchu.

Casgliad a chamau nesaf

419. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn am yr ymatebion niferus a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, ac roedd yr ansawdd yn uchel yn gyffredinol. Mae Atwrneiaethau Arhosol yn arf hanfodol wrth baratoi unigolion ar gyfer y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd moderneiddio'r broses ar gyfer creu a chofrestru AA yn cael effaith sylweddol ar lawer o bobl.
420. Yn unol â'r hyn a sefydlwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, nod y prosiect moderneiddio AA yw:
1. Cynyddu mesurau diogelu, yn enwedig i'r rhoddwr;
 2. Gwella'r broses o wneud a chofrestru AA i roddwyr, atwrneiod a thrydydd partïon;
 3. Sicrhau cynaliadwyedd SGC a sicrhau bod AAau yn fforddiadwy i bobl o bob rhan o gymdeithas.
421. Roedd yr ymgynghoriad yn ein galluogi i brofi set o gynigion i lywio'r ffordd ymlaen, sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Caiff y cynigion y byddwn yn eu datblygu a'r camau nesaf eu crynhoi isod.

Y cynigion y bydd y Llywodraeth yn eu datblygu:

1. Rôl y tyst:

422. Roedd hwn yn ystyried a oes gwerth i rôl y tyst ac, os oes, sut i gadw'r gwerth hwn o fewn y gwasanaeth yn y dyfodol.
423. Roedd y cyhoedd yn gadarnhaol i raddau helaeth o ran y syniad o ddefnyddio technoleg i gyflwyno tystiolaeth o weithredu. Fodd bynnag, roedd gweithwyr proffesiynol yn amheus ac roedd yn well ganddynt gynyddu rôl y darparwr tystysgrif. Ar ôl ystyried y ddau ddull, gallai fod gwahaniaethau rhwng sut mae rhoddwyr ac atwrneiod yn gweithredu'r AA yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd gweithwyr proffesiynol eisiau cadarnhad o beth fydd statws yr AA yn y dyfodol.
424. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn sicrhau bod ffordd yn bodoli i'r **rhoddwr gyflwyno tystiolaeth o weithredu'r AA**. Bydd yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hynny. O dan gynnig 1, bydd y llywodraeth yn:

- Parhau i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg i ddisodli'r tyst, gyda swyddogaeth debyg (digidol) o fewn y sianel ddigidol.

- Archwilio a ddylid cyfuno rôl y darparwr tystysgrif a'r tyst mewn perthynas â gweithredu'r AA gan y rhoddwr.
- Ystyried a yw cadw mecanwaith i ddangos tystiolaeth bod yr atwrnai wedi gweithredu'r ddogfen yn darparu mesur diogelu i AA.

425. Gall bwrw ymlaen ag archwiliad i'r darparwr tystysgrif fel tyst, a thechnoleg fel tyst, olygu y bydd gofynion tystio i roddwyr ac atwrneiod yn wahanol mewn gwasanaeth yn y dyfodol. Er gwaethaf y newidiadau posibl hyn, byddwn yn sicrhau bod yr AA yn parhau i gael ei thrin fel gweithred, hyd yn oed os gwneir newidiadau i'r gofynion ar gyfer tystio AA.
426. Ar wahân, byddwn yn egluro rôl y darparwr tystysgrif o ran asesu dealltwriaeth y rhoddwr o'r AA a diogelu rhag twyll, cam-drin a phwysau gormodol. Gwneir hyn trwy ganllawiau a chymorth ychwanegol i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl hon.
427. **Ni** fydd y llywodraeth yn cyflwyno gofyniad bod y darparwr tystysgrif yn weithiwr proffesiynol.

2. Rôl ceisio:

428. Roedd hwn yn edrych ar ba bwrpas sydd i gais o fewn y broses o greu a chofrestru AA, a phwy all wneud cais i gofrestru un.
429. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cael gwared ar y gallu i ohirio cofrestriad. Fodd bynnag, cododd nifer sylweddol bryderon am yr effaith y gallai hyn ei chael ar ddewis a rheolaeth y rhoddwr dros y broses.
430. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn parhau i archwilio dichonoldeb y ddau ddull, cyn dod i benderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen.

2a Gweithredu yn cychwyn cofrestriad

2b Gohirio cofrestriad

3. Cylch gwaith SGC:

431. Roedd hwn yn ystyried ffyrdd o ehangu pŵer SGC mewn deddfwriaeth i ddarparu eglurder ar y gwiriadau y gall eu cyflawni a'r camau y gall eu cymryd o ganlyniad i'r gwiriadau hynny.
432. Roedd ymatebwyr o blaid gwiriadau hunaniaeth a chyda bwrw ymlaen â'r dull o wiriadau amodol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion ddarparu un neu

gyfuniad o wybodaeth hunaniaeth. Byddai'r wybodaeth a fyddai'n cael ei derbyn yn cael ei nodi'n glir ar gyfer pob parti.

433. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn:

Bwrw ymlaen i ddatblygu system o wiriadau amodol (dull 3a), ac nid gwiriadau disgresiynol.

434. Bydd hynny'n cynnwys:

- Ystyried a yw gwiriadau ar yr atwrnai yn angenrheidiol ac yn briodol pan gânt eu hystyried ochr yn ochr â mecanweithiau diogelu eraill sy'n bodoli ar draws y broses AA, gan gynnwys pan fydd yr AA yn cael ei defnyddio.
- Ceisio cadarnhau hunaniaeth y rhoddwr a'r darparwr tystysgrif yn y gwasanaeth moderneiddiedig.
- Ystyried sut i gynnwys ystod o opsiynau hunaniaeth er mwyn sicrhau mynediad i bawb.

435. Ni fydd y llywodraeth yn cyflwyno gwiriadau addasrwydd ychwanegol ar atwrnai (e.e. gwiriadau cefndir troseddol).

4. Sut mae gwrthwynebu:

436. Ar hyn o bryd, mae'r deddfwriaeth yn nodi gwahanol brosesau ar gyfer gwahanol fathau o wrthwynebiadau. Archwiliodd hyn sut i egluro a symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer gwrthwynebu cofrestriad AA.

437. Roedd ymatebwyr o blaid symleiddio'r broses drwy fynnu bod yr holl wrthwynebiadau yn mynd i SGC yn gyntaf, ac y dylai SGC fod â'r pŵer i atgyfeirio'r achos yn uniongyrchol at y Llys Gwarchod lle'r oedd hyn yn angenrheidiol, er enghraifft i ddiogelu'r rhoddwr. Roedd ymatebwyr hefyd yn agored i fanteision caniatáu i ystod ehangach o bobl godi gwrthwynebiadau.

438. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn:

- Bwrw ymlaen gyda dull 4a – **SGC i dderbyn pob gwrthwynebiad.**

439. Bydd hwn yn cynnwys diwygio deddfwriaeth er mwyn:

- caniatáu gwrthwynebiadau i gofrestrriad AA gan unrhyw un; a
- rhoi'r pŵer i SGC i atgyfeirio achosion yn uniongyrchol at y Llys Gwarchod, yn ôl yr angen.

5. Pa bryd i wrthwynebu:

440. Nod y cynnig hwn oedd ei gwneud yn haws i'r rheini sydd am godi gwrthwynebiad i wneud hynny, trwy edrych ar ble yn y broses y gellid codi gwrthwynebiadau.

441. Roedd ymatebwyr eisiau cymysgedd o fanteision o'r tri dull, ond roeddent yn glir y dylai'r cyfnod gwrthwynebu aros fel mesur diogelu.

442. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn edrych ar system sy'n caniatáu **gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod cyn creu'r AA, tan fod yr AA yn cael ei chofrestru:**

- Archwilio dull i bobl godi gwrthwynebiadau yn ystod cyfnod creu'r AA.
- Ystyried cyflwyno system sy'n caniatáu i wrthwynebiadau gael eu cofrestru gan drydydd parti cyn cychwyn y broses AA. Bydd y llywodraeth yn profi dichonoldeb system o'r fath ac yn ystyried pa drydydd partïon y dylid cael yr hawl i wrthwynebu.
- Ymrwymo i gadw cyfnod aros statudol fel rhan o'r broses wrthwynebiadau ar gyfer cofrestru AA ac fel cyfnod ailfeddwl i'r rhoddwr.

443. O dan y dull hwn, byddwn yn archwilio i hyd priodol y cyfnod aros statudol mewn gwasanaeth yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau eraill i'r broses wrthwynebiadau ar draws y sianelau digidol a phapur.

444. **Ni** fydd y llywodraeth yn ailgyflwyno gofyniad i ddarparu enwau o unigolion i'w hysbysu o AA.

6. Mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr:

445. Roedd hwn yn ystyried ffyrdd o gefnogi cyfreithwyr i ddefnyddio gwasanaeth moderneiddiedig newydd trwy ddefnyddio systemau digidol integredig a gofynion deddfwriaethol.

446. Roedd ymatebwyr yn bennaf yn erbyn ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio gwasanaeth digidol. Roedd mathau eraill o ymatebwyr yn awyddus i ddeall a fyddai'r gwasanaeth integredig hefyd ar gael iddynt ei ddefnyddio.

447. Mewn ymateb, bydd y llywodraeth yn:

- bwrw ymlaen gyda'r gwaith o **integreiddio** sianel AA ddigidol gyda systemau rheoli dogfennau ac achosion. Fodd bynnag, bydd hefyd yn sicrhau bod digon o bwerau o fewn y ddeddfwriaeth i ni fandadu gweithwyr proffesiynol cyfreithiol a reoleiddir i ddefnyddio'r gwasanaeth digidol yn y dyfodol pe bai angen.

448. Mae mwy o wybodaeth am effeithiau amcangyfrifedig y cynigion uchod yn cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Cynigion na fydd y Llywodraeth yn eu datblygu:

Cyflymder y gwasanaeth

449. Roedd hwn yn edrych a oedd angen gwasanaeth hyd yn oed yn gyflymach ac, os felly, sut i gydbwyso hynny yn erbyn y mesurau diogelu sydd eu hangen a rhwyddineb mynediad.

450. Er bod lleiafrif sylweddol o ymatebwyr o'r farn y byddai gwasanaeth brys yn fuddiol, roedd pryder amlwg am gymhlethdodau logistaidd a gweithredol gweithredu gwasanaeth o'r fath. Byddai hyn o bosibl yn cael ei gymhlethu gan y lefel uchel o ddiddordeb ac angen am wasanaeth o'r fath.

Mewn ymateb, **ni** fydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen gyda gwasanaeth brys.

Ymrwymadau arall:

451. Cyflwynodd rhai ymatebwyr safbwyntiau arall nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion, ond a oedd yn haeddu ystyriaeth bellach. Trafodwyd y rhain yn Adran 8 y ddogfen hon, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

452. **Perfformiad presennol SGC:** Codwyd pryderon ynghylch perfformiad, prosesau a lefel gwasanaeth cyfredol SGC. Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar SGC ac mae'n parhau i weithio i sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn cwrdd â thargedau.

453. **Proses bapur:** Awgrymodd ymatebwyr y dylai proses bapur amgen redeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth digidol, gyda gwelliannau tebyg a wnaed i fesurau diogelu er mwyn sicrhau cydraddoldeb â'r sianel ddigidol. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod sianel bapur ar gael ar gyfer y rhai sydd ei hangen.

454. **Defnyddio'r AA:** Soniodd sawl ymatebydd am yr anawsterau a wynebwr wrth geisio defnyddio AA gyda thrydydd partiön fel banciau a gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol. I wneud defnyddio'r AA yn haws, bydd SGC yn parhau i ddatblygu a chyflwyno gwasanaeth *Use of LPA*.

455. **AAau Diwygiadwy:** Teimlai rhai ymatebwyr fod AAau yn rhy anodd i newid ar ôl iddynt gael eu cofrestru, ac roeddent o'r farn y dylai fod yn haws newid y rhain yn y dyfodol. Mae AAau diwygiadwy yn parhau i fod tu hwnt i gwmpas moderneiddio Atwrneiaeth Arhosol oherwydd yr angen i sicrhau bod y manteision yr ydym yn bwriadu eu gwireddu trwy fwy o fesurau diogelu, gwell mynediad a chynaliadwyedd yn cael eu cyflawni yn gynt.
456. **Arweiniad ac addysg:** Awgrymodd llawer o ymatebwyr welliannau ehangach y gellid eu gwneud i ganllawiau AA a Galluedd Meddyliol. Ar yr adeg briodol yn y datblygiad, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddatblygu'r canllawiau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio a deall y gwasanaeth cofrestru AA foderneiddiedig.
457. **Uno Ffurflenni:** Teimlai rhai ymatebwyr y gellid gwaredu dyblygu ymdrech trwy uno'r ddau fath o AA. Er na fyddwn yn uno'r gwahanol fathau o AA, byddwn yn ystyried sut y gallwn ddileu dyblygu cofnodi data lle caiff gwybodaeth ei hailadrodd ar draws y ddau fath.
458. **Angen Cyfreithiwr i wneud AA:** Awgrymodd rhai y dylai fod yn orfodol i roddwyr ddefnyddio cyfreithiwr wrth wneud AA, neu y dylid gwneud mwy i hyrwyddo cyfranogiad gwasanaethau cyfreithiol. Ni fyddwn yn gwneud y defnydd o gyfreithwyr yn orfodol, ond bydd SGC yn parhau i edrych ar y cyfleoedd mwyaf priodol i ddarparu gwybodaeth ar gyrchu cyngor cyfreithiol yn y broses AA wrth i'r datblygiadau barhau.
459. **Bondiau diogelwch:** Awgrymodd rhai y dylai'r llywodraeth wneud bondiau diogelwch yn ofyniad gorfodol i AAau. Er ein bod yn derbyn y gallai hyn ddarparu amddiffyniad ychwanegol, y rhoddwyr ddylai ystyried hyn wrth benderfynu pwy y maent yn ymddiried ynddo i weithredu ar eu rhan. O ganlyniad, byddwn yn darparu mwy o wybodaeth i roddwyr ar yr opsiwn o fondiau diogelwch a'r amddiffyniad y gallent ei ddarparu i roddwyr fel rhan o broses foderneiddiedig.
460. **Copiâu ardystiedig o AAau:** Roedd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad eisiau i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei diwygio i ganiatáu i Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol Siartredig ardystio copiâu o AAau. Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r mater hwn fel darn annibynnol o waith.

Y camau nesaf:

461. Bydd gweithredu'r newidiadau a ddisgrifir yn gofyn am newidiadau i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth pan fydd amser seneddol yn caniatáu.
462. Yn olaf, os hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am y prosiect hwn, gallwch adolygu'r cynnydd trwy ymweld â gwefan y tîm:
<https://sites.google.com/digital.justice.gov.uk/opgmlpa/home>
463. Os hoffech ein helpu i ddatblygu'r gwasanaeth hwn, un ai trwy waith cyd-ddylunio, profi defnyddwyr neu fathau eraill o ymchwil, gallwch fynegi eich diddordeb mewn un o ddwy ffordd isod:
1. Rydw i'n aelod o'r cyhoedd: <https://eu.surveymonkey.com/r/GGJ9NMQ>
 2. Mae gen i ddiddordeb proffesiynol mewn AAau:
<https://eu.surveymonkey.com/r/BL2CRVX>
464. Er na allwn addo ymateb ar unwaith, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw fel y gallwn gysylltu â chi pan fyddwn yn datblygu meysydd sy'n berthnasol i'ch diddordebau a dulliau cyswllt.

Egwyddorion yr ymgynghoriad

465. Nodir yr egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgyngoriad

1. Adobe
2. Age Partnership
3. Age UK
4. Cymdeithas Alzheimer's
5. Anthony Gold Solicitors LLP
6. Cymdeithas Yswirwyr Prydain
7. Cyngor y Bar
8. Cymdeithas Gweithwyr
Cymdeithasol Prydain CYMRU
9. Canterbury Oast Trust
10. Carers Northumberland
11. Charles Russell Speechley LLP
12. Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr
Cyfreithiol
13. Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro
14. Corner Stone Wills
15. Countrywide Tax & Trust
Corporation Ltd
16. Cymdeithas y Bar y Llys Gwarchod
17. EightFourTwo
18. Enable Law
19. EPOQ
20. Equity Release Experts, The
21. Financial Vulnerability Task Force
22. Franklins Solicitors
23. Gentle Dusk
24. Institute of Professional Will Writers
25. J M Allen Solicitors Ltd
26. Knowsley Council
27. Cymdeithas y Cyfreithwyr
28. Legal & General Group PLC
29. Legal Services Consumer Panel
30. M2M Community Solicitors LLP
31. MenCap
32. Meridian Private Client LLP
33. Mills-Reeve LLP
34. My Wishes
35. Mydex CiC
36. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
37. Parkinson's UK
38. Penningtons Manches Cooper LLP
39. Iechyd Cyhoeddus Cymru
40. Rose & Rose Solicitors LLP
41. Royal Trinity Hospice
42. Society of Licensed Conveyancers,
The
43. Society of Trust and Estate
Practitioners
44. Society of Will Writers, The
45. Sole Practitioners Group
46. Solicitor for the Elderly
47. Transparency Task Force
48. UK Finance
49. Wedlake Bell LLP
50. Comisiynydd y Gymraeg
51. Wrigleys LLP
52. Yoti & The Post Office
53. Zen Legal

Atodiad B: Prawf Iaith Gymraeg

1. O'r 313 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 17 o'r rhain gan bobl neu sefydliadau a ddywedodd eu bod yn byw neu wedi'u lleoli yng Nghymru. Cododd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn bwyntiau tebyg i'r rhai a welwyd gan ymatebwyr yn Lloegr, gydag ychydig iawn o sylwadau penodol ar effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru, darparu gwasanaeth Cymraeg neu ddarpariaeth iaith Gymraeg. Fodd bynnag, roedd dau ymateb, a gododd bwyntiau sy'n benodol i bryderon cysylltiedig â Chymru sydd angen ymateb mwy uniongyrchol a manwl. Y cyntaf oedd yr ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd yr ail yn ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn codi pryderon am fynediad digidol yng Nghymru.
2. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru ddolen at becyn dylunio dwyieithog. Gan na ddarparwyd unrhyw ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori, nid yw hyn wedi cael ei drin fel ymateb i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, diolchwn iddynt am ddarparu'r wybodaeth hon, sydd bellach wedi cael ei rhannu ar draws y tîm sy'n gweithio ar ddatblygu gwasanaeth moderneiddiedig. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith moderneiddio barhau.
3. Gan droi at y ddau ymateb, yn ddealladwy, roedd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar bwysigrwydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn cael ei ddarparu yn yr iaith Gymraeg. Yn benodol, gofynnodd am ragor o wybodaeth am sut mae'r llywodraeth yn bwriadu datblygu gwasanaeth iaith Gymraeg. Tynnodd sylw at yr angen i ddatblygu system ddwyieithog, yn hytrach nag ôl-osod gwasanaeth Cymraeg i un Saesneg. Yn ogystal, gofynnodd am sicrwydd y byddai gwasanaeth Cymraeg ar gael ar yr un pryd ag un Saesneg.
4. Yn gyntaf, rydym wedi bod yn glir o ddechrau'r prosiect hwn y bydd unrhyw wasanaeth moderneiddiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid yn unig oherwydd bod hyn yn ofyniad o ryddhau unrhyw wasanaeth llywodraeth ganolog, ond hefyd oherwydd ei fod yn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth cyfartal i bawb ledled Cymru a Lloegr.
5. O ran datblygu gwasanaeth iaith Gymraeg, rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw wasanaeth yn y dyfodol ddiwallu anghenion Cymru, yn ogystal â rhai Lloegr, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod darpariaeth a chynnwys cyfrwng Cymraeg yn cael eu datblygu ar y cyd â'r gwasanaeth Saesneg. Am y rheswm hwn, trwy ein gwaith datblygu cynnar, rydym wedi cynnwys cynrychiolwyr o Gymru yn ein gweithgor rhanddeiliaid ac rydym ni wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru. Roeddem yn awyddus i barhau â hyn trwy'r ymgynghoriad ac felly, i gyd-fynd â'r fersiwn

Gymraeg o'r ddogfen, hyrwyddodd SGC y broses trwy rannu cynnwys cyfrwng Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol a buom yn gweithio gyda'n cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru i ddosbarthu gwybodaeth bellach i randdeiliaid yng Nghymru. Roedd hynny'n cynnwys gwybodaeth am ein digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, a fynychwyd yn dda gan randdeiliaid yng Nghymru, gan ganiatáu i ni gael sesiynau grŵp cyfrwng Cymraeg i archwilio i'r materion a oedd yn benodol i fynychwyr o Gymru.

6. Er mwyn parhau â'r nod hwn, wrth i ni symud o'n cam alffa ddigidol (lle rydym yn profi syniadau a chysyniadau) i beta (lle rydym yn datblygu ac yn adeiladu'r gwasanaeth), byddwn yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid o Gymru i ddeall eu hanghenion, a datblygu sgriniau Cymraeg ar gyfer profion cynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i brofi ac ailadrodd cynnwys Cymraeg. Bydd hefyd yn golygu y gallwn dreulio mwy o amser yn mireinio terminoleg ac iaith gyfreithiol fel bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a'u helpu i ddeall AAau.
7. Mae un o wasanaethau eraill SGC wedi cynnal gwaith ymchwil defnyddwyr llwyddiannus gyda siaradwyr Cymraeg. Mae hyn wedi galluogi'r tîm i fireinio terminoleg i ddiwallu anghenion Cymraeg. Rydym yn obeithiol, er ein bod wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma o ran sicrhau cyfranogwyr o Gymru yn ein profion defnyddwyr, y byddwn yn gallu datrys y mater hwn fel y gallwn sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu bwydo i mewn yn uniongyrchol i ddatblygiadau.
8. Yn olaf, mewn perthynas ag amseriad darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, gallwn gadarnhau pan fydd y gwasanaeth yn mynd yn fyw, y bydd gwasanaeth Cymraeg a Saesneg ar gael ar yr un pryd. Gobeithiwn y bydd hyn yn tawelu meddwl y Comisiynydd bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.
9. Gan droi at yr ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Roedd yr ymateb hwn yn cynnwys nifer o faterion a oedd yn peri pryder i'r Comisiynydd, megis amddiffyn pobl hŷn rhag cam-drin ariannol, gwella'r broses o wneud cais i gofrestru AA, a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr ail a'r trydydd o'r rhain yn cyd-fynd â materion a godwyd gan ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad ac felly aethpwyd i'r afael â nhw yn y dadansoddiad ym mhrif gorff yr ymateb.
10. O ran amddiffyn yr henoed rhag cam-drin ariannol, roedd y Comisiynydd yn pryderu am y defnydd o dechnoleg, ac yn benodol y defnydd o lofnodion electronig i ddangos tystiolaeth o weithredu AA. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth a data ar nifer y bobl hŷn yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio technoleg neu nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd. Roedd hwn hefyd yn bryder a godwyd yn benodol gan randdeiliaid Cymreig yn ein gweithdai ymgysylltu. Yn gyntaf, hoffai'r llywodraeth ddiolch i'r

Comisiynydd am gynnwys y dystiolaeth hon. Mae hyn yn amhrisiadwy i'n datblygiad o wasanaeth sy'n diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr orau, gan gynnwys y rheini yng Nghymru, a bydd yn helpu i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth, fel oedd bwriad yr ymgynghoriad hwn.

11. Ar y mater hwn, mae'r llywodraeth yn cadarnhau y bydd sianeli papur ar gyfer creu AAau yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd eu hangen, gan gynnwys yn Gymraeg. Fel yr amlinellwyd mewn man arall yn y ddogfen ymateb, rydym hefyd yn ystyried dewisiadau amgen i'r dull hwn. Rydym wedi ymrwymo i edrych a ddylai'r darparwr tystysgrif weithredu fel tyst wyneb yn wyneb, hyd yn oed pan fydd AA yn cael ei chreu gan ddefnyddio'r sianel ddigidol. Er y byddwn hefyd yn parhau i edrych ar sut y gellir defnyddio technoleg i ddangos tystiolaeth o weithredu o fewn sianel ddigidol, mae'n bwysig nodi mai dim ond un ffordd y gellir bwrw ymlaen â hyn yw'r enghraifft o lofnodion electronig a roddwyd yn yr ymgynghoriad.
12. Trafodir y mater o allgáu digidol yn fanylach yn ein Datganiad am Gydraddoldebau yn Atodiad C.
13. I grynhoi, gallwn gadarnhau y bydd gwasanaeth moderneiddiedig yn y dyfodol ar gael yn Gymraeg pan fydd y gwasanaeth yn mynd yn fyw, ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg. Byddwn yn ceisio parhau i ddatblygu'r gwasanaeth drwy gynnwys rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd o Gymru lle y gallwn. Yn olaf, rydym wedi ymrwymo i gadw sianel bapur ar gyfer y rheini sydd heb fynediad digidol neu allu digidol a byddwn yn rhoi sylw arbennig i'r materion hyn wrth iddynt effeithio ar Gymru wrth i ni barhau i ddatblygu.

Atodiad C: Datganiad am Gydraddoldebau

A. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

1. Mae'r datganiad am gydraddoldebau hwn yn cofnodi dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y nodir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:
 - Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon - gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, gwahaniaethu yn deillio o anabledd, ac aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
 - Hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd – rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd.
 - Meithrin perthnasoedd da – rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd.
2. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried y naw nodwedd warchoddedig:
 - hil
 - rhyw
 - oed
 - anabledd
 - cyfeiriadedd rhywiol
 - crefydd neu gred
 - beichiogrwydd a mamolaeth
 - ailbennu rhywedd
 - priodas / partneriaeth sifil

B. Moderneiddio Polisi Atwrneiaeth Arhosol

Cynigion Polisi

3. Cafodd AA ei chyflwyno yn 2007 gyda gweithrediad Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Fe'i dyluniwyd i ddarparu mwy o hyblygrwydd a mwy o amddiffyniadau na'i rhagflaenydd, Atwrneiaeth Barhaus (AB). Mae'r gwasanaeth presennol yn cynnig llwybr papur i unigolion gofrestru eu AAau gyda SGC.

4. Mae'r byd yn newid, gyda phobl yn fwyfwy awyddus i gael mynediad i wasanaethau'n ddigidol. Ein nodau gyda moderneiddio AA yw cynyddu mesurau diogelu, gwella mynediad a chyflawni cynaliadwyedd ar gyfer SGC. Mae ychwanegu sianel ddigidol yn rhoi cyfleoedd i wella mynediad a chyflymder gwasanaeth, wrth ddarparu mwy o amddiffyniad i unigolion rhag defnydd twyllodrus neu ddifriol o'r system. Fodd bynnag, bydd sianel bapur yn parhau i fod ar gael lle mae angen yr opsiwn hwn ar bobl i sicrhau nad ydynt yn cael eu hallgáu.
5. Bydd moderneiddio'r gwasanaeth AA yn gofyn am newidiadau i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac is-ddeddfwriaeth ategol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion rhwng 20 Gorffennaf 2021 ac 13 Hydref 2021, a thrafodir ein newidiadau arfaethedig yn fanwl yn y prif ymateb, uchod.
6. Fel rhan o'r gwaith hwn bu'n hanfodol ystyried effeithiau cydraddoldeb y newidiadau yr ydym yn ceisio'u gwneud i sicrhau bod gwasanaeth wedi'i foderneiddio yn hygyrch i unrhyw un sy'n dymuno ei ddefnyddio.

Themâu at ddiben dadansoddiad cydraddoldeb

7. Rydym yn ystyried newid saith maes o'r broses creu a chofrestru AA fel rhan o foderneiddio'r AA. Rydym wedi coladu'r meysydd hyn yn dair thema o ran asesu eu heffeithiau ar gydraddoldeb, gan gynnwys ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad:
 - Newidiadau i'r AA ei hun (e.e. mewn perthynas â rôl y tyst);
 - Mynediad i ddogfennau y gellir eu defnyddio i ddilysu nodweddion hunaniaeth yn ddigidol, e.e. enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad;
 - Mynediad i, a dealltwriaeth o, dechnoleg i greu a chofrestru AA.

C. Tystiolaeth

Ein dull gwaith

8. Mae'r tîm sy'n gweithio ar foderneiddio AAau yn dîm traws-swyddogaethol sy'n gweithio ar draws polisïau, cynllunio gwasanaethau a gweithrediadau rheng flaen. Mae hyn yn rhoi mynediad i ni at ystod eang o ffynonellau tystiolaeth, megis ymchwil defnyddwyr ac arbenigeddau cymdeithaseg digidol. Mae hyn yn ategu'r dulliau presennol a ddefnyddiwyd eisoes wrth ddatblygu polisi, gan gynnwys ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cynrychiolaeth.
9. Trwy gydol y broses o ddatblygu ein cynigion, ac ar draws ein gwahanol ddisgyblaethau ymchwil, rydym wedi ceisio ystyried effeithiau ailadroddus darpariaeth gwasanaeth digidol a gofynion dilysu hunaniaeth wrth wneud AA. Rydym yn ymwybodol o'r angen i osgoi a lliniaru canlyniadau anfwriadol wrth wneud newidiadau sy'n ymwneud â phob un o'r meysydd hyn.

10. Fel rhan o'r ymgynghoriad, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol, gwnaethom ystyried effaith y cynigion ar y naw nodwedd warchoddedig, gan ofyn y cwestiynau canlynol:
- Cwestiwn 15: A ydym wedi nodi'n gywir y nodweddion gwarchoddedig y gallai'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn effeithio arnynt?
 - Cwestiwn 16: Beth, yn eich barn chi, fydd effeithiau cydraddoldeb yr opsiynau diwygio arfaethedig ar unigolion â nodwedd warchoddedig?
11. Fe wnaethom annog ymatebwyr i'r ymgynghoriad i dynnu sylw at unrhyw faterion cydraddoldeb ac i bwysleisio unrhyw ddata a thystiolaeth sydd ar gael sy'n mesur yr effaith. Mae'r ymatebion hyn wedi'u hystyried a chânt eu crynhoi ym mharagraff 15 - 19 isod.

Paramedrau'r sylfaen dystiolaeth

12. Mae proses gofrestru SGC ar gyfer AAau yn casglu'r wybodaeth gyfyngedig ganlynol am nodweddion demograffig rhoddwyr a'u hatwrneiod:
- Oed y rhoddwr a'i atwrnai / atwrneiod, yn seiliedig ar eu dyddiadau geni;
 - Rhyw y rhoddwr a'i atwrnai / atwrneiod. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar eu teitlau – e.e. Mrs neu Mr, er bod hyn yn gallu bod yn amwys mewn rhai achosion - e.e. Dr neu Barchedig. Mae nifer yr achosion lle mae teitlau'n amwys neu ar goll yn gymharol fach (3-4%) ac yn fwyaf tebygol o gael eu dosbarthu ar hap ar draws rhyw a rhywedd, felly mae'n annhebygol o effeithio ar amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n defnyddio AA ar draws y nodweddion hyn.
13. Nid yw SGC yn casglu gwybodaeth am:
- hil
 - anabled
 - cyfeiriadedd rhywiol
 - crefydd / cred
 - beichiogrwydd / mamolaeth
 - ailbennu rhywedd
 - priodas / partneriaeth sifil

Gweithgareddau casglu tystiolaeth

14. Er mwyn cael mwy o ddata i'n helpu i asesu effeithiau'r cynigion ar gydraddoldeb, rydym wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau. O ystyried bod y gwaith hwn wedi cyd-daro â phandemig COVID-19, rydym wedi cynnal ymchwil defnyddwyr ac wedi cynnal ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid gan ddefnyddio technoleg o bell, gan gynnwys arolygon ar-lein, fideo-gynadleda ac offer cydweithredu ar-lein, megis *Miro*. Mae hyn wedi caniatáu i weithdai, gwaith ymchwil ac ymgysylltu i barhau wrth gadw at y canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

15. Rydym wedi ceisio estyn allan at yr unigolion a'r grwpiau hynny a all ddarparu tystiolaeth benodol ar sut i sicrhau y bydd AA foderneiddiedig yn gweithio i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigidol, ac sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y gallai ein hangen i ddefnyddio offer digidol i wneud hyn fod wedi ymgorffori rhagfarn benodol yn ein sylfaen dystiolaeth bresennol. Yn ogystal, tynnodd yr ymgynghoriad sylw at y mater hwn ac amlygodd bod angen tystiolaeth benodol arnom am y rheini sydd efallai angen gwasanaethau analog, e.e. gwirio dogfennau wyneb yn wyneb.
16. Cawsom 123 o ymatebion gan y cyhoedd, sy'n fwy nag ymgynghoriadau blaenorol ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae ein gallu i gyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol wedi bod yn gyfyngedig oherwydd pandemig Covid-19, ac mae ein hymchwil wedi canolbwyntio'n bennaf ar unigolion sydd naill ai eisoes wedi, neu sydd eisoes yn gyfarwydd, ag AAau. Mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i ddeall anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig a all fod angen AA yn y dyfodol ond nad ydynt yn ymwneud â'r broses ar hyn o bryd, e.e. pobl mewn grwpiau oedran iau neu'r rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol.
17. Cyn yr ymgynghoriad, roedd gennym dystiolaeth o gorff eang o waith ymchwil a gynhaliwyd gan eraill ar draws y llywodraeth, sectorau dielw ac academiaidd. Roedd hyn yn dangos y dylem ystyried yn arbennig yr effeithiau ar y rheini â nodweddion gwarchodedig oedran, anabledd, hil a rhyw, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn y dyfodol yn hygyrch i bawb. Ceisiom brofi a chryfhau'r dystiolaeth hon ymhellach drwy'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad a'r dadansoddiad o ddata arall (gweler paragraffau 15 i 22).
18. Yn olaf, yn y datganiad am gydraddoldebau hwn, rydym yn defnyddio data achos SGC o 2019/2020. Dyma'r flwyddyn lawn olaf o ddata sydd gennym, cyn i bandemig Covid-19 effeithio ar weithrediadau SGC, ac felly mae'n fwy cynrychioliadol o'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld mewn gwasanaeth arferol SGC.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwestiwn 15

19. O'r cyfanswm o 313 o ymatebion a gawsom i'n hymgyngghoriad, darparodd 116 ateb i Gwestiwn 15: A ydym wedi nodi'n gywir y nodweddion gwarchodedig y gallai'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn effeithio arnynt?
20. Fel y nodir yn Ffigur 25, o'r 116 o ymatebion, gwnaeth 110 sylwadau ar nodweddion gwarchodedig. Nododd 93 o'r ymatebion ein bod wedi nodi'n gywir y nodweddion gwarchodedig, sef hil, rhyw, oedran ac anabledd, y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio arnynt. Roedd 15 o ymatebion yn anghytuno gan ddweud na, nid oeddem wedi nodi'r nodweddion yn gywir. Roedd 12 o'r rhain ar y sail bod llai o nodweddion

nag a nodwyd gennym. Dim ond un ymateb a nododd nodwedd ychwanegol: crefydd a chred. Roedd 2 achos lle nad oedd ymatebwyr yn gwybod neu'n ansicr.

Ateb i Gwestiwn 15 ar nodweddion gwarchoddedig	Cyfanswm	Canran
le	93	85%
Na	15	14%
Ddim yn gwybod	2	2%
Cyfanswm	110	

ES Ffigur 3: Atebion i Gwestiwn 15, sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig.

21. O fewn y 116 o ymatebion, cawsom 6 ymateb nad oedd yn rhoi sylwadau ar nodweddion gwarchoddedig ond a oedd yn codi materion yn ymwneud â nodweddion nad ydynt yn warchoddedig, er enghraifft dosbarth cymdeithasol a gallu digidol. Yn ogystal, cododd 18 o ymatebion a ddywedodd 'le' bryderon am grwpiau nad ydynt yn warchoddedig, a 6 ymateb a ddywedodd 'na'. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 30 o ymatebion allan o'r 116 wedi codi nodweddion nad ydynt yn warchoddedig fel maes o bryder (gweler ffigur 26).

Ateb i Gwestiwn 15 ar nodweddion nad ydynt yn warchoddedig	Cyfanswm	Canran
Yn cytuno â'r nodweddion gwarchoddedig a'r nodweddion nad ydynt yn warchoddedig	18	60%
Yn anghytuno â'r nodweddion gwarchoddedig ac wedi nodi nodweddion nad ydynt yn warchoddedig	6	20%
Wedi nodi nodweddion nad ydynt yn warchoddedig yn unig	6	20%
Cyfanswm	30	

ES Ffigur 4: Atebion i Gwestiwn 15, sy'n ymwneud â nodweddion nad ydynt yn warchoddedig.

22. Y brif nodwedd nad yw'n warchoddedig a amlygwyd oedd gallu digidol, ac yna mynediad digidol. Yn ogystal, roedd nifer fach iawn o ymatebion yn cyfeirio at nodweddion gan gynnwys dosbarth cymdeithasol, llythrennedd, diffyg rhwydwaith cymdeithasol, diffyg mynediad ariannol, bregusrwydd, cael eu dylanwadu'n hawdd a galluedd cyfnewidiol.

Cwestiwn 16

23. Cawsom 122 o ymatebion i gwestiwn 16: Beth, yn eich barn chi, fydd effeithiau cydraddoldeb yr opsiynau diwygio arfaethedig ar unigolion â nodwedd warchoddedig? O'r rhain, rhoddodd 104 o ymatebion farn ar yr effeithiau ar grwpiau â nodweddion

gwarchoddedig, tra nododd 69 o ymatebion y goblygiadau i grwpiau heb nodweddion gwarchoddedig. Mae Ffigur 27 yn nodi faint o'r effeithiau a nodwyd sy'n ymwneud â phob nodwedd.

Nodwedd	Nifer o ymatebion a nododd effaith
Oed	94*
Anabledd	21
Hil	5
Rhyw	1
Crefydd	1
Ailbennu rhywedd	1
Nodweddion nad ydynt yn warchoddedig	
Sgiliau digidol neu lythrennedd digidol	49*
Dosbarth cymdeithasol	10
Arall	15
Dim effeithiau	6

ES Ffigur 5: Atebion i gwestiwn 16

* Chwyddwyd yr ymatebion hyn gan ymatebion ymgyrch.

24. Yn bennaf, roedd yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau cydraddoldeb (gweler paragraff 7) yn eu defnyddio i fynegi eu barn am effeithiau posibl y cynigion, yn hytrach na darparu tystiolaeth ar effeithiau penodol. Datgelodd dadansoddiad o'r ymatebion, oedd yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig, y themâu canlynol:
- **Oed:** Roedd mwyafrif yr ymatebion, 94, yn canolbwyntio ar yr effaith ar y grŵp hwn. Yr effaith fwyaf, o bell ffordd, a godwyd oedd y pryder y gallai pobl hŷn fod yn fwy agored i gael eu cam-drin gyda phroses ddigidol. Er bod hyn wedi'i chwyddo gan ymatebion ymgyrch (rhoddodd 35 yr ymateb hwn), roedd nifer sylweddol o ymatebwyr eraill yn dal i godi'r pryder hwn. Nododd tua hanner cymaint o'r ymatebwyr bryder am efallai nad oedd gan bobl hŷn fynediad at y dechnoleg ofynnol, gyda nifer llai yn nodi nad yw pobl hŷn yn hoffi technoleg. Dywedodd nifer tebyg fod pobl hŷn yn dal i ddibynnu ar bapur ac eisiau gweithio ar bapur. Yn gysylltiedig â hyn, siaradodd nifer fach o ymatebwyr hefyd bod

technoleg ddigidol yn creu rhwystr i fynediad. Yn olaf, cododd nifer fach farn am ddulliau adnabod.

- **Anabledd:** Yr ail grŵp uchaf a nodwyd o ran cael eu heffeithio oedd y rhai ag anabledd, gyda 21 o ymatebion. Y pryder mwyaf a godwyd am y nodwedd hon oedd na fyddai gan y rheini ag anableddau fynediad at dechnoleg a thechnoleg ddigidol. Nododd nifer tebyg fod yn rhaid i'r gwasanaeth weithio gyda thechnolegau cynorthwyol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai newidiadau i'r broses dystio effeithio ar bobl ag anableddau sy'n gysylltiedig â'r golwg neu'r clyw. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd defnyddio iaith symlach ar gyfer y rheini ag anableddau dysgu.
- **Hil:** Cododd nifer fach o ymatebwyr, 5, farn ynghylch mynediad digidol a mynediad at ddogfennau adnabod. Er nad oeddent yn ymwneud yn benodol â'r cynigion, ond yn hytrach â materion mwy cyffredinol yn ymwneud â gwneud AA, cyfeiriwyd hefyd at fynediad cyfyngedig at gymorth proffesiynol, llythrennedd a gwahaniaethau diwylliannol o ran gwneud penderfyniadau, fel effeithiau posibl.
- **Rhyw:** Dywedodd un ymateb gan sefydliad fod dynion yn cael eu tangynrychioli o fewn y broses AA ac felly mae angen ystyriaeth bellach i beidio ag effeithio arnynt.
- **Crefydd neu gred:** Roedd un ymateb gan aelod o'r cyhoedd yn nodi arferion crefyddol a normau diwylliannol ymhlith crefyddau lleiafrifol fel rhai y gallent effeithio arnynt.
- **Ailbennu rhywedd:** Soniodd un ymateb gan aelod o'r cyhoedd hefyd am y problemau y gallai pobl drawsrywiol ddod ar eu traws o setiau data anghywir wrth geisio gwirio eu hunaniaeth.

25. Yn nodedig, er bod ailbennu rhywedd wedi'i grybwyll fel ateb i gwestiwn 16, ni chafodd ei roi fel ateb i gwestiwn 15 gan unrhyw un o'n hymatebwyr.

26. Ni soniodd unrhyw ymatebydd am effeithiau o ran cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd / mamolaeth, neu briodas / partneriaeth sifil.

D. Sylfaen dystiolaeth

27. Nid yw'r effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd gennym yn benodol i wahanol ddulliau. Yn hytrach, fel y nodir ym mharagraff 3, mae'r effeithiau'n ymestyn ar draws cynigion moderneiddio'r AA, gan ryngweithio â'r canlynol:

- Newidiadau i'r AA ei hun (e.e. yn ymwneud â rôl y tyst);
- Mynediad i ddogfennau y gellir eu defnyddio i wirio nodweddion hunaniaeth fel enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad;
- Mynediad i, a dealltwriaeth o, dechnoleg i greu a chofrestru AA.

Dadansoddiad

Nodweddion a nodwyd yn yr ymgynghoriad:

28. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom nodi pedair nodwedd warchoddedig yr oeddem yn credu y gallai'r cynigion effeithio arnynt. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth ein bod wedi nodi'r nodweddion gwarchoddedig cywir ac rydym bellach yn ystyried pob un o'r rhain yn fanylach yn erbyn y tair thema a nodwyd.

Oed:

29. **Newidiadau i'r AA:** Mae data llwyth achosion SGC ar gyfer 2019/2022 yn dangos mai 74.5 yw oedran cyfartalog y rhoddwr ar adeg cofrestru AA, tra bod y mwyafrif o roddwyr dros 65 oed. Mae hyn yn golygu bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan newidiadau i'r broses AA na phobl iau. Yn ogystal, oedran oedd y nodwedd warchoddedig a nodwyd fwyaf gan ymatebwyr, a nododd gyflwyno gwiriadau hunaniaeth a'r defnydd o dechnoleg ddigidol.
30. **Mynediad at ddogfennau adnabod:** Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 27.5% o'r rheini dros 65 mlwydd oed wedi nodi nad oes ganddynt basbort o unrhyw wlad.
31. Mewn perthynas â thrwyddedau gyrru, yn ôl y DVLA, rhwng 1995/1997 a 2020 cynyddodd cyfran y bobl dros 70 oed oedd yn dal trwydded o 39% i 77%. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu nad oes gan 23% o'r rheini yn y grŵp oedran hwn drwydded yrru.
32. Mae pobl hŷn yn llai tebygol o fod â thrwydded yrru neu basbort oherwydd symudedd is, felly nid yw'n afresymol disgwyl gorgyffwrdd sylweddol rhwng y grwpiau hyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wasanaeth yn y dyfodol dderbyn ystod ehangach o ddogfennau er mwyn dilysu gwybodaeth hunaniaeth er mwyn peidio ag eithrio hyd at chwarter y grŵp oedran hwn rhag gwneud AAau. Byddai pensiynwyr yn fwy tebygol o fod â chyfrifon pensiwn y wladwriaeth a fydd yn gallu gwirio eu hunaniaeth yn ddigidol.
33. Nid pasbortau a thrwyddedau gyrru ychwaith yw'r unig ffyrdd o wirio hunaniaeth, a gyda chyflwyniad sianel ddigidol, gallwn sicrhau bod opsiynau eraill i adnabod rhoddwyr ac actorion eraill yn y broses. Er enghraifft, yn 2021, hawliodd 12.5 miliwn o bobl o oedran pensiwn y wladwriaeth ryw gyfuniad o fudd-daliadau DWP, a gallai hyn ddarparu llwybr adnabod arall lle nad oes dewisiadau eraill ar gael.
34. Er y bydd mwyafrif y bobl y bydd y cynigion yn effeithio arnynt dros 65 oed, gall pobl rhwng 18 a 25 oed hefyd ei chael yn anodd pasio gwiriadau dilysu hunaniaeth ddigidol. Mae hyn oherwydd eu diffyg 'ôl troed digidol', y wybodaeth bersonol sy'n bodoli o ganlyniad i weithgarwch ariannol neu ryngweithio â gwasanaethau'r wladwriaeth. Er bod pobl iau yn llawer llai tebygol o wneud AAau, mae angen i ni

wneud yn siŵr nad ydym yn eu hannog i beidio â gwneud hynny o ystyried rôl yr AA fel amddiffyniad rhag amgylchiadau nas rhagwelwyd a allai godi ar unrhyw oedran.

35. Er ein bod yn credu bod ein cynigion yn darparu mesurau lliniaru priodol yn erbyn yr effeithiau hyn, byddwn yn parhau i archwilio i amrywiaeth o wiriadau hunaniaeth i ddiwallu anghenion y ddau grŵp oedran.
36. **Mynediad Digidol:** Cododd nifer fawr o ymatebwyr bryderon ynghylch mynediad digidol a dealltwriaeth ymhlith grwpiau oedran hŷn. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at hyn yn yr ymgynghoriad ac mae'n farn a gefnogir gan ddata ehangach.
37. Yn ôl data Llyw.Cymru (2019 - 2020), mae hyfedredd ar draws amrywiaeth o sgiliau digidol yn debygol o leihau gydag oedran, ac mae'r darlun hwn yn debyg ar draws Cymru a Lloegr. Darparodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru dystiolaeth yn benodol ar y mater hwn yng Nghymru, gan ddyfynnu Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017- 2018, data sy'n awgrymu:
Nid yw tua 37% o bobl hŷn (tua chwarter miliwn o bobl) [yng Nghymru] yn gwneud defnydd personol o'r rhyngrwyd; nid oes gan 41% o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngrwyd, ac nid oes gan 55% o'r bobl hŷn hynny sy'n byw ar eu pen eu hunain gysylltiad â'r rhyngrwyd.
38. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn wylidwrus rhag tybio na all, neu nad yw, pobl hŷn yn defnyddio technoleg. Mae'r ONS yn adrodd bod nifer y bobl dros 75 oed sy'n ddefnyddwyr rhyngrwyd diweddar bron wedi dyblu rhwng 2013 a 2020, o 29% i 54%. Mae'n debygol y bydd hyn wedi cynyddu yn ystod pandemig Covid-19, a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i'r boblogaeth heneiddio.
39. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'n cyfranogwyr ymchwil defnyddwyr wedi bod dros 55 oed, ac er bod llawer wedi disgrifio eu sgiliau fel "gallu digidol isel", mae eu cyfranogiad mewn galwadau fideo ar-lein, rhannu sgriniau, gweithio trwy wasanaethau prototeip a chwblhau arolygon ar-lein, yn dangos bod eu sgiliau digidol gwirioneddol yn fwy datblygedig nag y maent hwy eu hunain wedi datgan.
40. Treuliodd llawer o bobl rhwng 60 a 70 oed eu bywydau gwaith yn ymdrin â thechnoleg sy'n datblygu gan ei bod ar gael yn amlach mewn gweithleoedd ac yn parhau i'w defnyddio nawr. Rhaid i ni gydnabod hefyd bod y rheini nad oeddent yn gyfarwydd â thechnoleg o'r blaen yn dechrau ei defnyddio. Er mwyn darparu ar gyfer pobl hŷn y dyfodol, mae angen sianel ddigidol ar gyfer creu AAau.
41. Gan droi yn ôl at y bobl hŷn hynny a fydd efallai yn cael eu hatal gan sianel ddigidol, mae dau senario cyffredin:

- a. y rhoddwyr hynny sy'n cwblhau eu AAau eu hunain nad ydynt efallai'n gallu neu'n dymuno defnyddio sianel ddigidol; a'r
 - b. rhoddwyr hynny sydd efallai yn dymuno peidio defnyddio sianel ddigidol, sy'n cael eu cefnogi gan unigolyn arall.
42. Byddwn yn lliniaru'r mater cyntaf drwy barhau i ddarparu sianel bapur ar gyfer creu AAau. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd y gellir creu AA ar bapur ond ei chyflwyno i SGC yn ddigidol drwy wasanaethau tebyg i wasanaeth pasbort Swyddfa'r Post.
43. Mae'r ail achos yn fwy cymhleth, a mynegodd nifer fawr o ymatebwyr bryderon ynghylch cam-drin yn y senario hwn. Er bod bodolaeth sianel bapur hefyd yn rhan o'r ateb yma, rydym yn cydnabod y gallai rhoddwr bregus ddefnyddio sianel ddigidol nad yw'n gyfforddus ag ef oherwydd bod yr unigolyn neu'r unigolion sy'n ei gefnogi yn mynnu mai dyna'r ffordd hawsaf. Dyma ble bydd mesurau diogelu ychwanegol o fewn y gwasanaeth yn bwysig i liniaru'r risg hon:
- Y gallu i ddarparwr tystysgrif godi pryderon yn uniongyrchol gyda SGC yn hytrach na pheidio â llofnodi'r AA.
 - Proses eglur ar gyfer trydydd partïon sydd heb eu henwi (e.e. awdurdodau lleol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, elusennau) i godi pryderon gyda SGC.
 - Ystyried yn ofalus sut rydym yn gweithredu mecanwaith ar gyfer cefnogwr i helpu i greu'r AA, a all helpu i amddiffyn rhag cam-drin.
 - Sut rydym yn defnyddio technoleg ddigidol i greu cyfnod ailfeddwl i roddwyr sy'n bodoli fel rhan o'r sianel bapur, er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod nhw'n gallu treulio amser i ystyried y penderfyniadau pwysig hyn.
 - Pwysigrwydd darparu canllawiau i bob parti fel eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, yr amddiffyniad a roddir rhag trafod yr AA gyda grŵp eang o bobl ac, yn bennaf oll, pwrpas a phŵer yr AA ei hun.
44. Yn ogystal, mae angen i ni gydnabod na fydd cam-drin yn aml yn dod i'r amlwg tan ar ôl i'r AA gael ei chreu. Felly, bydd SGC yn parhau i frysbenno ac archwilio i'r pryderon y mae'n eu derbyn am y defnydd o AAau. Ein nod yw gwella'r gwasanaeth hwn trwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd i SGC sy'n rhyddhau mwy o adnoddau i'r timau hyn.
45. **I gloi:** Fel y nodwyd, mae mwyafrif y rhoddwyr presennol dros 65 oed, ac felly yn cael eu heffeithio fwyaf gan foderneiddio'r gwasanaeth. Bydd llawer o'r effeithiau hyn yn gadarnhaol, gan y bydd y broses yn fwy syml a bydd mesurau diogelu'n cael eu gwella, gan gynnwys rhag twyll drwy gyflwyno proses ddilysu hunaniaeth. Credwn ein bod wedi nodi'r ffyrdd priodol o sicrhau mynediad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ystod eang o opsiynau adnabod ar gael a chadw sianel bapur yn ei lle. O ganlyniad, nid ydym yn credu y bydd ein cynigion yn effeithio'n anghymesur ar y grŵp hwn, a byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i ni ddatblygu'r broses ymhellach.

Anabledd:

46. Anabledd oedd yr ail nodwedd warchodedig uchaf y nododd ymatebwyr y gallai'r cynigion effeithio arni, gyda 21 o ymatebion yn nodi effeithiau posibl.
47. **Newidiadau i'r AA:** I'r rheini sydd ag anabledd neu a allai ddatblygu anabledd sy'n effeithio ar eu galluedd meddyliol neu gorfforol, AA yw un o'r arfau sydd ar gael i amddiffyn a hwyluso eu hawliau a'u rhyddid. Amlygwyd y cynigion ar lofnodi a thystio fel rhai a allai greu heriau i roddwyr anabl neu atwrneiod. Er na roddwyd unrhyw resymau penodol pam, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chynnig 1b ar ddefnyddio technoleg i ganiatáu tystio o bell. Fodd bynnag, nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu y bydd ein newidiadau arfaethedig yn cael effaith anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchodedig hon ac nid ydym yn bwrw ymlaen â dull 1b.
48. **Mynediad at ddogfennau adnabod:** Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos y bydd gwiriadau hunaniaeth yn effeithio'n arbennig ar bobl â'r nodwedd warchodedig hon. Os daw dystiolaeth bellach i'r amlwg, byddwn yn ystyried hyn ac yn ailasesu'r sefyllfa hon.
49. **Mynediad digidol:** Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â phobl ag anableddau yn cael mynediad at, neu'n defnyddio technoleg. Mae data ONS 2020 yn awgrymu nad yw 8% o oedolion ag anableddau yn defnyddio'r rhyngwrwyd (ffigur is na'r un ar gyfer y nodwedd warchodedig 'oedran'). Mae hefyd yn dangos bod nifer yr oedolion anabl a oedd yn ddefnyddwyr rhyngwrwyd diweddar wedi cynyddu o ychydig dros 10 miliwn (78% o oedolion anabl) yn 2019, i bron i 11 miliwn (81% o oedolion anabl) yn 2020.
50. Tynnodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylw at effeithiau cadarnhaol posibl y cynigion, er enghraifft sianel ddigidol yn gwneud canllawiau a ffurflenni'n fwy hygyrch i'r rheini ag anableddau dysgu. Yn ogystal, gallai sianel ddigidol ddefnyddio technoleg gynorthwyol, megis testun i leferydd, nad yw ar gael gyda ffurflenni papur. Gallai hynny roi mwy o annibyniaeth a rheolaeth dros y broses i unigolion sy'n ddibynnol ar gefnogaeth pobl eraill ar hyn o bryd.
51. Mae yna dystiolaeth bod arloesi ym maes technolegau cynorthwyol wedi darparu mynediad haws i unigolion anabl at wasanaethau cyhoeddus pan gyflwynir sianel ddigidol. Er enghraifft:
- meddalwedd i ddarllen tudalennau gwe yn uchel, chwyddo testun neu ei arddangos ar ddyfeisiau *braille*;
 - mae meddalwedd adnabod llais a switsys dethol yn helpu'r rheini sydd â chryndod dwylo neu broblemau deheurwydd;
 - mae offer sillafu a gramadeg yn cefnogi'r rheini sydd â dyslecsia neu anableddau dysgu, a gallent weithio ochr yn ochr â meddalwedd darllen yn uchel;

- mae cynnwys ar-lein ac apiau yn galluogi'r rheini sydd â dallineb lliw i addasu gosodiadau porwr fel na fyddant yn methu unrhyw giwiau dylunio gweledol mewn gwybodaeth.

52. **I gloi:** Ein barn bresennol yw na fydd y cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchodedig 'anabledd'. Wrth gyflwyno sianel ddigidol byddwn yn parhau i ystyried tystiolaeth, a gweithio gyda'r rheini ag anableddau i ddatblygu gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnolegau cynorthwyol i helpu i greu AA. Mae hyn yn ategu dyletswydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) a SGC i ystyried a gwneud addasiadau rhesymol o fewn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac mae'n adlewyrchu ein nod cyffredinol i wneud y broses yn fwy hygyrch i'n defnyddwyr. I'r rheini nad oes ganddynt fynediad i'r dechnoleg angenrheidiol, bydd yr opsiwn o sianel bapur yn parhau. Yn ogystal, o dan y system arfaethedig, bydd defnyddwyr yn gallu dewis o amrywiaeth o opsiynau hygyrch i wirio'r priodoleddau hunaniaeth gofynnol.

Hil ac Ethnigrwydd:

53. **Newidiadau i'r AA:** Mae SGC yn ymwybodol bod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod ag AA, a bu gwaith parhaus i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai newidiadau i'r gwasanaeth AA waethygu'r tangynrychiolaeth o'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ond ni nodwyd sut.
54. **Mynediad at ddogfennau adnabod:** Prin yw'r dystiolaeth sydd gennym o effeithiau'r cynnig hwn ar bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Gellir lliniaru'r risg hon trwy sicrhau ein bod yn caniatáu i ystod eang o ddogfennau gael eu defnyddio i ddangos hunaniaeth.
55. **Mynediad Digidol:** Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai sgiliau digidol fod yn is ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae data ONS yn awgrymu bod y bwlch defnydd rhyngwyd rhwng gwahanol grwpiau ethnig wedi lleihau wrth i gyfran y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd leihau. Yn 2018, ei ffigur cyffredinol ar gyfer y rheini nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwyd oedd 10%, gyda'r ffigurau ar gyfer pob grŵp ethnig fel a ganlyn:
- Gwyn: 10.6%
 - Du, Affricanaidd, Caribiaidd, du Prydeinig: 8.2%
 - Bangladeshaid: 8%
 - Indiaidd: 7.2%
 - Pacistanaidd: 5.7%
 - Tsieineaidd: 1.8%
 - Cefndiroedd Asiaidd eraill: 2.9%
 - Cefndir ethnig cymysg a lluosog: 1.8%

- Grŵp ethnig arall: 4.3%

56. Gallai cyflwyno sianel ddigidol gael effeithiau cadarnhaol ar y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n fwy tebygol o fod â mynediad digidol na'r rheini o gefndiroedd gwyn. Byddwn yn parhau i ystyried sut y gallai cynigion effeithio ar y bobl hyn sydd â'r nodwedd hon i sicrhau ein bod yn gwella mynediad yn hytrach na chreu rhwystrau.
57. **I gloi:** Ein barn ar hyn o bryd yw na fydd y cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchoddedig 'hil'. Gallai moderneiddio AAau hyd yn oed gynnig cyfleoedd i ehangu mynediad i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn parhau i weithio ar ddeall yr effeithiau ar y rheini sydd â'r nodwedd warchoddedig hon, drwy archwilio unrhyw ddata perthnasol ar AAau, hunaniaeth a mynediad digidol.

Rhyw:

58. **Newidiadau i'r AA:** Fel y nodwyd uchod, mae proses gofrestru SGC ar gyfer AAau yn casglu gwybodaeth am ryw'r rhoddwr a'i atwrnai/atwrneiod, yn seiliedig ar deitlau fel Mrs neu Mr. Mae data SGC ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod tua 60% o roddwyr AA yn fenywod, tra bod atwrneiod yr un mor debygol o fod yn ddynion neu'n fenywod. (Mae teitlau amwys fel Dr neu Barchedig yn cyfrif am tua 4% o achosion ac maent yn debygol o gael eu dosbarthu ar hap ar draws rhyw, felly nid ydynt yn debygol o effeithio'n sylweddol ar amcangyfrifon.) Nid oedd rhyw yn rhan fawr o ymatebion pobl i C16, a dim ond un ymateb a soniodd am yr effaith bosibl ar y grŵp hwn o ran tangynrychiolaeth dynion ymhlith rhoddwyr.
59. Mae data'r ONS yn 2021 yn nodi bod gan fenywod ddisgwyliad oes hirach – mae 3 miliwn yn fwy o fenywod na gwrywod dros 65 oed, a bron i ddwbl cymaint o fenywod â gwrywod dros 90 oed yn y DU. Mae'r data hwn, ynghyd â'r ffaith mai oedran cyfartalog rhoddwr yw 74.5, yn awgrymu bod merched yn debygol o gael eu cynrychioli'n fwy yn y grŵp y mae'r cynigion yn effeithio arno.
60. **Mynediad at ddogfennau adnabod:** Nid oes gennym ddata i asesu mynediad cymharol y rhywiau at ddogfennau adnabod y gellir eu dilysu'n ddigidol.
61. **Mynediad Digidol:** Mae ffigurau'r ONS o 2020 yn nodi mai menywod yw 57% o'r bobl yn y DU sydd byth wedi defnyddio'r rhyngwrwyd (1.97 miliwn o bobl). Roedd 415,000 pellach o fenywod a 391,000 o ddynion heb ddefnyddio'r rhyngwrwyd ers o leiaf dri mis. Yn 2018, roedd menywod yn cyfrif am 61% o 4.3 miliwn o oedolion yn y DU heb unrhyw sgiliau digidol o gwbl. Mae data Llyw.Cymru yn dangos bod hyfedredd digidol hefyd yn croestorri ag oedran (fel y nodir uchod), gyda dynion 64 oed a hŷn yn fwy tebygol o fod â sgiliau digidol o gymharu â menywod yn yr un grwpiau oedran.

62. I gloi: Gan fod menywod, yn enwedig menywod hŷn, yn fwy tebygol na dynion o gofrestru AAau ac yn llai tebygol o gael mynediad digidol, gallai ein cynigion gael mwy o effaith ar fenywod. Fodd bynnag, bernir bod yr effaith hon yn gymesur â nodau cyffredinol moderneiddio oherwydd, i liniaru yn erbyn effeithiau negyddol posibl, byddwn yn sicrhau bod sianel bapur yn parhau i fod ar gael i'r rheini sydd ei hangen, gyda lefelau cyfatebol o fesurau diogelu yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys gwiriadau hunaniaeth. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod sefydliadau sy'n cefnogi pobl i wneud AAau yn cael mynediad at sianel ddigidol. O ran gwirio priodoleddau hunaniaeth, byddwn yn parhau i chwilio am ddata perthnasol a'i archwilio.

Nodweddion a nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad:

63. Yn ogystal â'r pedair nodwedd sy'n cael sylw uchod, nododd ymatebwyr ddwy nodwedd ychwanegol lle'r oeddent yn credu y gallai fod effeithiau.

Crefydd a chred:

64. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y byddai ein cynigion yn effeithio'n anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchoddedig 'crefydd a chred'. Cododd aelod o'r cyhoedd bryder yn yr ymgynghoriad y gallai cynigion yr AA effeithio ar rai arferion a normau diwylliannol crefyddau lleiafrifol, ond ni nododd sut. Nid yw SGC yn casglu gwybodaeth am grefydd neu gred y rhai sy'n ymwneud â chreu AAau. Yn ogystal, nid oes data ar gael sy'n edrych ar fynediad at wybodaeth hunaniaeth neu fynediad digidol mewn perthynas â chrefydd neu gred.

65. **I gloi:** Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw na fydd ein cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl â'r nodwedd warchoddedig 'crefydd a chred'. Byddwn yn parhau i weithio ar ddeall yr effeithiau drwy ystyried unrhyw ddata perthnasol ar AAau, hunaniaeth a mynediad digidol.

Ailbennu rhywedd:

66. Nid yw SGC yn casglu gwybodaeth am ailbennu rhywedd mewn perthynas â'r rheini sy'n ymwneud â chreu AAau. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddata ar gael sy'n edrych ar y croestoriad rhwng mynediad at ddogfennau adnabod neu fynediad digidol mewn perthynas â'r nodwedd warchoddedig hon.

67. Cododd un aelod o'r cyhoedd bryder yn yr ymgynghoriad bod angen mesurau diogelu ychwanegol ar unigolion sydd wedi ailbennu eu rhywedd er mwyn eu hamddiffyn rhag "data 'swyddogol' anghywir". Rydym yn rhagweld y gallai'r ymadrodd hwn fod yn gyfeiriad naill ai at rywun sydd wedi trawsnewid ar ôl cofrestru AA neu sydd wedi newid rhywedd cyn i'r AA gael ei chofrestru ond nad yw wedi newid dogfennaeth adnabod y mae gwiriadau priodoledd hunaniaeth yn seiliedig arnynt ar yr adeg y maent yn cofrestru AA.

68. **I gloi:** Ni allwn ddod i gasgliadau ar yr effeithiau ar y grŵp hwn ond byddwn yn parhau i chwilio am ddata perthnasol a'i archwilio er mwyn asesu unrhyw effeithiau y gallai ein cynigion eu cael, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno gwiriadau hunaniaeth.

Nodweddion gwarchodedig eraill:

69. Mae tair nodwedd warchodedig ychwanegol yr oeddem wedi'u nodi fel rhai nad oedd y cynigion yn effeithio arnynt yn anghymesur, ac na soniodd ymatebwyr amdanynt yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad.
- Priodas a phartneriaeth sifil
 - Cyfeiriadedd rhywiol
 - Beichiogrwydd a mamolaeth
70. Nid yw SGC yn casglu data ar y nodweddion hyn, ac nid oes data ar gael sy'n edrych ar y croestoriad rhwng mynediad at ddogfennau adnabod neu fynediad digidol mewn perthynas â'r rhain. Er bod tystiolaeth gyfredol yn awgrymu na fydd effaith anghymesur ar bobl â'r nodweddion hyn, os daw tystiolaeth bellach i'r amlwg, byddwn yn ystyried hyn.

Nodweddion nad ydynt yn warchodedig

71. Fel y nodir ym mharagraff 18, cyfeiriodd 69 o ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd at bobl â nodweddion nad ydynt yn warchodedig yn cael eu heffeithio gan foderneiddio AAau. Er bod hyn y tu allan i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rydym yn cydnabod bod gan ymatebwyr y pryderon hyn ac rydym hefyd yn ystyried effeithiau ein newidiadau ar y grwpiau hyn.
72. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr yn benodol ar yr effeithiau ar bobl sydd â diffyg mynediad digidol, llythrennedd digidol a llythrennedd cyffredinol. Buont hefyd yn siarad am yr effeithiau ar y rheini o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Yn ogystal â chydabod y pryderon hyn, rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o fod ag incwm isel a/neu gael eu hallgáu'n ddigidol.
73. Ffocws y pryderon ynghylch llythrennedd digidol oedd y byddai dull cyflwyno digidol gorfodol yn rhwystr i bobl â sgiliau digidol isel, yn enwedig y rheini heb gymorth. O ran grwpiau economaidd-gymdeithasol, roedd y rhan fwyaf o bryderon yn ymwneud â phobl na fyddai ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol eu hunain. Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch mynediad at gyngor proffesiynol, diffyg gwybodaeth am AAau a rhagueddiad i gamdriniaeth.
74. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, bydd sianel bapur yn parhau i fod ar gael i'r rheini sydd ei hangen. Bydd gwasanaethau cymorth cyfreithiol a gwasanaethau cymorth heb fod yn gyfreithiol yn parhau i fod ar gael ar draws ystod eang o bwyntiau prisio a gobeithiwn y bydd moderneiddio hefyd yn galluogi SGC i ganolbwyntio mwy ar y

cymorth a'r wybodaeth y gall eu darparu i ddefnyddwyr. Fel yr ydym wedi'i amlinellu yn yr ymgynghoriad a'r datganiad am gydraddoldebau, gwella mesurau diogelu yw ein prif nod. O ganlyniad, mae llawer o'r cynigion yn canolbwyntio ar sut i fynd i'r afael â thwyll, cam-drin a gorfodaeth, a bydd hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n defnyddio'r system AA.

75. Yn yr un modd â meysydd eraill ein datblygiad, byddwn yn parhau i ystyried yr effeithiau hyn fel y gallwn ddeall yn well sut i ddarparu'r gwasanaeth AA sydd ei angen ar bobl, ond sydd hefyd yn eu hamddiffyn pan aiff pethau o chwith.

E. Casgliadau a gwaith parhaus

76. Byddwn yn parhau i ystyried effeithiau cydraddoldeb ein cynigion wrth i'r prosiect moderneiddio fynd rhagddo. Byddwn yn ymgorffori gwybodaeth, tystiolaeth ac adborth os nodir effeithiau ychwanegol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad i AA yn y dyfodol, ac mae'n cyd-fynd â bwriad polisi'r llywodraeth y dylai AAau fod yn gyraeddadwy, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb.
77. Lle ceir effeithiau ar y rheini â nodweddion gwarchodedig, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r un meysydd: dogfennau adnabod, mynediad digidol/sgiliau digidol ac, i raddau llai, cam-drin unigolion sy'n agored i niwed. Er mwyn lliniaru'r risgiau a'r effeithiau hyn, bydd sianel bapur ar gyfer creu AAau yn parhau i fod ar gael ac rydym yn gweithio i wneud y broses o ddilysu hunaniaeth mor hygyrch â phosibl. Yn ogystal, rydym yn cynnig gwella nifer o fesurau diogelu eraill yn y system i amddiffyn rhag cam-drin a gorfodaeth.
78. Rydym wedi ystyried y dadansoddiad uchod mewn perthynas â'n dyletswydd o dan Adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Rydym yn cynnig bwrw ymlaen â'r prosiect moderneiddio AA fel y cynlluniwyd, gan nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd o effeithiau andwyol neu anghymesur o negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig:
- **Gwahaniaethu Uniongyrchol:** Nid ydym yn credu bod y cynigion AA yn wahaniaethol yn uniongyrchol gan na fyddant yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig.
 - **Gwahaniaethu Anuniongyrchol:** Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fo polisi yr un mor berthnasol i bob unigolyn ond byddai'n rhoi'r rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan anfantais arbennig o gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Fel y disgrifir uchod, mae rhai effeithiau posibl y cynigion a fydd yn effeithio'n anuniongyrchol ar rai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol - rhyw, oedran, hil ac anabled.

79. Mae'r effeithiau negyddol yn ymwneud yn anuniongyrchol â'r nodweddion gwarchoddedig hynny gan y gallai'r anfanteision lle maent yn codi, er enghraifft, mynediad at dechnoleg, gael mwy o effaith ar grwpiau o'r fath. Fodd bynnag, cymysg yw'r darlun ac rydym hefyd wedi archwilio lle gallai fod manteision a gwelliannau i grwpiau o'r fath yn sgil y cynigion.
80. Yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi graddfa bosibl yr anfantis i grwpiau o'r fath, y mesurau lliniaru a fydd ar gael, a'r ystyriaeth barhaus o sut i ddatblygu'r cynigion gyda mesurau lliniaru pellach lle bo modd. Yn gyffredinol, ac yng ngoleuni nodau datganedig y prosiect, credwn fod y cynigion i foderneiddio'r AA yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfiawn.

Atodiad D: Rhestr o Dermau

Dyma rai termau y byddwch yn eu gweld wrth ddarllen yr ymgynghoriad.

Ceisydd

Y ceisydd yw'r person sy'n gwneud cais i gofrestru'r AA – gall fod yn rhoddwr neu'n un neu ragor o'r atwrneiod.

Gweler hefyd: 'Cofrestru'

Atwrneiod

Atwrneiod yw pobl y mae'r rhoddwr yn ymddiried ynddynt ac yn eu dewis i'w helpu i wneud penderfyniadau. Nid oes angen i atwrneiod fod yn gyfreithwyr. Bydd llawer o bobl yn dewis eu gwraig, gŵr, partner sifil, partner, plant, ffrindiau agos neu berthnasau.

Darparwr Tystysgrif

Mae'r darparwr tystysgrif yn berson diduedd sy'n cadarnhau bod y rhoddwr yn deall yr AA ac nad yw'n cael ei orfodi neu ei roi dan bwysau i'w gwneud. Rhaid cael darparwr tystysgrif ar gyfer AA.

Gweithred

Mae AA yn weithred, sef math o ddogfen gyfreithiol. Er mwyn i weithred fod yn ddilys, rhaid iddi gael ei gweithredu. Mae hyn yn golygu bod rhaid:

- ei llofnodi
- tystio i'w llofnodion
- ei hardystio
- ei thraddodi

Gweler hefyd: 'Atwrneiaeth arhosol a 'Tystio'.

Rhoddwr

Y rhoddwr yw'r person sy'n gwneud yr AA ac yn dewis ei atwrneiod. Ni chaiff neb ond y rhoddwr wneud penderfyniadau am ei AA. Rhaid i'r rhoddwr fod yn 18 mlwydd oed o leiaf a bod â galluedd meddyliol wrth wneud ei AA.

Gweler hefyd: Atwrneiod.

Gweithredu

Gweler: 'Gweithred'

Amherffraith

Mae AA yn amherffraith os yw'n cynnwys gwallau y gellir eu cywiro heb wneud a gweithredu AA newydd.

Bydd SGC yn ysgrifennu at y person a wnaeth yr AA, ac yn gofyn iddo wneud cywiriadau. Ar ôl gwneud y rhain, gall SGC gofrestru'r AA.

Gweler hefyd: 'Annilyys'.

Cyfarwyddiadau

Gall y rhoddwr wneud cyfarwyddiadau yn ei AA. Bydd y rhain yn rhoi gwybod i'r atwrneiod am bethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud neu beidio â'u gwneud wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y rhoddwr.

Gweler hefyd: 'Dymuniadau'.

Annilyys

Bydd AA yn annilyys os yw'n cynnwys gwallau na ellir eu cywiro heb wneud a gweithredu AA newydd.

Ni all SGC gofrestru AA annilyys. Bydd angen i'r rhoddwr wneud a gweithredu AA newydd, ac wedyn talu ffi arall am wneud cais.

Gweler hefyd: 'Gweithred' ac 'Amherffraith'.

Atwrneiaeth Arhosol (AA)

Mae AA yn ddogfen gyfreithiol. Mae'n caniatáu i'r rhoddwr ddewis pobl y mae'n ymddiried ynddynt a fydd yn gallu ei helpu i wneud penderfyniadau. Mae dau fath o AA:

- iechyd a lles personol
- arian ac eiddo

Rhaid i AA gael ei chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC) cyn y gellir ei defnyddio.

Galluedd meddyliol

Galluedd meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar amser penodol.

- Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd pob dydd – fel pa bryd i godi, beth i'w wisgo ac a ddylai rhywun fynd at y meddyg os yw'n teimlo'n sâl – yn ogystal â phenderfyniadau mwy pwysig neu ddifrifol.
- Mae hefyd yn cyfeirio at y gallu sydd gan berson i wneud penderfyniad a all ddod â chanlyniadau cyfreithiol – i'r person hwnnw ac eraill. Rhai enghreifftiau yw cytuno i gael triniaeth feddygol, prynu nwyddau neu wneud ewyllys.

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, bydd person heb alluedd meddyliol:

1. os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol hyd yn oed o gael cymorth perthnasol;
2. os oes nam neu gynnwrf sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd;
a
3. nad yw'r person yn gallu gwneud y penderfyniad oherwydd y nam neu gynnwrf

Weithiau, bydd galluedd gan bobl i wneud rhai mathau o benderfyniadau ond nid rhai eraill.

Yn yr un modd, gall rhai pobl fod â galluedd i wneud penderfyniad penodol ar un amser, ond nid ar amseroedd eraill.

Gwrthwynebu

Mae rhoddwr, atwrnai neu berson i'w hysbysu yn gallu gwrthwynebu cofrestru AA. Mae rhesymau penodol dros wrthwynebu.

- Gwrthwynebiadau rhagnodedig: nad oedd yr AA erioed wedi'i gweithredu'n gyfreithiol yn y lle cyntaf, er enghraifft, am nad oedd galluedd gan y rhoddwr i'w chreu neu am fod pwysau amhriodol wedi'i roi arno.
- Gwrthwynebiadau ffeithiol: er bod yr AA wedi'i gweithredu'n gyfreithiol, mae wedi peidio â rhoi pŵer, er enghraifft, am fod y rhoddwr wedi marw neu am fod atwrnai'n fethdalwr.

Dim ond yn ystod y cyfnod aros statudol y gellir gwrthwynebu.

Gweler hefyd: 'Cyfnod aros statudol'.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC)

SGC yw'r asiantaeth yng Nghymru a Lloegr sy'n cofrestru AAau ac yn ymchwilio os yw'n bosibl bod atwrnai wedi camddefnyddio AA.

Gweler hefyd: 'Cofrestru'.

Pobl i'w hysbysu

Pobl i'w hysbysu yw unigolion y mae'r rhoddwr yn eu dewis sy'n gorfod cael eu hysbysu am y cais i gofrestru'r AA.

Gall y rhoddwr wneud dymuniadau yn ei AA. Dymuniadau yw pethau y byddai'r rhoddwr yn hoffi i'w atwrneiod feddwl amdanynt wrth wneud penderfyniadau ar ei ran. Dylai atwrneiod gymryd y dymuniadau i ystyriaeth ond nid oes rhaid iddynt eu dilyn.

Gweler hefyd: 'Cyfarwyddiadau'.

Cofrestru

Rhaid i AA gael ei gwirio a'i chofrestru gan SGC cyn y gellir ei defnyddio.

Cyfnod aros statudol

Cyfnod o bedair wythnos yw hwn sydd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth ac sy'n rhan o'r broses cofrestru. Dim ond yn ystod y cyfnod hwn y gellir gwrthwynebu cofrestru AA.

Gweler hefyd: 'Gwrthwynebu'

Tyst

Tystion yw pobl sy'n gwyllo'r rhoddwr a'r atwrneiod yn llofnodi'r AA. Byddant hefyd yn ardystio'r AA drwy lofnodi i ddweud eu bod wedi tystio i'r llofnodi.

Gweler hefyd: 'Gweithred' a 'Gweithredu'.

E02733467

978-1-5286-3266-9